

Ceredigion 12

**Cynllun Datblygu Lleol Newydd
2018 - 2033**

Strategaeth a Ffafir 2019



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Rhagair

I'w gynnwys mewn y dofen adneuo

Cynnwys

Rhagair	i
Rhestr o Dalfyriadau	v
Casglu Tystiolaeth	1
1. Cyflwyniad	4
2. Cyd-destun a Materion Allweddol	11
3. Materion ac Ysgogwyr Allweddol	32
4. Gweledigaeth	37
5. Amcanion Strategol	38
6. Twf Strategol ac Opsiynau Gofodol	43
Adran 6: Y Strategaeth a Pholisïau 'S'	43
Y Strategaeth: Manylion	44
Polisïau Strategol	69
Diagram o'r Chwedl i'r Allwedd yn nodi Canolfannau Gwasanaethau Gwledig wedi'u rhifo, gydag Aneiddiadau Arfaethedig Grŵp Aneiddiadau a mathau o ddatblygiad	93
Atodiad 2: Nodau Llesiant a Ffyrdd o Weithio	97

Rhestr o Dalfyriadau

AA	Asesiad Addas
AAC	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
AAS	Asesiad Amgylcheddol Strategol
AAS	Ardal Adfywio Strategol
AC	Aneddiadau Cyswllt
ACA	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
ACHS	Ardal Chwilio Strategol
ACLI	Awdurdod Cynllunio Lleol
ADLI	Asiantaeth Datblygu Lleol
AEA	Asesiad o'r effaith amgylcheddol
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
ALI	Awdurdod lleol
AMB	Adroddiad Monitro Blynyddol
ARhC	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
ATA	Ardal Tirwedd Arbennig
AU	Addysg uwch
AYC	Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol
BAP	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
BREEAM	Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu
C2020	Strategaeth Gymunedol Ceredigion – Ceredigion 2020
CC	Cytundeb Cyflenwi
CCA	Canllawiau Cynllunio Atodol
CCC	Cyngor Sir Ceredigion
CCDC	Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy

CCGC	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
CDLI	Cynllun Datblygu Lleol
CDLIC	Cynllun Datblygu Lleol Cymru
CDU	Cynllun Datblygu Unedol
CFSH	Cod Cartrefi Cynaliadwy
CGC	Cynllun Gofodol Cymru
CGG	Canolfan Gwasanaeth Cefn Gwlad
CGRh	Cynllun Gwastraff Rhanbarthol
CGT	Canolfannau Gwasanaeth Trefol
CIA	Asesiad effaith ar y gymuned
CIS	Cynllun Cynnwys Cymunedau
CRhBA	Cynllun Rheoli Basn Afon
CTRh	Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
CYPP	Cynllun Plant a Phobl Ifanc Ceredigion
DCWW	Dŵr Cymru – Welsh Water
DTRh	Datganiad Technegol Rhanbarthol
EA	Asiantaeth yr Amgylchedd
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
GIS	Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol
GNG	Gwarchodfa Natur Genedlaethol
GRhA	Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol
Ha	Hectarau
HMO	Tŷ amlfeddiannaeth
IBERS	Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
ICOMOS	Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd
IGER	Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IBERS bellach)

JHLA	Cyd-astudiaeth argaeledd tir ar gyfer tai
LANDMAP	Llinell sylfaen tirwedd Cymru
LBAP	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol
LHMA	Asesiad o'r Farchnad Dai Leol
LHS	Strategaeth Dai Leol
LIC	Llywodraeth Cymru
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cymru bellach)
LNR	Gwarchodfa Natur Leol
MA	Materion Allweddol
MTAN	Nodyn Cyngor Technegol Mwynau
MW	Megawat
ORS	Gwasanaethau Ymchwil Barn
PCC	Polisi Cynllunio Cymru
PCMC	Polisi Cynllunio Mwynau Cymru
RAWP	Gweithgor Agregau Rhanbarthol
RIGS	Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth
ROW	Hawliau tramwy
RQO	Amcan Ansawdd Afon
SA	Arfarniad o gynaliadwyedd
SAR	Adroddiad ar arfarniad o gynaliadwyedd
SATC	Safon Ansawdd Tai Cymru
SDCau	Systemau Draenio Cynaliadwy
SINC	Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SWRAWP	Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru
TAN	Nodyn Cyngor Technegol

TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
Trac	Trafnidiaeth Canolbarth Cymru
UNESCO	Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig
yACA	Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig

Casglu Tystiolaeth

Y Strategaeth a Ffafirir yw'r ddogfen allweddol gyntaf ar gyfer yr CDLI newydd (CDLI2). Mae'n nodi'r materion cynllunio defnydd tir o bwysigrwydd i Geredigion hyd at 2033 ar gyfer ymgynghoriad, **Gweledigaeth Ddrafft** ar gyfer Ceredigion yn 2033, a'r **amcanion** sydd eu hangen i wireddu hyn.

Mae'r Strategaeth yn nodi dull y Cyngor o fynd ati i weithio gyda sefydliadau ac unigolion eraill, ac i gydymffurfio â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn alinio â deddfwriaethau perthnasol eraill ac i gyflawni'r profion cadernid diwygiedig arfaethedig.

Mae'r Strategaeth yn nodi sut dylai twf newydd gael ei ddosrannu a'i gyflenwi yn nhyb y Cyngor, gyda dulliau gweithredu penodol mewn gwahanol leoliadau:

- Lefel Twf arfaethedig:
 - 2,437 (gofyniad tai)
 - 3,000 o anheddau newydd (cyflenwi) (mae'n cynnwys darpariaeth ar gyfer oddeutu 600 o ymrwymadau/cydsyniadau sy'n bodoli eisoes)
- Mae'r Strategaeth Ofodol yn sefydlu Strategaeth Aneddiadau ddiwygiedig

Cynigir chwe pholisi strategol:

Polisi S01 – Twf Cynaliadwy, wedi ei rannu:

- O leiaf 55% o Ganolfannau Gwasanaeth Trefol (dyraniadau a safleoedd ar hap) yn unol â pholisi S02;
- 20% mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig (dyraniadau) yn unol â pholisi S03;
- 15% mewn aneddiadau cyswllt mawr;
- 10% yn yr aneddiadau cyswllt cynaliadwy yn unol â pholisi S04;
- Cynigion yn unol â'r Polisi Cenedlaethol ar aneddiadau cyswllt a lleoliadau eraill yn unig.
- Cyfleoedd cyflogaeth i ddarparu ar gyfer **XXXX** o swyddi, yn unol â pholisïau S02, S03, S04 (naill ai ar ddyraniadau, neu safleoedd heb eu dyrannu yn unol â pholisïau LU11–LU21.

Polisi S02 – Datblygiadau mewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol

- Canolfannau Gwasanaeth Trefol (CGT) fel lleoliad cynaliadwy ar gyfer datblygiadau, dim cyfyngiad ar gyfanswm y twf, tai ar aneddiadau cyswllt mawr CGT (dyraniadau a safleoedd ar hap); ffiniau aneddiadau ar gyfer y ddau.

Polisi S03 – Datblygiadau mewn Canolfannau Gwasanaeth Cefn Gwlad

- Datblygiadau tai yn unol ag CCA Datganiad y Grŵp Aneddiadau (dyraniadau a safleoedd ar hap, ffiniau mewnol) (ffiniau allanol: safleoedd eithriadol yn unig);
- datblygiadau cyflogaeth (canolig) wedi/heb eu dyrannu;
- manwerthu (dewis o nwyddau cyfleus);
- defnyddiau eraill o fewn / ger y ffin.

Polisi S04 – Datblygiadau mewn aneddiadau cyswllt a lleoliadau eraill

- Bydd darpariaeth tai cyffredinol dim ond yn cael ei chaniatáu yn yr 'aneddiadau cyswllt mawr' a'r aneddiadau cyswllt cynaliadwy.
- Bydd angen cyfiawnhad mewn mannau eraill [nodi angen nas diwallwyd am dai fforddiadwy]; TAN 6 'Menter Wledig', TAN 24 (gwarchod ased hanesyddol), LU09 (aildefnyddio hen anheddau neu anheddau a adawyd yn segur), PCC 3.56 'Datblygiadau mewn Cefn Gwlad' yn cynyddu gweithgarwch economaidd.
- Datblygu Economaidd ar safle a neilltuwyd neu ddatblygiad bach i ddiwallu angen lleol; sy'n cydymffurfio â TAN 6: Menter Wledig;
- I aneddiadau cyswllt, mae'n cydymffurfio â PCC 3.56, o fewn neu'n union ar bwys adeilad parhaol ac i Leoliadau Eraill, mae'n cydymffurfio â TAN 6 neu, i dai fforddiadwy, mae wedi ei leoli'n union ar bwys grŵp o anheddau sy'n bodoli eisoes (para 3.56 / TAN 2 para 10.13)

Polisi S05 – Tai fforddiadwy

- Mae angen targed sy'n seiliedig ar ganlyniad LHMA rhanbarthol cyfredol a gwaith hyfywedd strategol. Bydd y targed wedi'i gynnwys yn y Cynllun Adneuo
- Manylion polisi: rhaid i gyfraniadau gael eu llywio gan yr Astudiaeth o Hyfywedd Rhanbarthol a fydd wedi'i chynnwys yn y Cynllun Adneuo.

- Bydd safleoedd tai eithriadol dim ond yn cael eu caniatáu yn union ar bwys ffiniau.

Polisi S06 – Cynllunio a'r Gymraeg

- Mae polisi newydd yn nodi dull 'sir gyfan' o ymdrin â sensitifrwydd ieithyddol.

Bydd y Cynllun Adneuo yn cynnwys targed ar gyfer cyflenwi tai fforddiadwy; targed ynni adnewyddadwy; ffiniau a dyraniadau aneddiadau, a nodwyd ar fapiau'r cynigion, a chyfran Ceredigion o'r gofynion ar gyfer banc tir mwynau ar gyfer cynhyrchu creigiau wedi'u malu a thywod a graean. Bydd yn cael ei lywio gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft, y Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a fydd yn cael ei fabwysiadu, ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar Dai Fforddiadwy, Datganiadau Ardal a fydd yn ymddangos gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Canolbarth Cymru ac Ardaloedd Morol, ac Asesiad Seilwaith Gwyrdd, ymhlith pethau eraill, ynghyd â gwaith ymchwil parhaus a fydd yn cael ei wneud gan y Cyngor Sir a chan waith y Cyngor Sir gydag eraill.

1. Cyflwyniad

CDLI 2 Ceredigion 2018–2033

- 1.1 Bydd poblogaeth Ceredigion yn tyfu yn ystod y 15 mlynedd nesaf, ond bydd hwn o bwynt dechrau is nag y rhagwelwyd yn yr CDLI cyfredol. Bydd patrymau newidiol yn y boblogaeth, ynghyd â mwy o bobl hŷn a thueddiad am aelwydydd llai o faint, yn gofyn am gyflenwad tai newydd. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gyflawni cyfleoedd economaidd gwell a datblygu sgiliau cysylltiedig fel y nodwyd yn yr uchelgais ar gyfer 'Tyfu Canolbarth Cymru'. Yn ogystal â datblygu cyfleoedd economaidd a sgiliau, bydd yn bwysig cyflenwi tai i ddiwallu'r symudiad a ragwelir tuag at faint aelwydydd.
- 1.2 Mae'n bwysig fod twf o'r fath yn cael ei gynllunio'n briodol er budd y gymuned ac er mwyn creu lleoedd egnïol a chymdeithasol sy'n cyflwyno cyfleoedd i'r Gymraeg ffynnu, cyflenwi datblygiadau cynaliadwy, diogelu'r amgylchedd, sicrhau camau cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, darparu mannau gwyrdd ac annog ffyrdd o fyw iach.
- 1.3 Mae deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol yn gofyn i bob awdurdod cynllunio lleol ar draws Cymru baratoi a chynnal Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) i ymdrin â goblygiadau defnydd tir newidiadau o'r fath, ac mae'n gwneud hyn yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddfau Llywodraeth Cymru (1998, 2006), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.
- 1.4 Mabwysiadodd Cyngor Sir Ceredigion ei CDLI cyfredol yn 2013, mae wedi paratoi Adroddiadau Monitro Blynyddol, mae wedi cyhoeddi Adroddiad Adolygu fel rhagarweiniad i ddechrau'r gwaith ar gynllun newydd, ac mae wedi dod i gytundeb am ei Gytundeb Cyflenwi, gan nodi sut a phryd bydd prif gamau'r CDLI yn cael eu cymryd a sut bydd y Cyngor yn cynnwys pobl a sefydliadau wrth ei baratoi. Bydd y cynllun yn ymdrin â'r cyfnod rhwng

Ebrill 2018 a diwedd Mawrth 2033, gyda'r polisïau dim ond yn dod i rym ar yr adeg fabwysiadu. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn parhau i fod mewn grym hyd oni y mabwysiadir y Cynllun Newydd (CDLI 2) neu 31 Mawrth 2022.

Beth yw'r Strategaeth a Ffafrir ar gyfer yr CDLI?

- 1.5 Y Strategaeth a Ffafrir yw'r ddogfen strategol allweddol gyntaf sydd wedi ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad, a chafodd ei pharatoi fel cyfnod allweddol gofynnol i ddatblygu'r CDLI2 newydd. Mae'r Cyngor yn gofyn am sylwadau ar y Strategaeth o fewn y cyfnod ymgynghori ac yn gwahodd cyflwyniad Safleoedd Ymgeisiol (fel dyraniadau posibl).
- 1.6 Wrth geisio nodi'r newidiadau i'w cynnwys yn y cynllun newydd, nid yw'r Cyngor wedi cynnwys yr opsiynau hynny a wrthodwyd wrth baratoi CDLI1. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd integredig wedi'i gyfyngu i newidiadau a gynigiwyd i CDLI1, h.y. ymdrin â'r prif faterion a nodwyd yn yr Adroddiad Adolygu ac, ar yr un pryd, cynnwys newidiadau cyd-destunol sy'n deillio o newidiadau mewn deddfwriaethau, polisïau a chanllawiau ers paratoi'r Cynllun a fabwysiadwyd. Nid yw'r Cyngor wedi edrych ar opsiynau eraill ehangach, gan ystyried bod y Strategaeth o fewn y Cynllun a fabwysiadwyd wedi'i chytuno gan yr Arolygydd ¹fel yr un mwyaf cynaliadwy o'r opsiynau a ystyriwyd gan y Cyngor ar yr adeg honno.
- 1.7 Mae'r Strategaeth a Ffafrir yn nodi dull strategol y Cyngor o ymdrin â datblygu a defnyddio tir hyd at 2033, gan adeiladu ar yr hyn sy'n parhau i fod yn briodol o fewn yr CDLI cyfredol a chan nodi dull gweithredu arall, pan fo angen, mewn ymateb i gyd-destun ac amgylchiadau newidiol. Mae'n nodi gweledigaeth, amcanion strategol a strategaeth ofodol eang y Cyngor, gan ddarparu fframwaith ar gyfer polisïau strategol, sy'n nodi graddfa'r datblygiad sydd ei angen ac, yn fras, lle mae hwn yn debygol o fod.

¹ <https://www.ceredigion.gov.uk/oldicm/index.cfm?articleid=20748>

- 1.8 Nid dyma'r cynllun llawn, y Cynllun Adneuo, a fydd yn cael ei baratoi ar ôl mwy o waith ar ystyried yr ymatebion a geir i'r ymgynghoriad hwn ac i baratoi newidiadau polisi a mapiau cynigion manwl ar gyfer Rheoli Datblygiad a Defnydd Tir, a fydd yn nodi ffiniau aneddiadau manwl a dyraniadau safle penodol. Mae llawer o'r polisiâu manwl yn parhau i fod yn addas i'r diben, ac mae drafft o'r rhain wedi ei ddarparu i gael sylwadau cynnar.²
- 1.9 Mae'r Strategaeth a Ffafir wedi ei pharatoi, gan ddefnyddio gwybodaeth o'r ffynonellau canlynol:
- Deddfwriaethau, polisiâu a chanllawiau cenedlaethol
 - Strategaethau lleol, rhanbarthol ac adrannol
 - Adroddiadau Monitro Blynnyddol sy'n dangos agweddau ar berfformiad y Cynllun
 - Adolygiad o'r dystiolaeth o brif faterion a diweddariadau cyd-destunol³
 - Sgyrsiau gyda rhanddeiliaid allweddol ac ymgysylltu â'r gymuned
 - Mae gwaith cydweithredol rhanbarthol wedi'i wneud ar dai (Asesiad Trawsffiniol o'r Farchnad Dai, Asesiad Hyfywedd Strategol), tir economaidd/cyflogaeth, mwynau a materion gwastraff. Mae goblygiadau trawsffiniol materion eraill, gan gynnwys y Gymraeg, hefyd wedi'u hystyried.
- 1.10 Mae'n werth nodi ein bod yn aros am nifer o ddogfennau polisi a darnau o waith ymchwil cenedlaethol a rhanbarthol arwyddocaol a allai ddylanwadu'n fawr ar gynnwys y Cynllun Adneuo, gan gynnwys:
- Ystyriaeth Llywodraeth Cymru o ryw fath o Dreth Tir ar dir na ddatblygwyd
 - Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru⁴

² Gan nodi y gallai'r polisiâu manwl newid yn ystod y gwaith adneuo, os bydd tystiolaeth i gefnogi newid.

³ Rhestr o bapurau pwnc diwygiedig ar gael

⁴ Ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft – Medi 2019; ystyriaeth y Cynulliad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft Ebrill – Mehefin 2020' cyhoeddiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020

- Datganiadau Ardal a gynigir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Canolbarth Cymru a'r Ardal Forol
- Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy⁵
- Comisiwn Tyfu Canolbarth Cymru ar Dir Cyflogaeth yng Nghanolbarth Cymru
- Ymchwil gydweithredol ar Bolisi Cynllunio canolbarth a de-orllewin Cymru: Astudiaeth o Hyfywedd Rhanbarthol ac Asesiad Trawsffiniol o'r Farchnad Dai
- Gwaith cydweithredol o dan ail adolygiad datganiad technegol rhanbarthol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De a Gorllewin Cymru o ddyraniadau tywod a graean
- Gwaith ymchwil Cyngor Sir Ceredigion ar Asesiad o Anghenion Llety Teithwyr a Sipsiwn er mwyn llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adneuo
- Gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ar Asesiad o Ynni Adnewyddadwy er mwyn llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adneuo / Targed Ynni Adnewyddadwy
- Gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ar Asesiad o Seilwaith Gwyrdd er mwyn llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adneuo

Dogfennau Ategol

1.11 Mae'r Strategaeth a Ffafir wedi bod yn destun:

- Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) integredig, sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS);
- Adroddiad Arfarnu Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC);
- Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA); ac
- Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA).⁶

⁵ https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/adolygiad-annibynnol-or-cyflenwad-o-dai-fforddiadwy-adroddiad_0.pdf

⁶ I'w baratoi i fynd gydag adroddiadau Craffu / y Cabinet

- 1.12 Drwy asesu ac arfarnu'n drwyadl, mae'r dogfennau hyn yn ceisio dangos y graddau y mae'r Cyngor wedi mynd iddynt i gyflawni saith nod y Ddeddf Llesiant; ategir hyn gan bapur tystiolaeth sy'n nodi'r gydberthynas rhwng y nodau hyn ac amcanion y Cynllun⁷. Mae'r holl arfarniadau/asesiadau hyn wedi ceisio dilyn pum ffordd o weithio'r Ddeddf.
- 1.13 Mae'r canlynol hefyd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffafrir:
- Dogfen Gryno: strwythur dogfennau, ffigurau allweddol a sylfaen dystiolaeth ddiwygiedig;
 - Dogfen ar Bolisiâu Defnydd Tir;
 - Polisiâu Rheoli Datblygiadau;
 - Dogfen ar Bolisiâu a Ddilëwyd;
 - Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol;
 - Diweddariadau tystiolaeth ar gyfer materion y mae'r Strategaeth a Ffafrir yn dibynnu arnynt.
- 1.14 Mae'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn dangos safleoedd a gyflwynwyd i'r Awdurdod mewn ymateb i'w 'Alwad am Safleoedd Ymgeisiol' – awgrymiadau gan bobl a sefydliadau ar gyfer safleoedd i'w hystyried ar gyfer eu datblygu, neu i gael eu gwarchod rhag cael eu datblygu. Nid yw'r Cyngor wedi penderfynu eto pa safleoedd fydd yn cael eu cynnwys fel dyraniadau neu rai a warchodir rhag cael eu datblygu, oherwydd gallai hyn ddibynnu ar ymatebion i'r Strategaeth a Ffafrir.
- 1.15 Ochr yn ochr ag ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir, bydd y Cyngor yn ailagor yr alwad am Safleoedd Ymgeisiol; bydd hyn hefyd yn cynnwys y cyfle i'r bobl hynny sydd eisoes wedi cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol heb dystiolaeth ategol i gyflwyno'r dystiolaeth hon.

7

Mae dogfennau pellach sydd eisoes wedi'u cyhoeddi yn cynnwys y canlynol:

- Yr Adroddiad Adolygu
- Y Cytundeb Cyflenwi

1.16 Dogfennau cyngori sy'n nodi'r meddylfryd presennol ar raddfa'r newidiadau posibl i bolisiau Rheoli Datblygiadau a Defnydd Tir, gan gynnwys y polisiau hynny y bwriedir eu dileu, ond dylid nodi y gallai hyn newid mewn ymateb i ymatebion a dderbynnir a thystiolaeth bellach wrth i waith fynd rhagddo ar y 'Cynllun Adneuo'.

Ymgynghori ac Ymgysylltu Cymunedol Blaenorol

1.17 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi pob adroddiad monitro blynyddol ac, yn 2017, cyhoeddodd ei Adroddiad Adolygu o'r CDLI ar gyfer ymgynghoriad a drafft o Gytundeb Cyflenwi'r CDLI.

1.18 Mae'r Cyngor wedi ceisio ymgysylltu â sefydliadau ac unigolion, yn arbennig drwy Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol yr CDLI, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Grŵp Prosiect y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Newid yn yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol, y Bartneriaeth Tai Strategol a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Ceredigion.

1.19 Cafodd galwad cyhoeddus cychwynnol am safleoedd ymgeisiol ei wneud rhwng 29 Mehefin 2018 a Medi 2018. Mae hwn yn cael ei ailagor oherwydd ansawdd gwael yr ymatebion a dderbyniwyd, nad oedd llawer ohonynt yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol.

Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn

1.20 Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffafir a'r Galwad estynedig am Safleoedd Ymgeisiol yn rhedeg rhwng **XX** Mehefin 2019 a 12

hanner dydd ar 5 Medi 2019 (o leiaf chwe wythnos, wedi'i ehangu i ganiatáu ar gyfer gwyliau'r haf).

- 1.21 Gellir gwneud sylwadau yn ysgrifenedig, drwy'r post neu dros e-bost.
- 1.22 Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir i'r ddogfen ymgynghori yn cael eu hystyried a byddant yn llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adneuo. Bydd yr holl sylwadau, gan gynnwys manylion enwau a sefydliadau'r rhai sy'n rhoi sylwadau, yn cael eu gwneud yn gyhoeddus.

2. Cyd-destun a Materion Allweddol

Trosolwg

- 2.1 Gyda'r pedwerydd arwynebedd tir mwyaf⁸ o holl awdurdodau lleol Cymru, Ceredigion yw'r ail leiaf o ran dwysedd poblogaeth (40.9 o bobl fesul cilomedr sgwâr, 2017). Mae ei chwe phrif drefi, Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron, ynghyd â'r trefi cyfagos ar y ffin, yn cefnogi ardal gefn gwlad fawr. Caiff Aberystwyth ei hadnabod fel tref o arwyddocâd cenedlaethol⁹. Mae Bae Aberteifi, Mynyddoedd Cambria ac aberoedd Dyfi a Teifi yn ffurfio amlinellau naturiol o ffiniau'r sir.
- 2.2 Mae Ceredigion yn cynnwys chwe phrif dref, amrywiaeth o drefi llai o faint a phentrefi mwy o faint, ynghyd â phlethora o bentrefi llai, i gyd wedi'u britho â lleiniau unigol neu glystyrau o ddatblygiadau, ac mae pob un o'r rhain yn dibynnu ar ei gilydd i ddarparu amrediad llawn o swyddogaethau wedi'u rhwydweithio.
- 2.3 Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth y sir ar hyd yr arfordir, gyda llawer llai o bobl yn byw yn yr ucheldiroedd mewndirol. Mae amcanestyniadau Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2014 yn darparu ffigur poblogaeth o 76,324¹⁰ a, chan gymryd yn ganiataol y bydd y duedd hirdymor o fewnfudo yn parhau, amcanestynnir y bydd y ffigur hwn yn cynyddu i oddeutu 80,499¹¹ erbyn 2033, serch y nifer uwch o farwolaethau na genedigaethau yn y sir. Roedd y disgwyliad oes ar enedigaeth ymhlith yr uchaf yng Nghymru yn ystod 2010–12 (79.9 blynedd i ddynion ac 83.9 mlynedd i fenywod). Bydd hyn, ynghyd â'r chwydd ym mhroffil y boblogaeth a achoswyd gan y genhedlaeth

⁸ Oddeutu 1,786 km²

⁹ Cynllun Gofodol Cymru, Llywodraeth Cymru 2008

¹⁰ Prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2018

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2014-based/populationprojections-by-localauthority-year>

¹¹ Yn seiliedig ar amcanestyniadau a gynhyrchwyd gan Gyngor Sir Ceredigion yn 2019 – gweler y Papur Cefndir.

ôl-ryfel, bwm babanod oedrannus, yn golygu y bydd nifer yr henoed yn cynyddu'n sylweddol.

- 2.4 Gyda thros hanner poblogaeth y trigolion (52.2%)¹² yn meddu ar ddealltwriaeth o'r Gymraeg a 47% yn siarad Cymraeg, mae'n rhan annatod o wead cymdeithasol Ceredigion. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y rhannau o'r sir sydd â'r nifer uchaf ac isaf o siaradwyr Cymraeg. Wrth i boblogaeth Ceredigion newid, mae pryderon ynghylch cryfder yr iaith, yn enwedig wrth i'r bobl ifanc a gafodd fudd o addysg Gymraeg orfodol o fewn y sir symud i ffwrdd.

Cyd-destun Cenedlaethol

- 2.5 Mae gan yr CDLI rôl allweddol mewn llywio'r penderfyniadau ar raddfa a dosbarthiad datblygiadau o fewn y sir. Caiff yr CDLI ei baratoi o fewn fframwaith deddfwriaethol, polisi a gweithdrefnol cenedlaethol. Mae'r adran hon yn nodi prif elfennau'r fframwaith deddfwriaethol cenedlaethol a'r fframwaith polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi helpu i lywio CDLI Ceredigion. Ni ddylid ystyried hon yn rhestr gyflawn. Ceir rhagor o fanylion ar sut mae'r rhain a dogfennau eraill wedi dylanwadu ar yr CDLI yn y sylfaen dystiolaeth (yn benodol, yn y Papurau Pwnc) ac yn yr Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) a'r Adroddiad Sgrinio ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

Deddfwriaeth

- 2.6 Mae nifer o ddarnau newydd allweddol o ddeddfwriaeth a ddeddfwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn effeithio ar gynnwys a ffyrdd gweithio'r Cynllun newydd. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Deddf Tai (Cymru) 2015
 - Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrrff cyhoeddus i gyflawni datblygiadau

¹² Dealltwriaeth o Gymraeg, Cyfrifiad 2011

cynaliadwy. Mae'n cyflwyno saith nod llesiant¹³ a phum ffordd o weithio, sy'n annog pawb i feddwl am lunio polisïau mewn modd integredig a chydweithredol, gan ddefnyddio tueddiadau hirdymor i gyflawni datblygiadau cynaliadwy¹⁴.

- Mae **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** yn cyflwyno'r fframwaith datblygu cenedlaethol sy'n disodli Cynllun Gofodol Cymru, ynghyd â gofyniad am Gynlluniau Datblygu Strategol ledled Cymru ac am 'fân' Gynlluniau Datblygu Lleol pan fo cynlluniau datblygu strategol ar waith.
- Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn rhoi deddfwriaeth ar waith i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru. Mae'n cynnwys dyletswydd bioamrywiaeth uwch sy'n gofyn i awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

- 2.7 **Cynllun Gofodol Cymru.** Rhaid i'r cynllun 'ystyried' Cynllun Gofodol Cymru (Deddf Cynllunio a Phrynu Gofodol 2004), hyd oni y bydd yn cael ei ddisodli gan Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru pan gaiff ei gymeradwyo¹⁵.
- 2.8 Mae'r Cynllun yn nodi Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Phowys fel ardal Canolbarth Cymru, sy'n cael ei disgrifio fel "canolbwynt y bywyd gwledig ac un o storfeydd cyfalaf amgylcheddol Cymru". Mae'n nodi Aberystwyth fel aneddiad o Bwysigrwydd Cenedlaethol sy'n ganolfan strategol ar gyfer Canolbarth Cymru, ac Aberaeron, Aberteifi, Llandysul, Llanybydder (Sir Gaerfyrddin), Llanbedr Pont Steffan a Thregaron fel Aneddiadau Allweddol sydd hefyd â rôl bwysig i'w chwarae o fewn yr ardal.

¹³ Yn Atodiad 2

¹⁴ Fel uchod

¹⁵ Cyhoeddiad arfaethedig 2020

- 2.9 Diweddarwyd Cynllun Gofodol Cymru ddiwethaf yn 2008 a bydd wedi ei ddisodli yn ei gyfanrwydd gan y dyddiad a drefnwyd ar gyfer cyflwyno'r Cynllun¹⁶.
- 2.10 **Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**, sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd. Mae ymgynghoriad wedi ei drefnu ym mis Gorffennaf 2019 ar gyfer y cynllun drafft a bwriedir ei gyhoeddi erbyn Medi 2020. O'r adeg y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad, bydd y Cyngor yn gweithio tuag at sicrhau cysondeb yr CDLI Adneuo, a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft fydd y ddogfen fwyaf perthnasol cyn cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a gyhoeddir fydd y Cynllun Cenedlaethol perthnasol ar yr adeg y cyflwynir y Cynllun newydd i'w archwilio'n annibynnol.
- 2.11 Mae **Argraffiad 10 Polisi Cynllunio Cymru (PCC)**¹⁷ yn nodi mai'r flaenoriaeth gynllunio genedlaethol allweddol yw cyflawni lleoedd cynaliadwy o ansawdd uchel drwy greu lleoedd. Mae PCC yn gofyn i ni edrych ar bethau mewn modd ehangach, cynaliadwy sy'n datrys problemau, sy'n canolbwyntio ar integreiddio ac ymdrin â materion lluosog. Mae hyn yn golygu symud i ffwrdd o'r dull traddodiadol o ystyried meysydd polisi yn unigol, gan annog polisïau sy'n fwy seiliedig ar leoedd. Mae'n nodi pum Canlyniad Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol:
- Creu a chynnal cymunedau
 - Tyfu ein heconomi mewn modd cynaliadwy
 - Gwneud y defnydd gorau o adnoddau
 - Diogelu'r amgylchedd cymaint â phosibl a chyfyngu'r effaith ar yr amgylchedd
 - Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach
- 2.12 Mae **Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTANs)** yn ategu PCC gyda chanllawiau technegol.

¹⁶ Rhagfyr 2020

¹⁷ 2018

Mae PCC yn cydnabod bod cynllunio a defnydd tir yn cyfrannu at ddatblygu economaidd, yn gwarchod asedau naturiol Cymru, ac yn cyfrannu at iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd unigolion a chymunedau.

2.13 Mae dogfennau polisi cenedlaethol eraill Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'r Cynllun yn cynnwys y canlynol:

- **'Ffyniant i Bawb'**¹⁸, y Strategaeth Economaidd Genedlaethol
- **Cymraeg 2050**¹⁹, y cynllun gweithredu cenedlaethol sy'n nodi strategaeth i sicrhau bod y Gymraeg nid yn unig yn cael ei chefnogi, ond bod ganddi'r amgylchedd cywir i ffynnu, gyda tharged i gyrraedd un filiwn o siaradwyr erbyn 2050.
- **Y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol i Gymru 2015 a 2017.** Mae'r diweddariad yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni'r canlyniadau a osodwyd yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru o 2015 ymlaen. Mae'r Cynllun yn cynnwys yr holl ymyriadau trafndiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Cyd-destun Rhanbarthol

2.14 Nid oes gan y Cyngor gynigion cyfredol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol.

Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

2.15 Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn cynnwys cyrff cynrychiadol a rhanddeiliaid allweddol o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yng nghanolbarth Cymru. Cafodd ei sefydlu yn 2015 "i ddatblygu swyddi, twf a'r economi ehangach o fewn rhanbarth Canolbarth Cymru", drwy wneud y canlynol:

- Cyflawni gwell canlyniadau economaidd ledled y rhanbarth drwy weithio mewn partneriaeth

¹⁸ Llywodraeth Cymru, 2017

¹⁹ Llywodraeth Cymru, 2017

- Arwain dull gweithredu cydweithredol y rhanbarth tuag at ddatblygu economaidd
- Cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer creu swyddi a thwf economaidd yn y rhanbarth
- Darparu llais cryf ar gyfer yr economi ranbarthol wledig yn bennaf yng nghanolbarth Cymru

2.16 Caiff blaenoriaethau'r bartneriaeth ar gyfer twf eu nodi yn ei Fframwaith Gweithredu²⁰ a'u hadeiladu arnynt yn yr Adroddiad ar y 'Blaenoriaethau Economaidd Strategol ar gyfer Canolbarth Cymru'²¹, sy'n amlinellu'r blaenoriaethau i gyflawni twf economaidd gweddnewidiol ac sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer llywio Bargen Dwf bosibl ar gyfer Canolbarth Cymru gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

2.17 1.2. Bwriedir gwireddu gweledigaeth y bartneriaeth ar gyfer Canolbarth Cymru erbyn 2033 drwy amcanion rhyng-gysylltiedig a rhaglenni gweddnewidiol fel y dangosir yn y diagram canlynol:

AMAETHYDDIAETH A'R ECONOMI WLEDIG	Y WELEDIGAETH								
	Rhanbarth unigryw a llawn menter sy'n darparu twf economaidd wedi'i yrru gan arloesi, sgilliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchiol ac yn cefnogi cymunedau ffyniannus a dwyleithog								
AMDDIFFYN A DIOGELWCH	AMCAN		AMCAN			AMCAN			
	Canolbarth Cymru arloesol a medrus		Canolbarth Cymru cystadleuol a chynaliadwy			Canolbarth Cymru cysylltiedig ac unigryw			
TWRISTIAETH GWEITHGYNHYRCHU YR ECONOMI SYLFAEN	RHAGLEN	RHAGLEN	RHAGLEN	RHAGLEN	RHAGLEN	RHAGLEN	RHAGLEN	RHAGLEN	
	Sgilliau	Arloesi	Eiddo	Busnes	Ynni	Trafnidiaeth	Digidol	Lle	

²⁰ <https://cy.powys.gov.uk/article/5550/Tyfu-Canolbarth-Cymru>

²¹ <https://cy.powys.gov.uk/article/5550/Tyfu-Canolbarth-Cymru>

- 2.18 Mae'r blaenoriaethau allweddol o bwys i Geredigion ac o berthnasedd i'r CDLI yn cynnwys y canlynol:

Sgiliau

- Cynyddu lefelau sgiliau technegwyr uchel a chanolradd a sgiliau'r gweithlu ehangach

Arloesedd

- Hyrwyddo arloesedd pellach mewn sectorau allweddol fel amaethyddiaeth a bwyd, amddiffyniad, gwyddor milfeddygaeth, technoleg carbon isel a gweithgynhyrchu

Eiddo

- Sicrhau bod cyflenwad a lleoliad cywir o dir cyflogaeth ac eiddo masnachol ar gael i ddiwallu anghenion busnes, fel cydran hanfodol o gefnogi twf a chynaliadwyedd yr economi ranbarthol, gan gynnwys canolfannau menter ac arloesedd (Canolfannau Gigabit) mewn aneddiadau allweddol
- Mae'r blaenoriaethau gweddnewidiol yn cynnwys buddsoddi mewn cyfleoedd strategol am dwf mewn sectorau, gan gynnwys y sbectrum radio, cerbydau awyr di-griw, gweithgynhyrchu, amaethyddiaeth a'r fioeconomi, a'r economi hydrogen
- Buddsoddiadau i gefnogi'r gwaith o gyflenwi tai drwy gyflymu'r broses gwblhau a gwneud cyfraniadau ychwanegol tuag at gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy

Busnes

- Pecyn cymorth busnes uwch a'r posibilrwydd o barth menter aml-safle yng nghanolbarth Cymru
- Bydd gwell seilwaith digidol yn cynnig cyfle arwyddocaol i dyfu a denu mentrau newydd
- Bydd cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio amaethyddol a datblygu cadwynau cyflenwi yn hanfodol i'r economi ranbarthol

Ynni

- Mae buddsoddi mewn cynhyrchu a dosbarthu ynni carbon isel yn cyflwyno cyfle arwyddocaol i gefnogi twf economaidd ac arallgyfeirio. Mae buddsoddi mewn seilwaith grid er mwyn cynyddu'r capasiti yn hanfodol i gefnogi twf hirdymor.
- Gall buddsoddi mewn rhaglen cynhyrchu ynni carbon isel ar gyfer gwres a phŵer o ffynonellau amrywiol y gellir eu hintegreiddio i mewn i gynlluniau twf yn y dyfodol wireddu buddion economaidd a chymunedol sylweddol i'r rhanbarth.
- Mae'r Rhaglen Ynni yn ategu'r Rhaglenni Busnes a Sgiliau yn gryf, gyda chyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar botensial troi gwastraff amaethyddol yn ynni, ochr yn ochr â buddsoddiad er mwyn cefnogi ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan.
- Arallgyfeirio diwydiannau ar dir, ymchwil a datblygiad, hyfforddiant, a chreu mentrau newydd.

Digidol

- Buddsoddi yn seilwaith digidol y rhanbarth er mwyn cystadlu â rhanbarthau eraill, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd newydd, a chefnogi effeithlonrwydd ym mhob sector o'r economi.

Trafnidiaeth

- Buddsoddi ymhellach mewn coridorau ffordd a rheilffordd strategol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau trafndiaeth sylfaenol sy'n cyfyngu symudiad o amgylch y rhanbarth

Lle

- Canolbwyntio ar adeiladu rhanbarth mwy annibynnol sy'n darparu twf i'w aneddiadau, ei drigolion a'i fusnesau a chyfleusterau newydd a modern ar gyfer cynadleddau a digwyddiadau.
- Gwella'r gwaith o hyrwyddo canolbarth Cymru'n allanol fel cyrchfan i ymwelwyr ac er mwyn denu buddsoddiad mewnol, gan gynnwys marchnata lleoedd mewn modd cydlynol, gan adeiladu ar fentrau strategol sy'n bodoli eisoes, fel Ffordd Cymru.

- Annog buddsoddiadau mewn cyfleoedd gweddnewidiol, a lleoliadau fel modd o arallgyfeirio'r cynnig twristiaeth a chynyddu ei elw a'r cyfraniad y mae'n ei wneud i dwf economaidd yng nghanolbarth Cymru, fel:
 - Arfordir Ceredigion, lle y mae llawer o gyfleoedd yn bodoli i ddenu buddsoddiad i mewn i borthladdoedd y rhanbarth
 - Gwaith adnewyddu arfaethedig ar yr Hen Goleg, Aberystwyth, fel gwesty a chyfleuster ar gyfer cynadleddau
 - Datblygu atyniadau cyrchfan twristiaeth strategol o werth uchel, fel Ystrad Fflur, sy'n cynnig cyfleoedd sylweddol o bwysigrwydd rhyngwladol ar sail ei threftadaeth ddiwylliannol a'i phwysigrwydd hanesyddol i archaeoleg a hyfforddiant archeolegol
- Ysgogi buddsoddiad yn y rhwydwaith o drefi marchnad a chyrchfannau ymwelwyr yng nghanolbarth Cymru.

Adolygiad cyntaf o Gynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru (LICC, 2008)

- 2.19 1.4. Mae hwn yn darparu fframwaith cynllunio defnydd tir ar gyfer sut i reoli gwastraff yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr adolygiad cyntaf o Gynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru yn 2008. Mae'r adolygiad yn fframwaith strategol ar gyfer paratoi CDLlau. Mae'n darparu gwybodaeth strategol am y mathau o gyfleusterau gwastraff sydd eu hangen a'r mathau o leoliadau sy'n debygol o fod yn dderbyniol, ond nid yw'n ceisio dod â'r ddau beth ynghyd i nodi pa dechnolegau dylid eu nodi ac ym mha safle neu ym mha ardal chwilio. Mae angen i'r broses hon o gyfuno'r ddwy elfen gael ei gwneud ar lefel leol drwy broses baratoi'r CDLI.

Adolygiad Cyntaf o Ddatganiad Technegol Rhanbarthol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De a Gorllewin Cymru (SWRAWP) 2014

- 2.20 Cyhoeddwyd Datganiad Technegol Rhanbarthol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De a Gorllewin Cymru - Adolygiad 1af (RTS1) yn Awst 2014. Mae wrthi'n cael ei adolygu fel rhan o'r gofyniad i'w adolygu bob pum mlynedd, a dylai'r ail adolygiad gael ei gyhoeddi cyn diwedd blwyddyn ariannol 2019-20. Prif ddiben Adolygiad Cyntaf y DTRh yw nodi'r strategaeth ar gyfer darparu agregau yn Rhanbarth De Cymru ar gyfer y cyfnod hyd at 2036 ar gyfer craig wedi ei falu a 2033 ar gyfer tywod a graean o'r tir. Mae'n pennu'r cyfraniad tuag at anghenion rhanbarthol y dylai pob Awdurdod Cynllunio Lleol gynllunio ar ei gyfer yn ei fanc tir, y cyfeirir ato fel 'dosrannu'. Mae ffigurau banc tir yn deillio o rannu'r cronfeydd cyfredol o fwynau gyda chaniatâd cynllunio / dyraniad CDLI gyda'r cyfartaledd a gynhyrchwyd yn y ddeng mlynedd flaenorol. I orllewin Cymru, mae hwn yn darged rhanbarthol cyfunol ar gyfer awdurdodau Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae angen i'r holl awdurdodau hyn gytuno ar sut y dylid cyflawni'r targed rhanbarthol ar gyfer pob CDLI newydd, gan ddarparu cyfeiriad clir ar gyfer CDLlau i ddod²².
- 2.21 Rhaid ystyried yr anghenion a nodwyd yn Adolygiad Cyntaf ac Ail Adolygiad y DTRh, a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu ym mholisiau a dyraniadau Cynllun Adneuo'r CDLI.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Trac Canolbarth Cymru 2009 a Chyd-gynllun Trafnidiaeth Leol Canolbarth Cymru (LTP) 2015

- 2.22 Trac oedd y consortiwm trafndiaeth rhanbarthol ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru a oedd yn gyfrifol am gyflawni gwelliannau i system drafndiaeth ardal Trac. Mae'r ddogfen yn pwysleisio'r angen am system

²² Mae cyfarfod swyddogion wedi'i drefnu ar gyfer Mehefin 2019 i bennu'r dosraniad arfaethedig o'r cyfanswm rhanbarthol i awdurdodau cynllunio

drafnidiaeth sy'n mynd ati'n effeithiol i leihau effaith teithio/trafnidiaeth ar yr hinsawdd ac yn cefnogi cymdeithas sy'n economaidd hyfyw ac yn gynhwysol yn gymdeithasol. Mae'n gofyn am argaeledd cymorth refeniw digonol gan y llywodraeth. Mae'r pwyslais ychwanegol ar ystyried dulliau cynaliadwy o deithio, gan sicrhau bod hygyrchedd a rhwyddineb defnyddio yn cael eu hystyried o fewn datblygiadau, yn amlygu'r rôl bwysig sydd gan drafnidiaeth i'w chwarae mewn cynnal cymunedau. Mae'r CTRh wedi arwain at gynnwys polisiau o fewn yr CDLI i annog y dulliau teithio hyn. Yn ogystal, mae dyraniadau penodol wedi'u cynnwys yn yr CDLI ar gyfer prosiectau a nodwyd yn yr CTRh y mae'r arian wedi'i ddiogelu ar eu cyfer. Bydd prosiectau dilynol yn cael sylw drwy adolygiad neu drwy gymhwyso polisiau'r CDLI fel y bo'n briodol.

- 2.23 Mae Cyd-gynllun Trafnidiaeth Leol Canolbarth Cymru wedi'i gynhyrchu ar y cyd gan dri awdurdod lleol Canolbarth Cymru, sef Ceredigion, Powys a Meirionnydd yng Ngwynedd.
- 2.24 Yn unol â chanllawiau LIC, mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol Canolbarth Cymru yn defnyddio gwybodaeth o Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC a'r gwaith diweddar yn dilyn yr CTRh, gan gynnwys strategaethau ar gyfer cerdded a beicio / teithio llesol, priffyrdd, a'r rhwydwaith bysiau a chluant cymunedol. Caiff Cynlluniau Datblygu Lleol eu hystyried hefyd.
- 2.25 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn nodi problemau a chyfleoedd ar gyfer pob agwedd ar drafnidiaeth, sy'n gyfyngedig i'r rhai hynny o fewn cylch gwaith awdurdod trafndiaeth lleol, ac nid yw'n cynnwys cynlluniau sy'n ymwneud â'r rhwydwaith rheilffyrdd neu gefnffyrdd. Mae'r agweddau hyn wedi'u cynnwys yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (NTP), a gyhoeddwyd fel dogfen ddrafft ar gyfer ymgynghoriad yn Rhagfyr 2014. Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cael ei drin fel dogfen ategol i'r NTP, gydag awdurdodau lleol canolbarth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i roi sylw i'r problemau a'r cyfleoedd trafndiaeth yng nghanolbarth Cymru.

- 2.26 Mae'r Cyd-gynllun Trafnidiaeth Lleol yn darparu rhaglen fanwl o 2015-2020 a fframwaith ar gyfer cynlluniau hyd at 2030. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn ddogfen statudol sy'n eistedd ochr yn ochr â Chynlluniau Datblygu Lleol a pholisïau a chynlluniau eraill pob un o'r awdurdodau lleol.

Astudiaeth ddichonoldeb: Ailagor y rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin, 2018

- 2.27 Mae'r astudiaeth²³, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cadarnhau'n eang y dichonoldeb technegol o ailagor llwybr wedi'i addasu a gwasanaeth trenau rhwng trefi Aberystwyth a Chaerfyrddin. Mae hefyd yn amlygu nifer o gyfyngiadau/effeithiau allweddol sydd angen eu datrys, ac yn cadarnhau pwysigrwydd a sensitifrwydd amgylcheddol rhan helaeth o'r llwybr.
- 2.28 Credir bod y cynllun a nodwyd yn agos at fod yn berffaith (o fewn cyfyngiadau sefydlog), ond gellid dim ond pennu gwir hyfywedd pan fydd y cynllun wedi'i gysoni fwy, drwy fwy o astudiaethau manwl, ac mewn ymgynghoriad agos â rhanddeiliaid lleol a statudol perthnasol.

Awdurdodau Cynllunio Cyfagos

- 2.29 Wrth baratoi'r Strategaeth a Ffafir ar gyfer CDLI 2, mae Ceredigion wedi ystyried y cynnydd a'r gwaith ar gynlluniau datblygu awdurdodau lleol cyfagos (Sir Gaerfyrddin, Gwynedd ac Ynys Môn, Sir Benfro a Phowys) ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol (Arfordir Penfro ac Eryri). Mae'r Cyngor yn parhau i gysylltu â'r awdurdodau hyn ynghylch cynhyrchiad a gweithrediad CDLIau a chynlluniau newydd. Mae'r awdurdod wedi cydweithio ag awdurdodau eraill yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru ar ddarnau allweddol o dystiolaeth er mwyn llywio polisïau manwl, a bydd hyn yn parhau pan fydd yn effeithiol ac yn amserol.

²³ Trafnidiaeth Cymru, Paratowyd gan Mott MacDonald, comisiynwyd gan Ddrafnidiaeth Cymru

- 2.30 Mae ACLI Ceredigion wedi ystyried cynlluniau a strategaethau hefyd, yn ogystal â chynlluniau datblygu, sydd â goblygiadau i Geredigion neu a allai gael eu heffeithio gan CDLI Ceredigion.

Cyd-destun Lleol – Ceredigion

- 2.31 Yn ystod 2014, amcangyfrifwyd bod 35,273 o anheddau²⁴ yng Ngheredigion. Fodd bynnag, mae prinder o gartrefi o safonau dylunio 'gydol oes', a dyma pam fod yr CDLI yn gofyn am hyn ar gyfer pob datblygiad newydd²⁵. Yn ogystal, mae safonau ansawdd tai cyffredinol yn isel. Mae un rhan o dair o'r stoc tai wedi'i hadeiladu cyn 1919. Roedd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gyfanswm cyfunol o 3,306²⁶ o unedau o lety dan eu rheolaeth.
- 2.32 Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) (2016)²⁷ yn nodi bod y prisiau tai cymedrig yng Ngheredigion yn 2015, sef oddeutu £155,000, bum gwaith a hanner yn uwch nag incwm canolrifol aelwydydd. Nid yw'r cymarebau fforddiadwyedd wedi newid fawr ddim ers y cyfnod yn union cyn argyfwng ariannol 2008. Mae anghyfartalwch tebyg yn bodoli rhwng incymau a rhenti'r sector preifat, gyda Cheredigion uwchlaw'r canllaw arfaethedig gan Lywodraeth Cymru i ystyried 25% o incwm gros aelwyd (£23,000 yn 2016)²⁸ yn fesur priodol o rent fforddiadwy. Mae'r anghyfartalwch mawr rhwng incymau a phrisiau tai ac incymau/rhenti yn creu angen am lawer fwy o gartrefi fforddiadwy. Mae'r anghyfartalwch rhwng incymau a phrisiau/rhenti tai yn golygu y bydd yr angen am dai fforddiadwy yn debygol o gynyddu. Mae LHMA rhanbarthol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar gyfer canolbarth a de-orllewin Cymru (disgwylir y canlyniadau yn ystod 2019), a fydd yn dangos darlun mwy eglur o'r gofyniad blynyddol am gartrefi fforddiadwy.
- 2.33 Mae gan Geredigion boblogaeth oed gwaith o 44,200 sydd rhwng 16 a 64 mlwydd oed, sy'n 60.5% o gyfanswm y boblogaeth²⁹. Mae hyn wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf (o -8.2% rhwng 2006 a 2016). Mae cyfraddau diweithdra Ceredigion yn cyd-fynd â'r cyfartaledd

²⁴ Stats Cymru <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Dwelling-Stock-Estimates/dwellingstockestimates-by-localauthority-tenure>

²⁵ Ym mholisi LU02

²⁶ Data 2017/2019

²⁷ LHMA 2016 (ORS ar ran Cyngor Sir Ceredigion)

²⁸ LHMA 2016 (ORS ar ran Cyngor Sir Ceredigion)

²⁹ Y rhai hynny rhwng 16–59 oed a 64 oed, rhagamcaniad canol flwyddyn ONS o'r boblogaeth (2016)

dros Gymru a Phrydain, er bod y boblogaeth sy'n heneiddio yn lleihau cyfran y bobl o oed gwaith. Fodd bynnag, mae cyfradd gweithgarwch economaidd Ceredigion, sef 69.7%, lawer yn is na'r cyfartaledd dros Gymru a Phrydain. Y boblogaeth fawr o fyfyrwyr sy'n gyfrifol am y cyfraddau isel o weithgarwch economaidd yng Ngheredigion – mae 48.3% o'r bobl rhwng 16 a 64 oed sy'n economaidd anweithgar yn 'fyfyrwyr'. Y gyfradd o bobl economaidd anweithgar ar gyfer 2018, heb gynnwys myfyrwyr, yw 18.5% i Geredigion, 17.6% i Bowys ac 19.7% i Gymru. Bydd y boblogaeth sy'n 65 oed a hynach yn cynyddu 20% rhwng 2018 a 2033³⁰ ac mae'n werth nodi y gallai codi'r oed pensiwn gwladol i 66 erbyn mis Hydref 2020 a 67 erbyn 2028 gael effaith ar weithgarwch economaidd. Mae gan Geredigion lefelau cymharol uchel ar hyn o bryd o bobl sy'n gweithio o gartref, yn teithio pellter i weithio, sy'n hunangyflogedig ac mewn cyflogaeth ran-amser. Mae gwasanaethau cyhoeddus, addysg, twristiaeth, hamdden ac amaethyddiaeth yn dominyddu'r strwythur cyflogaeth o fewn y sir.

- 2.34 Gallai adolygiadau sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau trydyddol (Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol y Drindod Dewi Sant a Choleg Ceredigion) arwain at warediad rhai adeiladau addysgol, ynghyd â datblygiad safleoedd newydd.
- 2.35 Yn hanesyddol, mae cyfleoedd gwaith nad ydynt yn amaethyddol wedi'u lleoli ym mhrif drefi Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan (gan gynnwys Dyffryn Aeron), neu'n agos at y rhain. Mae'r patrwm datblygu hwn wedi canolbwyntio cyfleoedd gwaith tuag at ochr orllewinol y sir, gan leihau mynediad at swyddi lleol yn y dwyrain. Nod y gwaith ar Fargen Twf Tyfu Canolbarth Cymru yw mynd i'r afael â'r materion hyn, drwy wasgaru swyddi newydd o safon uwch yn fwy cyfartal ledled y sir.
- 2.36 Mae twristiaeth yn cyfrannu'n fawr at economi'r sir, ac mae nifer o strategaethau ar waith ar hyn o bryd i hybu a gwella diwydiant twristiaeth Ceredigion, gan gynnwys amcanion strategol Cynllun Rheoli Cyrchfan

³⁰ Rhagamcaniadau o boblogaeth 2014

Ceredigion 2013 – 2020³¹ a phum prif faes Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013 – 2020³² (hyrwyddo'r brand, datblygu cynnyrch, datblygu pobl, perfformiad proffidiol ac adeiladu lleoedd).

- 2.37 Aberystwyth yw'r ganolfan ranbarthol ar gyfer canolbarth Cymru ac mae ganddi'r cyfleusterau siopa mwyaf o ran maint ac amrywiaeth. Mae Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan yn gwasanaethu ardal eang hefyd, a Thregaron, Llandysul ac Aberaeron hefyd yn gwasanaethu ardaloedd cymharol fawr. Y tu allan i'r prif ganol trefi, darperir gwasanaethau siopa drwy amrywiaeth o siopau lleol a siopau pentref, a gwasanaethau symudol. Mae'r cynnydd mewn siopa ar-lein wedi bod yn ddylanwadol, a bydd yn parhau felly, yn enwedig mewn ardaloedd o fewn dalgylchoedd cludo archfarchnadoedd mwy o faint. Mae cael mynediad i storfeydd bwyd yn un gydran yn unig o greu dyfodol cryf, llewyrchus a chynaliadwy ar gyfer cymunedau gwledig Ceredigion, fel yr hyrwyddwyd gan Gynllun Llesiant Ceredigion 2018³³.
- 2.38 Mae cadw cyfleusterau lleol cyfredol ac annog darpariaeth rhai newydd yn chwarae rhan allweddol mewn cynnal y gymuned. Mae natur wledig y sir yn cael effaith sylweddol ar ddarparu a chyflenwi iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant, oherwydd mae'r gost, o ran amser ac arian, o ddarparu cymorth/gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn llawer mwy ac yn dibynnu'n aml ar drafnidiaeth breifat. Mae gan lawer o ysgolion (cynradd a rhai uwchradd) Ceredigion broblemau gyda phrinder plant hefyd, gyda rhai ysgolion cefn gwlad eisoes wedi cau. Mae adolygiad yn parhau i fod ar waith o system addysg bresennol Ceredigion, a bydd hwn yn arwain at rai goblygiadau defnydd tir pellach, fel safleoedd ysgol newydd, estyniadau neu gau ysgolion³⁴.
- 2.39 Mae'r cyfleusterau hamdden yn amrywio ar hyd a lled y sir, gyda gweithgareddau ffurfiol wedi'u trefnu a'u cynnal yn bennaf o fewn y prif

³¹<http://www.discoverceredigion.co.uk/SiteCollectionDocuments/Destination%20Mngmnt%20Plan%20and%20Tourism%20Strategy/Ceredigion%20Destination%20Plan%20WELSH.pdf>

³² <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/partneriaeth-ar-gyfer-twff-ar-gyfer-twristiaeth-2013-2020.pdf>

³³<https://www.ceredigion.gov.uk/media/3955/cynllun-llesiant-lleol-ceredigion-2018-2023.pdf>

³⁴ Sylfaen dystiolaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif

drefi, aneddiadau mwy o faint ac ardaloedd twristiaeth. Mae gan Geredigion dros 2,506 km o hawliau tramwy cyhoeddus (7.5% o gyfanswm Cymru), oddeutu 80 km o arfordir, a 25,693 hectar o dir mynediad – 14.2% o arwynebedd y sir. Noda Prif Rwydwaith Llwybrau Ceredigion fod 60% o'r rhwydwaith ar agor ac ar gael.

- 2.40 Mae gan y sir gyfoeth o ddynodiadau gwarchod natur rhyngwladol a chenedlaethol, gan gynnwys y canlynol: 12 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (yn ogystal â phedair ACA y tu allan i Geredigion a allent gael eu heffeithio gan y cynllun), 1 ACA ymgeisiol, 3 Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), 2 safle Ramsar, dros 101 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), 6 Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG), a'r unig Fiosffer yng Nghymru, a ddynodwyd gan UNESCO (Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig).
- 2.41 Yn ogystal â'r dynodiadau hyn, mae ecosystemau mewn trefi ac ardaloedd cefn gwlad ar hyd a lled Ceredigion, sy'n darparu gwasanaethau ac adnoddau hanfodol. Er enghraifft, mawndiroedd y sir sy'n helpu i buro dŵr a rheoli llifogydd. Yn wir, mae Mynyddoedd Cambria yn cynnwys mwy nag 20% o bridd organig Cymru, gan ddarparu dalfa garbon o bwysigrwydd cenedlaethol (Land Use Consultants, 2007).
- 2.42 Mae amgylchedd naturiol prydferth o ansawdd uchel hefyd yn rhan annatod o gymeriad ac economi twristiaeth Ceredigion. Mae LANDMAP wedi nodi ar ei haen Weledol a Synhwyraidd fod y rhan fwyaf o arfordir Ceredigion yn 'rhagorol', sy'n ategu'r 35 km sydd eisoes wedi'u dynodi fel Arfordir Treftadaeth Forol. Fodd bynnag, mae llawer o aneddiadau mwy o faint ar yr arfordir hefyd, ac mae'n ardal bwysig ar gyfer datblygu twristiaeth. Yn ôl y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru, mae pedair tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig (Ucheldir Ceredigion, Gwaelod Dyffryn Teifi) a 12 o Erddi Hanesyddol o Bwysigrwydd Cenedlaethol (Hafod, Nanteos, Plas Penglais, Campysau Aberystwyth a Llanbadarn, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Alltrodyn, Coedmore, Derry Ormond, Llanerchaeron,

Llanllyr, Lodge Park, gardd furiog Pigeonsford, Trawsgoed a Chastell Aberteifi) yng Ngheredigion.

- 2.43 Mae amgylchedd adeiledig hanesyddol a modern Ceredigion yn chwarae rhan bwysig mewn creu lle deniadol a diddorol i fyw ynddo ac i ymweld ag ef. O ran yr amgylchedd hanesyddol, mae oddeutu 425 o weithfeydd metel a chloddfeydd profi nas defnyddir mwyach, 234 o safleoedd a henebion hynafol cofrestredig (a gaiff eu diogelu'n genedlaethol), 1,890 o adeiladau cofrestredig (Gradd II yn bennaf, a deg Gradd I), ac 13 o ardaloedd cadwraeth.
- 2.44 Mae hen weithfeydd metel Ceredigion yn parhau i fod yn bwysig iawn fel tironodau hanesyddol a diwylliannol, ac mae gwaith ar droed³⁵ i bennu dichonoldeb gwaith adfer i fynd i'r afael â halogiad mewn pedwar lleoliad.
- 2.45 Mae'r gwaith o gloddio am fwynau yng Ngheredigion heddiw wedi'i gyfyngu i gloddio am dywod a graean a chwarela am greigiau gwaddod, er mwyn cynhyrchu agregau craig wedi'u malu ac, ar lefel leol, i ddarparu deunyddiau llenwi a cherrig adeiladu lleol. Nid oes unrhyw chwareli calch, na ffynonellau o agregau eilaidd, ond mae rhai cyfleoedd yn bodoli ar gyfer aildefnyddio deunyddiau adeiladu, chwalu a chloddio. Mae adnodd tywod a graean Ceredigion o bwysigrwydd rhanbarthol, sy'n gwneud iawn am absenoldeb unrhyw ffynonellau o agregau morol hygyrch (gan fod glanfeydd agosaf Môr Hafren ymhell y tu hwnt i'r cyfyngiad cludo tybiannol o 30 km).
- 2.46 Ar gyfer y CDLI cyfredol, mae'r cronfeydd o greigiau a thywod a graean ymhell uwchlaw 'dyddiad diwedd plws deng mlynedd' / 'plws saith blynedd' Cynllun Polisi Cynllunio Cymru³⁶ a'r gofyniad 15 mlynedd a nodwyd yn Adolygiad Cyntaf Datganiad Technegol Rhanbarthol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (RTS1) 2014 (sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd). Ar gyfer y cynllun newydd, mae cronfeydd o greigiau wedi'u malu'n darparu ar

³⁵ 2019

³⁶ <https://lyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru> paragraff 5.14.15

gyfer y cyfnod hyd at 2036, cyfnod y cynllun plws tair blynedd (fodd bynnag, byddai nodi gostyngiad yn y cyflenwad deng mlynedd yn ymestyn bywyd y banc tir o greigiau wedi'u malu i 33 o flynyddoedd, sy'n cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru, i oddeutu 2050), a byddai angen dyraniadau ychwanegol ar gyfer tywod a graean i gydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru, h.y. hyd at 2040.

- 2.47 Roedd ôl troed ecolegol Ceredigion yn uwch nag ôl troed Cymru ac yn is nag ôl troed Prydain pan gafodd ei werthuso ddiwethaf (2006).³⁷ Fodd bynnag, mae Ceredigion yn gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at gynhyrchu ynni adnewyddadwy, ac felly at leihau allyriadau carbon, oherwydd mae ganddi gynllun ynni hydro-drydanol mawr (56MW) a phedair fferm wynt (80.45MW). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dynodi Ardal Chwilio Strategol, AChS Nant-y-moch D, yng ngogledd-orllewin Ceredigion, sy'n ymestyn i Bowys, o fewn Mynyddoedd Cambria. Mae angen cynnwys targed diwygiedig ar gyfer cynhyrchu trydan fframwaith datblygu cenedlaethol drafft Llywodraeth Cymru, gan nodi nad yw seilwaith y grid trydanol yn ddigonol ar hyn o bryd a bod angen gwerthuso llwybrau seilwaith newydd.
- 2.48 Mae Cyngor Ceredigion yn paratoi Cynllun Rheoli Carbon (dylid cynnwys manylion os yw'n gyhoeddus cyn i'r Cyngor gadarnhau).
- 2.49 Mae lleihau gwastraff yn ffordd arall o leihau ôl troed carbon. Mae Ceredigion ymhlith yr awdurdodau gorau yng Nghymru am ailgylchu/compostio, gan arallgyfeirio 63.7%³⁸ o wastraff soled trefol o safleoedd tirlenwi yn ystod 2017/2018. Oherwydd y symiau bychain o wastraff a gynhyrchir o fewn y sir, nid oes ganddi unrhyw safleoedd tirlenwi gweithredol, ac ychydig iawn o bosibilrwydd o unrhyw rai newydd.

³⁷ Ystadegau Ceredigion gan Stats Cymru (2014) <https://dera.ioe.ac.uk/21452/1/141120-local-area-summary-eredigion-en.pdf>

³⁸ Stats Cymru Cyfraddau aildddefnyddio/ailgylchu/compostio blynyddol gan awdurdod lleol (2019) <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Local-Authority-Municipal-Waste/annualreuserecyclingcompostingrates-by-localauthority-year>

- 2.50 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae amddiffynfeydd môr mawr wedi'u hadeiladu i amddiffyn cymunedau'r Borth ac Aberaeron o erydu arfordirol. Mae gwaith paratoi ar droed ar hyn o bryd ar gyfer cam nesaf prosiect amddiffyn arfordir Aberaeron, sydd wedi'i anelu'n benodol at roi sylw i'r lefel môr uwch a'r ymchwydd cynyddol mewn stormydd. Mae Aberystwyth yn arbennig o agored i lifogydd arfordirol, ac mae mesurau newydd i amddiffyn tu blaen a chanol y dref yn cael eu datblygu a'u hystyried ar hyn o bryd. Mae ail fersiwn Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru (SMP2, a gyhoeddwyd yn 2012) yn nodi nifer o safleoedd ar hyd arfordir Ceredigion lle y dylid caniatáu gwaith adlinio dan reolaeth ar y llinell amddiffynnol gyfredol fel yr unig opsiwn ymarferol.
- 2.51 Nid oes digon o gapasiti am garthion mewn rhai lleoliadau o fewn Ceredigion, gyda'r system garthion gyhoeddus yn aml yn annigonol mewn aneddiadau llai o faint. Mae trafodaethau rheolaidd â Dŵr Cymru (DCWW) wedi rhoi cyfle i drafod yr aneddiadau hynny lle y cynigir y rhan fwyaf o dwf. Bydd pob safle ymgeisiol a safle a ddyrannwyd yn cael ei ystyried ar y cyd â DCWW, parthed cyfyngiadau seilwaith, a bydd hyn yn bwydo i mewn i raglen y Cynllun Rheoli Asedau.
- 2.52 Nodir yn aml fod y rhaniad rhwng yr ardaloedd trefol a gwledig yn rhwystr i gynaliadwyedd cymunedau cefn gwlad. Mae perygl o raniad trefol/gwledig yn ansawdd y seilwaith band eang a ffonau symudol ac yn y mynediad i drafnidiaeth gynaliadwy. Er bod bron pob cartref yn cael ei drydan o'r prif gyflenwad, dim ond rhai aneddiadau mwy o faint sy'n gallu cael nwy o'r prif gyflenwad o hyd. Ar yr ochr orau, er y nodwyd bod rhannau o Gymru yn agored i brinder dŵr mewn blynyddoedd â chyfnodau hir o dywydd sych, nid oes yr un o'r ardaloedd hyn yng Ngheredigion, er bod bob amser angen lleihau'r galw am ddŵr.
- 2.53 Caiff prif ddarpariaeth trafndiaeth Ceredigion ei dylanwadu'n gryf gan ei lleoliad daearyddol, maint, topograffeg, natur wledig a phoblogaeth wasgaredig. Mae lefel uchel o ddibyniaeth ar brif seilwaith y rhwydwaith ffyrdd (114 km o gefnffyrdd a 158 km o brif ffyrdd gwledig), ac mae'n cael ei

ddefnyddio ar gyfer nifer uchel o deithiau gan gerbydau preifat a masnachol. Mae'r drafnidiaeth gyhoeddus ar drenau o fewn y sir yn gyfyngedig i Lein y Cambria o Aberystwyth i'r Amwythig/Birmingham a Lein Arfordir y Cambria o Aberystwyth i Bwllheli, gyda gorsafoedd yn Aberystwyth a'r Borth a gwaith ar droed ar yr orsaf ym Mow Street. Mae gwasanaethau bws cyhoeddus yn cysylltu'r prif drefi â'i gilydd ac i fannau eraill y tu allan i'r sir (gwasanaeth Traws Cymru). Mae amrywiaeth o wasanaethau trafndiaeth cyhoeddus, preifat a chymunedol, sy'n amrywio mewn amlder, yn gwasanaethu ardaloedd mwy ynysig. Ychydig o hygyrchedd sydd o ran tai, cyflogaeth a gwasanaethau, boed yn gyhoeddus neu'n fasnachol, ac mae pump o chwe phrif dref Ceredigion wedi'u graddio fel mannau o hygyrchedd 'cymedrol' yn unig, yng nghyd-destun canolbarth Cymru. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymrwymedig i gyflwyno llwybrau teithio llesol er mwyn gwella cynaliadwyedd teithiau lleol. Mae'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol i Gymru a'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol Rhanbarthol yn nodi blaenoriaethau o ran buddsoddiadau trafndiaeth.

3. Materion ac Ysgogwyr Allweddol

3.1 Y Materion Allweddol a nodwyd ar gyfer CDLI Ceredigion oedd canlyniad gwaith adolygu ac ymgysylltu cynhwysfawr, sydd wedi ystyried polisïau a chanllawiau strategaeth diweddaredig, barn rhanddeiliaid a dadl.

Adlewyrchiad yw'r Materion Allweddol o'r rhestrau ehangach o faterion, a nodwyd yn y Papurau Pwnc cefndirol ar gyfer yr CDLI cyntaf, fel y'u cytunwyd gan y rhanddeiliaid a'r aelodau yn hydref 2008 a'u diwygiwyd yn ystod camau dilynol y broses o gynhyrchu CDLI 1. Mae'r gwaith hwn o fireinio a diwygio'r materion allweddol wedi parhau wrth baratoi CDLI 2, yn enwedig yng ngoleuni'r hyn a ddysgwyd trwy'r adroddiadau monitro blynyddol o'r CDLI a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Cynllun Llesiant Lleol. Mae ansicrwydd ynghylch effeithiau posibl Brexit a'r hinsawdd economaidd yn creu risg ychwanegol, ond ni newidiwyd y materion allweddol o ganlyniad iddo.

3.2 Gellir nodi'r Materion Allweddol ar gyfer Ceredigion o fewn sawl thema fel a ganlyn:

1. Lefel y twf a'r math ohono
2. Dosbarthiad twf/datblygiad
3. Ffurf y twf
4. Cymuned
5. Y Gymraeg
6. Yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd
7. Seilwaith a gwasanaethau

3.3 Y Materion Allweddol yw:

Mater Allweddol 1:Lefel y Twf a'r Math ohono:

MA 1.1

Yr angen i benderfynu sut mae'r sir yn ymateb i'r twf a ragwelir yn y sir hyd at 2033 o ganlyniad i fewnfudo, newid mewn demograffeg a gweithgaredd economaidd. Mae disgwyl i boblogaeth Ceredigion gynyddu a heneiddio

dros gyfnod y cynllun. Ynghyd â hyn, rhagwelir y bydd twf yn yr economi gyda'r posibilrwydd o 4,000³⁹ o swyddi.

MA 1.2

Yr angen i sicrhau bod y math o ddatblygiad yn mynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd, ni waeth beth fo lefel y twf. Mae hyn yn cynnwys:

- i. Tai fforddiadwy
- ii. Anghenion poblogaeth sy'n heneiddio
- iii. Anghenion grwpiau o ddiddordeb arbennig
- iv. Yr angen i hybu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol ar sail datblygu cynaliadwy
- v. Yr angen i gynnal a datblygu cyfleusterau lleol
- vi. Yr angen am ddatblygiad economaidd priodol i gynnal cymunedau, yn enwedig eu pobl ifanc
- vii. Cyflenwad digonol o dir ar gyfer datblygu economaidd lle bydd natur y datblygu disgwylidig yn galw am ddarparu safleoedd cyflogaeth
- viii. Cyfle i ddiwallu anghenion penodol yr ysgogwyr economaidd allweddol (a nodwyd fel gwasanaethau cyhoeddus, addysg, twristiaeth, hamdden ac amaeth)
- ix. Cyfle i bobl barhau i greu cyfleoedd economaidd lle maent eisoes yn byw (o ystyried natur wledig a gwasgaredig y boblogaeth)

Mater Allweddol 2: Dosbarthiad Twf/Datblygiad

MA 2.1

Yr angen i sicrhau bod dosbarthiad y twf yn cyfrannu at bwyslais cliriach ar gysylltiadau lleol, gyda mynediad da i wasanaethau a chyfleusterau hanfodol, cymorth i'r Gymraeg, a gwell gwydnwch rhag newid allanol, er mwyn datblygu cymunedau cryfach.

39

Mater Allweddol 3:Ffurf y Twf

MA 3.1

Yr angen i gyflawni mathau a ffurfiau mewn datblygiadau newydd sy'n creu 'ymdeimlad o le', sy'n parchu ac yn gwella amgylchedd hanesyddol a chymuned yr ardal, sy'n helpu i sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn digwydd mewn modd sy'n dwyn budd i iechyd a llesiant cymunedau, sy'n ymatebol i'r angen i addasu i a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd trwy fanteisio ar ddulliau cynaliadwy o adeiladu a seilwaith ynni adnewyddadwy, sy'n helpu i hybu economi Ceredigion, ac sy'n atal colledion pellach mewn bioamrywiaeth mewn ardaloedd gwledig a threfol.

Mater Allweddol 4:Cymuned

MA 4.1

Yr angen i sicrhau bod Ceredigion yn datblygu ac yn cryfhau ei chymunedau a'i threftadaeth ddiwylliannol trwy ddefnyddio twf neu gyfleoedd i adfywio yn strategol a thrwy sicrhau gwell mynediad i gyfleusterau iechyd, addysg, cymunedol a TGCh priodol o'r cyfryw ddatblygiadau trwy ddarparu cyfleoedd cynhwysol ar gyfer gweithgareddau corfforol a chymdeithasol, diogelu'r cyfleusterau presennol, ystyried yn ofalus y posibilrwydd y bydd datblygiad ychwanegol yn cryfhau neu wanhau'r gymuned bresennol, a sicrhau tai fforddiadwy, tai am oes a chyfleoedd economaidd priodol i gynnal cymunedau cytbwys am oes.

Mater Allweddol 5:Y Gymraeg

MA 5.1

Mae gan 50% a mwy o'r boblogaeth ddealltwriaeth o'r Gymraeg, felly mae angen sicrhau, cyhyd ag y bo'n bosibl, fod gwaith datblygu'n meithrin ac yn cryfhau'r iaith.

Mater Allweddol 6:Yr Amgylchedd a'r Newid yn yr Hinsawdd

MA 6.1

Yr angen i sicrhau bod gwaith datblygu'n helpu i reoli a lleihau'r newid yn yr hinsawdd ac yn lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r mater hwn

o reidrwydd yn cynnwys sicrhau bod gwaith datblygu'n gynaliadwy o ran ei leoliad a'i ddyluniad.

MA 6.2

Yr angen i ddatblygu adnoddau ynni adnewyddadwy priodol fel diben ynddynt eu hunain (e.e. fferm wynt Ardal Chwilio Strategol D, Nantymoch (AChS D)) ac fel rhan o waith datblygu arall.

MA 6.3

Yr angen i warchod a gwella bioamrywiaeth, cysylltedd ecolegol ac amwynder gweledol ac i nodi a gwarchod nodweddion lleol pwysicaf y dirwedd a bioamrywiaeth trwy ddynodiadau lleol priodol.

MA 6.4.

Yr angen i sicrhau bod gwasanaethau ecosystem yn cael eu gwarchod a'u gwella yn ogystal ag ansawdd yr aer, pridd a dŵr yn gyffredinol; bod gwarchodaeth rhag llygredd sŵn a golau ac ansefydlogrwydd tir; a bod y galw am ddŵr yn cael ei leihau a bod geoamrywiaeth leol yn cael ei gwarchod.

MA 6.5.

Yr angen i nodi a diogelu adnoddau mwynol y sir, sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o agregau eilaidd ac agregau a ailgylchwyd, a chynnal lefel o gyflenwad agregau yn unol ag argymhellion DTRh y RAWP, y mae disgwyl cyhoeddi adolygiad ohono yn fuan.

Mater Allweddol 7:Seilwaith a Gwasanaethau**MA 7.1.**

Yr angen i sicrhau bod gofynion o ran seilwaith ar gyfer trafndiaeth, cyfathrebu a chyfleustodau wedi'u nodi'n glir a, ble bynnag y bo'n bosibl, eu bod yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r gwaith datblygu y maent yn eu cynorthwyo. Yn debyg i hynny, lle mae'r newid yn yr hinsawdd yn arwain at angen i ailasesu cynaliadwyedd y seilwaith presennol, bydd angen ystyried goblygiadau hyn ar waith datblygu (e.e. cynnydd yn lefel y môr a chilio a reolir).

MA 7.2.

Yr angen i sicrhau bod Ceredigion yn sicrhau bod tir digonol ar gael ar gyfer cyfleusterau adfer adnoddau a rheoli gwastraff i'w galluogi i fodloni'r holl rwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol ynghylch gwastraff, a'r angen i annog holl waith ddatblygu i leihau a rheoli gwastraff yn gynaliadwy.

4. Gweledigaeth

- 4.1 Mae canllawiau a pholisi Llywodraeth Cymru yn mynnu bod CDLIau yn cyflwyno strategaeth a gweledigaeth gryno a hirdymor. Dylai rhanddeiliaid a'r gymuned gytuno ar hyn a dylai gyflwyno'r hyn a fwriedir o ran datblygu, newid neu gadw lleoedd.
- 4.2 Mae'r weledigaeth wedi'i pharatoi gyda chyfraniadau gan grŵp y Rhanddeiliaid Allweddol, y Gweithgor Arfarnu Cynaliadwyedd a chynghorwyr Cyngor Ceredigion a thrwy broses barhaus yr SA/AAS. Ystyriwyd cydweddoldeb y weledigaeth a'r amcanion yn erbyn Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol⁴⁰ a'r Arfarniadau o Gynaliadwyedd integredig.

Erbyn 2033, bydd Ceredigion yn sir o gymunedau bywiog, dwyieithog ac ymgysylltiedig, lle bydd pobl yn dewis byw, astudio, gweithio ac ymweld, wedi'i hymrwymo i wydnwch ei heconomi, ei diwylliant, ei hamgylchedd a'i hadnoddau naturiol ac i'w hiechyd a'i llesiant.

- 4.3 Bydd Cynllun Datblygu Lleol 2 yn darparu ar gyfer datblygu cynaliadwy a fydd:
- yn diwallu anghenion o ran tai, yr economi, seilwaith, y gymuned, addysg, iechyd a llesiant;
 - yn addasu i heriau'r newid yn yr hinsawdd ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt;
 - yn helpu i gryfhau'r Gymraeg;
 - yn pennu gwerth ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol, y golygfeydd a'r dreftadaeth ddiwylliannol ar gyfer eu hinsawdd cynhenid ac ar gyfer cyfleoedd economaidd cysylltiedig;
 - yn galluogi preswylwyr, busnesau a chymunedau i sicrhau economi fwy amrywiol, arloesol a gwydn er mwyn ffynnu a llwyddo.

⁴⁰ Papur Pwnc 'CDLI a Llesiant a Chadernid y Cynllun

5. Amcanion Strategol

Amcanion

- 5.1 Mae amcanion canlynol yr CDLI yn nodi sut y cyflawnir y weledigaeth er mwyn mynd i'r afael â'r Materion Allweddol a geir yn Adran 4. Eto, daw'r amcanion o ganlyniad i drafodaeth ehangach ynghylch y mathau o faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw a'r hyn y dylai Ceredigion ei gyflawni erbyn 2033 a'r tu hwnt. Trafodwyd yr amcanion a gwnaed gwelliannau pellach iddynt yn dilyn ystyriaeth gan yr GRhA a'r aelodau yn ystod yr ymgynghoriadau blaenorol ar yr CDLI a hefyd o ganlyniad i asesiadau'r SA/AAS. Dyfarnodd yr asesiad o gydweddoldeb a wnaed wrth baratoi at CDLI2 yn erbyn nodau/amcanion llesiant cenedlaethol a lleol yn eu tro nad oedd angen diwygio'r un amcan, ac eithrio Amcan 4 ar dwristiaeth. Gellid gwella Amcan 4 rhywfaint i adlewyrchu gorchmynion llesiant yn well. Caiff hyn ei gyfleu mewn newid gweddol fach yn Amcan 4 ar dwristiaeth.

Lefel, Dosbarthiad a Math o Dwf (Materion Allweddol 1 and 2):

Amcan 1

Darparu amrywiaeth a chymysgedd o dai i fodloni'r anghenion tai trefol a gwledig ac i ddiwallu anghenion amrywiol poblogaeth Ceredigion, a honno'n tyfu ac yn heneiddio, rhwng 2007 a 2022.

☞ Materion Allweddol: MA 1.1, MA 1.2 ac MA 2.1

Amcan 2:

Hybu economi wledig gynaliadwy, amrywiol ac arloesol er budd Ceredigion a'i chymunedau lleol, ac annog gwaith adfywio ac esblygu trefi'r sir fel eu bod yn barod ar gyfer heriau economi fodern a dynamig.

☞ Materion Allweddol: MA 1.1, MA 1.2, MA 3.1 ac MA 4.1

Amcan 3:

Annog twf sector manwerthu cynaliadwy i gynnal a gwella canol trefi bywiog a gwarchod a datblygu cyfleusterau manwerthu lleol a chymunedol ledled y sir.

↪ Materion Allweddol: MA 1.2 ac MA 4.1

Amcan 4:

Annog a hyrwyddo sector twristiaeth trwy gydol y flwyddyn sy'n gynaliadwy ac yn gydnaws â'r amgylchedd gan gyfarwyddyd gwaith cynllunio rheoli cyrchfannau, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu asedau diwylliannol ac amgylcheddol ledled Ceredigion mewn modd sensitif. Yn sail i hyn fydd llety da sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth eang o farchnadoedd ac sy'n darparu amrywiaeth o gyfleusterau ar gyfer pob tymor yn y flwyddyn.

↪ Materion Allweddol: MA 6.1

Amcan 5:

Hybu patrwm o dwf sy'n helpu i gynnal hyfywedd nid yn unig y trefi a'u cefnwlad gyfagos ond hefyd cymunedau gwledig y sir fawr hon, a hwnnw mewn modd i wella nodweddion cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol a sicrhau'r hygyrchedd a'r cysylltedd mwyaf cynaliadwy posibl.

↪ Materion Allweddol: MA 1.2, MA 2.1, MA 4.1 ac MA 6.1

Ffurf o Ddatblygiad (Mater Allweddol 3):**Amcan 6:**

Cynnal a gwella amgylchedd adeiledig o ansawdd uchel sydd yn caniatáu am ddylunio arloesol, yn cyfleu ymdeimlad o le, yn hawdd ei gyrraedd, y mae modd ei ddefnyddio, yn ddiogel i fyw ynddo, ac yn helpu i wella iechyd a llesiant ei gymunedau.

↪ Materion Allweddol: MA 1.2, MA 3.1 ac MA 7.1

Cymuned (Mater Allweddol 4):

Amcan 7:

Gwella a helpu i sicrhau y darperir a diogelir lefel briodol o gyfleusterau a gwasanaethau addysg, iechyd, diwylliannol, cymdeithasol, adloniadol, cymunedol, chwaraeon a hamdden, a mynediad atynt.

➤ Materion Allweddol: MA 1.2, MA 2.1 ac MA 4.1

Y Gymraeg (Mater Allweddol 5):

Amcan 8:

Cynorthwyo datblygiad y Gymraeg a hybu cymunedau dwyieithog a chynhwysol yng Ngheredigion.

➤ Materion Allweddol: MA 1.2, MA 2.1, MA 4.1 ac MA 5.1

Yr Amgylchedd a'r Newid yn yr Hinsawdd (Mater Allweddol 6):

Amcan 9:

Sicrhau bod gwaith datblygu'n lleihau cyfraniad nwyon tŷ gwydr Ceredigion, yn unigol ac yn gyffredinol, a cheisio eu lleihau ble bynnag y bo'n bosibl. Sicrhau bod pob datblygiad yn ymaddasol ac yn wydn rhag natur newidiol yr hinsawdd a gweithio i leihau'r perygl o lifogydd.

➤ Materion Allweddol: MA 3.1, MA 6.1 ac MA 7.1

Amcan 10:

Ceisio cydbwysedd rhwng creu ynni adnewyddadwy a chadwraeth amgylcheddol, yn enwedig o ran ynni gwynt ac wrth bennu rôl technolegau ynni adnewyddadwy eraill.

➤ Materion Allweddol: MA 3.1, MA 6.2 ac MA 7.1

Amcan 11:

Cadw a gwella tirwedd Ceredigion, gan gynnwys amgylcheddau gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol.

↪ Materion Allweddol: MA 6.1 ac MA 6.3

Amcan 12:

Atal colled bioamrywiaeth a'i chysylltedd a'u gwella ar draws Ceredigion, gan gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd o flaenoriaeth leol, wrth wella mwynhad a dealltwriaeth pobl o fioamrywiaeth trwy annog mynediad i safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth os gellir diogelu eu cyfanrwydd ecolegol.

↪ Materion Allweddol: MA 3.1 ac MA 6.3

Amcan 13:

Annog ymagwedd gynaliadwy i ddatblygiadau mewn lleoedd ar yr arfordir wrth warchod cyfanrwydd treftadaeth naturiol a ffisegol yr ardal.

↪ Mater Allweddol: MA 6.1

Amcan 14:

Gwarchod a rheoli gwasanaethau ecosystemau Ceredigion a'i hadnoddau naturiol, gan gynnwys pridd, aer, dŵr a geoamrywiaeth, er mwyn cynnal a gwella eu gwerth heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

↪ Materion Allweddol: MA 6.1 ac MA 6.4

Amcan 15:

Darparu cyflenwad priodol a chynaliadwy o adnoddau mwynol i ddiwallu anghenion cymdeithas, heb beryglu'r amgylchedd, amwynderau, geoamrywiaeth neu anghenion adnoddau'r dyfodol.

↪ Materion Allweddol: MA 6.4 ac MA 6.5

Seilwaith a Gwasanaethau (Mater Allweddol 7):

Amcan 16:

Helpu i wella'r posibilrwydd o drafnidiaeth gynaliadwy, cydraddoldeb mynediad, a chysylltedd y sir er budd ei heconomi, ei chymunedau, a'u hiechyd a'u llesiant.

➤ Materion Allweddol: MA 1.2, MA 3.1, MA 6.1 ac MA 7.1

Amcan 17:

Annog darpariaeth briodol o gyfleustodau ledled y sir.

➤ Mater Allweddol: MA 7.1

Amcan 18:

Darparu ar gyfer gwaith adfer adnoddau a rheoli gwastraff yn gynaliadwy, gan anelu at leihau effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, iechyd dynol, cymdeithas a'r economi, sicrhau'r nifer fwyaf posibl o gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd, a diwallu anghenion cymunedau a busnesau.

➤ Materion Allweddol: MA 7.1 ac MA 7.2

6. Twf Strategol ac Opsiynau Gofodol

Adran 6: Y Strategaeth a Pholisïau 'S'

- 6.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno strategaeth yr CDLI ar gyfer cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion ynghyd â'r polisïau sy'n tanategu ac yn cyflawni'r strategaeth. Mae'n cyflwyno'r bwriad eang ar gyfer rheoli newid ac yn dangos lefel y ddarpariaeth i'w gwneud ar gyfer y prif sectorau twf – sef, o ran Ceredigion, cyflogaeth a thai. Hefyd, mae'n cyflwyno'r pum polisi allweddol (polisïau strategol) sy'n ymwneud â graddfa a lleoliad bras y twf ynghyd â pholisi strategol ar y Gymraeg.
- 6.2 Mae'r polisïau hyn yn ffurfio'r cysylltiad rhwng lefel a dosbarthiad y twf y mae'r strategaeth ei hun yn ceisio eu cyflawni a'r polisïau mwy manwl.
- 6.3 Bydd y Cynllun Adneuo'n cynnwys:
- 'Mathau Penodol o Gynigion i Ddefnyddio Tir': polisïau y mae angen eu hystyried o ran mathau penodol o gynigion i ddefnyddio tir, e.e. manwerthu neu dwristiaeth.
 - 'Polisïau Rheoli Datblygiad': materion polisi y mae angen eu hystyried o ran pob datblygiad ni waeth pa fath o ddefnydd a gynigir.
- 6.4 Yn y cyfamser, cyhoeddir papurau atodol ynghyd â'r Strategaeth a Ffafir sy'n cyflwyno sefyllfa bresennol y Cyngor ar raddfa'r newid y gellid ei rhagweld ym mholisïau defnydd tir a rheoli datblygiad. Mae'n bosibl y gallai graddfa'r newid i'r polisïau i'w cynnwys yn y Cynllun Adneuo newid – er enghraifft, o ganlyniad i ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau newydd eu cyhoeddi.

Y Strategaeth: Manylion

- 6.5 Strategaeth eang yr CDLI yw gwella cynaliadwyedd cyffredinol y sir a sicrhau hyfywedd ac iechyd hanfodol y sir trwy gryfhau prif drefi Ceredigion (y cyfeirir atynt yn yr CDLI hwn fel y Canolfannau Gwasanaeth Trefol), a thrwy gydnabod yr angen penodol i wella cynaliadwyedd ledled ardal wledig helaeth Ceredigion ac ymateb iddo mewn ffordd strategol. Yn sail i hyn fydd cydweithredu gan gynghorau tref y chwe phrif dref i gyflwyno Cynlluniau Creu Lleoedd.
- 6.6 Mae canllawiau cenedlaethol⁴¹ yn ei gwneud yn ofynnol i CDLlïau gyflwyno strategaeth gynaliadwy ar gyfer cyflawni gweledigaeth ac amcanion y cynllun. Dylai'r cyfryw strategaeth reoli newid tuag at gynaliadwyedd, sicrhau patrwm aneddiadau cynaliadwy, a lleihau'r angen i deithio, gan wella hygyrchedd i foddau eraill o deithio yn hytrach na cheir. Mae'n sôn am leihau'r angen i gymudo ac yn cydnabod y dylid lleoli mwyafrif y gwaith datblygu mewn ardaloedd gwledig mewn aneddiadau sydd â hygyrchedd gweddol dda ac sy'n gallu darparu lefel benodol o gyfleusterau lleol.
- 6.7 Mae adrannau blaenorol y cynllun wedi dangos gwledigrwydd Ceredigion. Er bod gweithgareddau economaidd sylweddol yn digwydd mewn ardaloedd gwledig, dangoswyd y gall tueddiadau mewn darpariaeth gwasanaeth, diffyg tai addas a chyfleoedd gwaith i gartrefi sy'n dod i'r amlwg achosi problemau gwirioneddol i gymunedau gwledig lleol. Mae 40% a mwy o breswylwyr Ceredigion yn byw mewn ardaloedd gwledig, felly mae'n amlwg y gall gwella cynaliadwyedd y cymunedau lleol presennol hyn arwain at wella cynaliadwyedd ledled y sir.
- 6.8 Mae angen cydbwysu'r materion hyn â'r angen i hybu prif aneddiadau'r sir, yn enwedig Aberystwyth, o ystyried ei statws cenedlaethol a rhanbarthol.

⁴¹ Llawlyfr LIC ar CDLlïau, 2il Argraffiad (2015)

- 6.9 Felly, tanategu'r strategaeth eang yw'r egwyddor sylfaenol mai'r ffordd orau o gyflawni'r amcanion o gynnal cymunedau cynaliadwy a hyfywedd y Gymraeg a gwella'r mynediad i wasanaethau yw hwyluso entrepreneuriaeth wledig ac annog amrywiaeth o wasanaethau sylfaenol mewn lleoliadau sy'n agos at y boblogaeth wledig. Bydd hyn hefyd yn helpu i leihau'r angen i deithio bob dydd i ganolfannau mwy sydd ymhellach i ffwrdd.
- 6.10 Felly, bwriad y strategaeth yw harneisio twf a'i ddefnyddio i helpu i wella cynaliadwyedd Ceredigion trwy wneud y canlynol:
- darparu cyfleoedd i hwyluso o leiaf y twf a ragwelir mewn swyddi dros gyfnod y cynllun a darparu cyfleoedd i ddiwallu'r angen am gartrefi newydd yn unol â'r twf a ragwelir; a
 - chanolbwyntio'r cyfleoedd hyn mewn rhai lleoliadau allweddol ledled y sir er mwyn sicrhau'r gwelliannau gorau posibl mewn cynaliadwyedd trwy:
 - ganolbwyntio mwyafrif y cyfleoedd twf yn y Canolfannau Gwasanaeth Trefol (CGTau) (y prif drefi) a'u haneddiadau cefnwledig cynaliadwy er mwyn meithrin eu rolau cenedlaethol (o ran Aberystwyth) a'u rolau rhanbarthol fel y'u nodir yng Nghynllun Gofodol Cymru ac a ragwelir yn yr FfDC; wrth
 - gyflawni rhwydwaith cryf o Ganolfannau Gwasanaeth ledled y sir trwy ganolbwyntio'r gwaith datblygu yn y Canolfannau Gwasanaeth Gwledig (CGGau) er mwyn helpu i gyflawni màs critigol o wasanaethau a chyfleusterau a fydd yn gweini cefnwlad wledig ehangach; a
 - sicrhau bod yr aneddiadau a'r lleoliadau cynaliadwy nas nodwyd fel Canolfannau Gwasanaeth o hyd yn cael yr un cyfleoedd am dwf i helpu i gynnal gwead cymdeithasol a chymunedol yr ardaloedd hynny yn ystod cyfnod y cynllun ond sicrhau na ddylent fod yn ganolbwynt i dwf cyffredinol.
- 6.11 Bydd yr ymagwedd hon yn helpu i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion a nodir yn yr CDLI ac yn helpu i fynd i'r afael â'r Materion Allweddol.

Strategaeth Aneddiadau

Grwpiau Aneddiadau

- 6.12 Yr hyn sy'n tanategu'r strategaeth oedd gwaith a wnaed i greu Strategaeth Aneddiadau ar gyfer yr CDLI. Arweiniodd hyn at nodi Canolfannau Gwasanaeth a Grwpiau Aneddiadau cysylltiedig. Papur Pwnc y Cyngor: mae'r Strategaeth Aneddiadau'n esbonio sut y nodwyd y 23 o Ganolfannau Gwasanaeth Trefol a Gwledig a'u Grwpiau Aneddiadau cysylltiedig, a nodwyd yn Atodiad 1 ac a ddangosir ar y Diagram Allweddol.
- 6.13 Mae gan bob Grŵp Aneddiadau Ganolfan Wasanaeth (naill ai Trefol neu Wledig). Yn ogystal â hynny, mae pob Grŵp yn rychwantu aneddiadau llai eraill (llai o'u cymharu â maint/rôl ei Ganolfan Wasanaeth). Rhoddwyd categori Aneddiadau Cysylltiedig Mwy, Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy ac Aneddiadau Cysylltiedig i rai o'r aneddiadau hyn ac maent hefyd yn rychwantu grwpiau o anheddau a ffermydd, y mae eu cymunedau fwyaf tebygol o ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau'r Ganolfan Wasanaeth honno.
- 6.14 Brasamcan yw'r Grwpiau Aneddiadau o batrymau cymhleth y ddaearyddiaeth leol a gellid awgrymu sawl trefniant arall ar eu cyfer. Fodd bynnag, fe'u nodwyd mewn modd y gallai'r rheiny sy'n byw ynddynt adnabod yr ardal ac ystyried eu bod yn cynrychioli eu cymuned leol ehangach eu hunain. Ffurfiodd mwyafrif y grwpiau hyn ran o CDLI 1 ac maent bellach yn frasamcanion hysbys yn lleol ar gyfer cymuned. Mae parhad hyn yn bwysig i lwyddiant CDLI 2.
- 6.15 Bydd Canolfan Wasanaeth pob Grŵp Aneddiadau'n cymryd y rhan fwyaf o dwf y grŵp hwnnw yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd (gweler Polisi S01, S02 ac S03).
- 6.16 Y tu hwnt i'r Canolfannau Gwasanaeth, mewn 'Aneddiadau Cysylltiedig' a 'Lleoliadau Eraill', bydd lefel y datblygu a ganiateir yn is. Mewn Aneddiadau Cysylltiedig Mwy sydd â nifer o wasanaethau neu gyfleusterau allweddol ac

sy'n gysylltiedig â chanolfannau gwasanaeth trwy lwybrau teithio llesol a/neu drafnidiaeth gyhoeddus, nodwyd dyraniadau bach am dwf. Mewn 'Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy', y rheiny y nodwyd eu bod ar lwybr trafndiaeth gyhoeddus i hwyluso oriau gwaith rheolaidd gyda rhywfaint o wasanaethau mewnol mewn pentrefi, bydd datblygiadau ar hap o un a dwy uned yn dderbyniol. Mewn aneddiadau cysylltiedig eraill a lleoliadau eraill, bydd datblygiadau'n gyfyngedig i'r hyn y darperir ar ei gyfer gan bolisi cenedlaethol, fel y'i nodir ym Mholisi S04.

Canolfannau Gwasanaeth Trefol (CGTau)

- 6.17 Mae CGTau yn cyflawni rôl canolfan leol ar gyfer amrywiaeth sylfaenol o wasanaethau ar gyfer aneddiadau o fewn eu grŵp yn ogystal â rôl o ddarparu gwasanaethau lefel uwch sy'n diwallu'r anghenion na ellir eu diwallu'n realistig mewn Grwpiau Aneddiadau'r CGG (gweler Polisi S02). Felly, maent yn gweini ardaloedd daearyddol mawr a bydd ganddynt ran ganolog wrth gyflawni uchelgeisiau economaidd Strategaeth Tyfu Canolbarth Cymru.
- 6.18 **Aberystwyth** yw'r dref fwyaf yng Ngheredigion ac mae'n cyflawni rôl genedlaethol yn ogystal â rôl ranbarthol ar gyfer canolbarth Cymru, fel y'i cydnabyddir yng Nghynllun Gofodol Cymru, a rhagwelir y caiff ei chynnwys yn yr FfDC. Hefyd, mae ganddi rôl ar lefel y sir, o dan y sir ac ar lefel leol, fel y gellir ei gweld o Ddatganiad y Grŵp Aneddiadau (gweler CCA Datganiad y Grŵp Aneddiadau). Bwriad y cynllun yw cynnal a gwella statws Aberystwyth fel anheddiad o bwysigrwydd cenedlaethol ac fel canolfan strategol i ganolbarth Cymru, gan gynnwys ardaloedd Rhydyfelin a Chomins Coch.
- 6.19 Yn ogystal ag Aberystwyth, mae gan Geredigion bum prif dref arall a nodir yng Nghynllun Gofodol Cymru, sef **Aberaeron, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron**. I gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r cynllun strategol, defnyddir yn un trefi fel yr CGTau yn CDLI2, yn union fel yr oeddent yn CDLI1. Mae Castellnewydd Emlyn, er ei bod ychydig dros y ffin yn Sir Gaerfyrddin, yn darparu'r un rôl ag CGTau Ceredigion. At ddibenion

CDLI Ceredigion, mae ACLI Sir Gaerfyrddin yn cytuno y cyfeirir at Gastellnewydd Emlyn fel CGT ac ystyriwyd ei heffaith a'i hanghenion o ran aneddiadau cyfagos o fewn Ceredigion.

- 6.20 Mae gan yr CGTau eraill hyn rôl isranbarthol mewn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau a chyfleusterau i'w Grŵp Aneddiadau, yn ogystal ag amryw swyddogaethau ar lefel y sir ac o dan y sir. Disgrifir y rolau a'r swyddogaeth hyn, yn ogystal â'u goblygiadau ar gyfer twf, yn fwy manwl yn eu Datganiadau Grŵp Aneddiadau unigol (gweler CCA). Fodd bynnag, yn gryno, mae'r cynllun yn ceisio sicrhau potensial economaidd mwyaf posibl yr CGTau, sy'n cynnwys sicrhau bod eu swyddogaethau manwerthu isranbarthol yn cael eu cynnal a'u gwella. Yn ogystal â hynny, er mwyn cydbwysu unrhyw dwf economaidd a thwf tai yn y canolfannau hyn, caiff cyfleusterau cymunedol, iechyd a hamdden eu cynorthwyo a'u hannog ym mhob CGT.
- 6.21 Yn sgil cyfyngiadau tir ffisegol sylweddol yn Aberaeron a Chastellnewydd Emlyn, bu angen nodi aneddiadau ymhob un o'r grwpiau hyn a fyddai'n helpu i ddiwallu'r angen a ddylai fel arall gael ei ddarparu yn yr CGT. Ffos-y-ffin a Llwynceilyn yw'r aneddiadau hyn ar gyfer Aberaeron ac Adpar ar gyfer Castellnewydd Emlyn. Mae'r rhain wedi eu dewis gan ystyried amrywiaeth eang o ffactorau.
- 6.22 Mewn perthynas ag Aberaeron, mae Ffos-y-ffin a Llwynceilyn yn cynnig y datrysiad dros dro gorau i ddiwallu anghenion tai na ellir eu diwallu yn y dref, o leiaf tan y gellir ymchwilio i opsiynau pellach yn fanwl yn Aberaeron ei hun. Mae gan Ffos-y-ffin a Llwynceilyn gysylltiadau trafndiaeth da a lefel o wasanaethau sy'n ddiogel hygyrch i gerddwyr i leihau'r angen am deithiau i Aberaeron gan breswylwyr i ddiwallu rhai o'u hanghenion beunyddiol. Fodd bynnag, dylid nodi bod yr ACLI wedi ymrwymo i ail-werthuso'r opsiynau ar gyfer cyfeiriad hirdymor Aberaeron o ran twf strategol ar gyfer y Cynllun Adneuo, i geisio cynnwys tir ychwanegol ar gyfer datblygu tai. Byddai hyn yn arwain at leihad yn y cyfleoedd am dai a briodolir ar hyn o

bryd i Ffos-y-ffin a Llwynceilyn ar gyfer hyn ac ar gyfer cyfnod cynlluniau yn y dyfodol.

- 6.23 Mewn perthynas ag CGT Castellnewydd Emlyn, mae Adpar (sy'n rhan o Geredigion) yn y bôn yn gweithredu fel rhan o'r CGT ac mae felly'n gymwys fel anheddiad lle dylid diwallu anghenion tai Ceredigion yn barhaus. Gweler Datganiadau'r Grwpiau Aneddiadau CDLI1 am ragor o wybodaeth.
- 6.24 Cynigir dynodiad diwygiedig o saith CGT (gweler Atodiad 1):

Aberaeron (Llwynceilyn/ Ffos-y-ffin)
Aberystwyth / Llanbadarn Fawr / Waunfawr / Penparcau / Rhydyfelin / Comins Coch
Aberteifi
Llanbedr Pont Steffan
Llandysul
Castellnewydd Emlyn (Adpar)
Tregaron

Canolfannau Gwasanaeth Gwledig (CGGau)

- 6.25 Nodwyd aneddiadau sydd, yn sgil eu maint neu rychwant gweddol fawr ac ansawdd y gwasanaethau a'r cyfleusterau, yn addas i gael eu dynodi'n Ganolfannau Gwasanaeth Gwledig (CGGau).
- 6.26 Trwy nodi'r aneddiadau hyn a chanolbwyntio gwaith datblygu gwledig ynddynt, mae'r strategaeth yn ceisio cryfhau eu rôl yn y rhwydwaith o aneddiadau i fwyhau'r rhagolygon i gymunedau gwledig ddiwallu eu hanghenion sylfaenol eu hunain (Polisi S03). Ystyrir hyn yn ymagwedd gritigol i gynnal cymunedau o ystyried ardal ddaearyddol fawr Ceredigion.

- 6.27 Felly, mae pob un CGG arfaethedig a'i haneddiadau cyfagos cysylltiedig yn y Grŵp Aneddiadau yn cynnwys uned sydd â chyfanswm poblogaeth sy'n cynrychioli trothwy posibl ar gyfer llawer o wasanaethau sylfaenol ac sy'n darparu'r hygyrchedd angenrheidiol i'r gwasanaethau hynny. Lleoliadau yw'r CGGau lle gellir gwella hyfywedd darpariaeth leol trwy gael eu canolbwyntio a'u cynorthwyo'n well gan boblogaeth fwy sydd o fewn pellter cerdded. Bydd yn rhaid i'r rheiny yn y pentrefi cyfagos deithio mewn car o hyd ond dylai eu teithiau i'r CGGau fod yn fyrrach na'r CGT agosaf. Mae polisïau S01 ac S03 yn manylu'r math o ddatblygiad sy'n addas ar gyfer CGG a'i raddfa.
- 6.28 Mae un anheddiad sy'n darparu'r un rôl ag CGGau Ceredigion, er ei fod ychydig dros y ffin yn Sir Gaerfyrddin, sef Llanybydder. Yn dilyn trafodaeth ag ACLI Sir Gaerfyrddin, at ddibenion CDLI Ceredigion, cynigir y caiff Llanybydder ei hystyried yn CGG ac y caiff ei heffaith ei hystyried mewn perthynas â'r aneddiadau cyfagos yng Ngheredigion. Gweler CCA Datganiad y Grŵp Aneddiadau CDLI1 am fwy o wybodaeth.
- 6.29 Yn sgil cyfyngiadau tir ffisegol sylweddol yng Ngheinewydd, bu angen nodi anheddiad cyfagos a fyddai'n helpu i ddiwallu'r angen a ddylai fel arall gael ei ddarparu yn yr CGT. Cynigir Cross Inn ar gyfer Ceinewydd, gan ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys pa mor agos ydyw at Geinewydd, ei hamrywiaeth eang o wasanaethau lleol, a'i chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da â Cheinewydd. Mae Cross Inn wedi profi galw uchel am ddatblygu ac ystyrir ei bod yn cynnig y datrysiad dros dro gorau i ddiwallu anghenion tai na ellir eu diwallu yn y dref, o leiaf nes y gellir ymchwilio i opsiynau pellach yn fanwl yng Ngheinewydd ei hun.
- 6.30 Cynigir **Brynhoffnant** fel CGG newydd yn CDLI 2 i gydnabod y galw sydd wedi cynyddu yno, dyfodiad cyfleuster allweddol newydd, sef ysgol ardal, a'i lleoliad cynaliadwy ar y brif ffordd a'i mynediad i wasanaeth bws rheolaidd. Mae'n elwa ar orsaf betrol, siop a chyfleusterau eraill, yn ogystal ag amrywiaeth o gyfleoedd am gyflogaeth â thâl.

Cynigir Ponterwyd fel CGG newydd yn lle Pontarfynach, lle y bu ychydig iawn o ddiddordeb datblygu yn ystod CDLI 1.

6.31 Cynigir 16 CGG ar gyfer yr CDLI newydd (gweler Atodiad 1):

Aberporth/Parcllyn		Bow Street
Brynhoffnant		Cenarth
Felin-fach / Ystrad Aeron		Llannarth
Llanilar		Llan-non
Llanrhystud		Llanybydder (Sir Gaerfyrddin)
Ceinydd / Cross Inn		Penrhyn-coch
Ponterwyd		Pontrhydfendigaid
Tal-y-bont		Y Borth

Aneddiadau a Lleoliadau ac Eithrio'r Canolfannau Gwasanaeth (Aneddiadau Cysylltiedig Mwy, Aneddiadau Cysylltiedig Llai, Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill)

6.32 O fewn y Grŵp Aneddiadau, bydd aneddiadau eraill, grwpiau o anheddau a ffermydd. Mae'r CDLI yn cynnig rhai o'r aneddiadau eraill hyn fel 'Aneddiadau Cysylltiedig Mwy', 'Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy' ac 'Aneddiadau Cysylltiedig'. Felly, cyfeirir at y lleoliadau nas enwyd fel 'Aneddiadau Cysylltiedig' yn yr CDLI fel 'Lleoliadau Eraill'. Ymdrinnir ag 'Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill' ym Mholisi S01 ac S04. Ymdrinnir ag 'Aneddiadau Cysylltiedig Mwy' o dan bolisiau S02 ac S03.

6.33 Mae twf y tu hwnt i'r Canolfannau Gwasanaeth ond yn gynaliadwy pan fydd yn galluogi'r gymuned bresennol i ddiwallu rhai o'i hanghenion ei hun, yn enwedig pan fydd aelodau o'r gymuned yn ennill bywoliaeth yn yr ardal honno. Yn unol â'r strategaeth, sef gwella rôl a chynaliadwyedd y Canolfannau Gwasanaeth trwy alluogi mwy o dwf yn y canolfannau hynny,

- bydd maint y datblygu a fydd yn dderbyniol y tu hwnt i'r Canolfannau Gwasanaeth yn gyfyngedig.
- 6.34 Fodd bynnag, mae angen rhywfaint o dwf parhaus yn yr ardaloedd hyn y tu hwnt i'r Canolfannau Gwasanaeth i helpu i gynnal cymunedau lleol ffyniannus a'r Gymraeg. Am y rheswm hwn, cynigir y bydd cyfran o'r cyfleoedd tai i'w cynnwys yn CDLI 2 yn cael ei chadw ar gyfer y lleoliadau hynny, ond bydd y swm dan reolaeth lem. Mae Polisi S01 ac S04 hefyd yn nodi'r mathau eraill o ddatblygiad a allai fod yn briodol mewn lleoliadau o'r fath.
- 6.35 Y prif reswm am nodi 'Aneddiadau Cysylltiedig Mwy' (ACM), 'Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy' (ACC) ac 'Aneddiadau Cysylltiedig' yw y gellir canolbwyntio gwaith datblygu ar gyfer anghenion lleol y tu hwnt i'r Canolfannau Gwasanaeth ar leoliadau presennol sydd â nodwedd 'anheddiad' sylweddol eisoes. Mae ACMau wedi'u nodi gan fod ganddynt lwybrau trafndiaeth gyhoeddus a/neu deithio llesol i'w Canolfan Wasanaeth a'u bod o raddfa a maint digonol i amsugno twf. Dynodwyd 'Aneddiadau Cysylltiedig' ar sail presenoldeb amgylchedd adeiledig sylweddol. At ddibenion yr CDLI, ystyrir 'amgylchedd adeiledig sylweddol' fel anheddiad a oedd, ar ddechrau cyfnod y cynllun (2018), â 37 neu fwy o unedau tai a oedd yn union gyfagos â'i gilydd mewn un grŵp, neu ddau neu dri grŵp ar brydiau.
- 6.36 Aneddiadau yw'r 'Aneddiadau Cysylltiedig Mwy' sy'n ffurfio ymylon y craidd trefol ac sy'n cynnwys 150 a mwy o anheddau, a chanddynt gyfleusterau lleol sylweddol. Mae gan bob un fynediad i lwybrau teithio llesol a/neu drafndiaeth gyhoeddus i'r Canolfan Wasanaeth, sy'n hwyluso moddau o deithio eraill yn hytrach na'r car. Maent yn ddigonol eu maint ac mae ganddynt gyfleusterau digonol fel y gallant dderbyn rhai dyraniadau bach a lefelau twf rhesymol heb drafferth.
- 6.37 Cynigir cyfanswm o 22 setliad fel 'Aneddiadau Cyswllt Cynaliadwy' (SLS) ar sail eu maint (60+ uned), rhai cyfleusterau ac, yn bwysicach na dim,

argaeledd trafndiaeth gyhoeddus i'r USC agosaf gyda siwrne 30 munud ar y mwyaf i gwrdd ag oriau gwaith safonol. Gallai'r rhain ddarparu ar gyfer mân dai marchnad agored i gynnal y gymuned wledig. (Gweler Atodiad 1).

6.38 Mae'r 'Aneddiadau Cysylltiedig' arfaethedig yn amrywio'n sylweddol o ran maint. Mae rhai yn gasgliad o unedau preswyl yn unig, tra bod gan eraill nifer o gyfleusterau sylfaenol. Mae pob un yn gweithredu fel cymuned i ryw raddau. O ganlyniad, bydd lefel y twf sy'n dderbyniol yn yr 'Aneddiadau Cysylltiedig' yn y dyfodol yn gyfyngedig i bolisi cenedlaethol yn union fel y'i nodir ym Mholisi S04. Yn ogystal â hynny, yn unol â'r strategaeth, dylid darparu ar gyfer cyfran o'u hanghenion tai yn lefel y twf a nodir ar gyfer y Ganolfan Wasanaeth.

6.39 Ac eithrio yn yr 'Aneddiadau Cysylltiedig', bydd datblygiadau tai newydd y tu hwnt i Ganolfannau Gwasanaeth yn gyfyngedig i dai lleol (gweler PCC 3.56 a Pholisi S04 ac S05) neu anghenion menter wledig (gweler Polisi S04 a'r Canllawiau Cenedlaethol yn TAN6) neu droi adeiladau'n anheddau gyda chymorth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol ac adsefydlu cyn-anheddau ac anheddau gwag gyda chymorth Polisi LU09.

6.40 Mae Polisi S04 yn manylu sut y rheolir 'Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill'.

Y Strategaeth Aneddiadau a Datblygiadau yn y Dyfodol:

6.41 Mae polisïau S01-S04 yn nodi'r math o ddatblygu priodol, a'r lefel ohono, ar gyfer amryw leoliadau o ran y Strategaeth Aneddiadau.

6.42 Crëir ffiniau'r aneddiadau ar gyfer pob Canolfan Wasanaeth ac Anheddiad Cysylltiedig Mwy, i sicrhau bod y gwaith datblygu'n cydymffurfio â'r amgylchedd adeiledig presennol ac yn digwydd yn y lleoliadau mwyaf addas. Mae gwaith gweithredu ffiniau'r aneddiadau'n amrywio rhwng CGTau a CGGau ac fe'i manylir ym Mholisi S02 ac S03 yn eu tro. Caniateir gwaith datblygu y tu hwnt i ffiniau'r aneddiadau dim ond os bydd yn unol ag un o bolisïau'r CDLI neu'r canllawiau cenedlaethol.


- 6.43 Nid oes gan fwyafrif yr 'Aneddiadau Cysylltiedig' ffiniau aneddiadau, ac eithrio Aneddiadau Cysylltiedig Mwy, sydd â ffin i hwyluso dyraniadau bach a gwaith datblygu ar hap. Yn y rheiny nad oes ganddynt ffiniau (sef y mwyafrif), disgwylir i'r gwaith datblygu gydymffurfio'n dda â'r amgylchedd adeiledig presennol yn unol â pholisïau S04 a DM17. Pan na fydd y gwaith datblygu'n cydymffurfio'n dda â'r amgylchedd adeiledig neu pan fydd y datblygiad mewn 'Lleoliad Arall', ystyrir ceisiadau o'r fath yn y ddau achos yn erbyn yr elfennau hynny o Bolisi S04 sy'n berthnasol i 'Leoliadau Eraill'.
- 6.44 Yn gyffredinol, cyfyngir y gwaith arfaethedig o ddyrannu safleoedd at ddefnyddiau penodol i Ganolfannau Gwasanaeth ac Aneddiadau Cyswllt Mwy, er y caiff rhai dyraniadau cyflogaeth eu lleoli mewn mannau eraill. Cyfeirir at yr holl ddyraniadau arfaethedig yn y Cynllun Adneuo ar gyfer CDLI2 ym Mholisi S01 a chaiff eu cynnwys yn CCA Datganiad y Grwpiau Aneddiadau a'u nodi ar Fap y Cynigion. Bydd CCA penodol Datganiad y Grwpiau Aneddiadau yn cynnwys gofynion a chyfyngiadau hysbys o ran y safleoedd hyn. At ddibenion cyfeirio, mae'r safleoedd hefyd wedi'u rhestru fesul math yn **Atodiad XX**.
- 6.45 Ar gyfer Map Cynigion y Cynllun Adneuo, gallai rhai ffiniau aneddiadau gynnwys ardaloedd mawr o dir nad ydynt wedi'u dyrannu at unrhyw ddiben penodol. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys o fewn y ffin am amryw resymau.

Cyfleoedd ar gyfer Twf Tai

- 6.46 Rhan o'r strategaeth yw sicrhau bod cyfleoedd yn bodoli i gyflawni'r un twf a ragwelir mewn anghenion anheddau yn ystod cyfnod y cynllun a bod cyfleoedd yn cael eu darparu i gyflawni'r twf hwn mewn modd a fydd yn cryfhau cynaliadwyedd cyffredinol y sir.
- 6.47 Yn unol â PCC, yr amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2014 a'r amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru oedd y man cychwyn ar gyfer canfod angen am dai ar gyfer y cynllun. Dadansoddodd Cyngor y Sir y fethodoleg amcanestyn hon a'r data a fewnbynwyd. Er yr oedd egwyddor gyffredinol,

methodoleg a mewnbyniadau'r amcanestyniadau'n sail dda ar gyfer canfod angen am annedd, daeth yr asesiad i'r casgliad y gellid addasu'r polisi ar lefel leol. Byddai'r addasiad yn ystyried gwaith ar Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a chyfleoedd datblygu economaidd cysylltiedig. Ystyriwyd hefyd y cyfraddau adeiladu blaenorol dros gyfnod y cynllun cyntaf. Cynigir ffigur angen am dai a ffigur o dai a gyflenwyd ym Mholisi Strategol S01.

Past build rates 2007-2018



- 6.48 Dros gyfnod yr CDLI (2018 i 2033), disgwylir i boblogaeth y sir godi tua 4,175, i 80,499, ac i nifer yr aelwydydd ynddi gynyddu 2,216 i 34,538. I droi nifer yr aelwydydd yn anheddau, cynyddir y ffigurau gan y gyfradd gwacter o 10% o ganlyniadau Cyfrifiad 2011. Gan ddefnyddio cyfradd debyg wrth gyfrifo'r amcanestyniadau o aelwydydd, disgwylir i nifer yr anheddau gynyddu 2,437 dros gyfnod y cynllun.
- 6.49 Er y cymerwyd gofal i sicrhau y gellir cyflawni holl ddyraniadau cyfleoedd tai'r cynllun, mae'n anochel na chaiff rhai o'r safleoedd ei datblygu yn union fel y rhagwelir yn ystod cyfnod y cynllun. O'r herwydd, er mwyn sicrhau y gellir sicrhau nifer yr anheddau sydd eu hangen, ychwanegwyd lwfans wrth gefn gwerth oddeutu 27%, sy'n ymgorffori ymrwymiadu/tai presennol a hyblygrwydd. Ar gyfer CDLI 2, cynigir cyfleoedd i gyflenwi oddeutu 3,000 o unedau (gweler Polisi S01).

- 6.50 Yn gryno, cynigir cyflenwi 3,000 o dai i ddiwallu'r angen am dai, sef 2,437 o anheddau.
- 6.51 Fel y'i dangosir, mae elfen 'dosbarthu gofodol lefel uchel' y strategaeth (Polisi S01) yn ddigon hyblyg i ganiatáu am rywffaint o wyro mewn lefelau twf uwchlaw neu islaw'r amcanestyniad presennol heb fod angen adolygiad mawr o'r strategaeth. Fodd bynnag, caiff data demograffig ei fonitro trwy'r AMB ac ymdrinnir ag unrhyw wyro sylweddol o'r amcanestyniad hwn gan adolygiad o'r cynllun.
- 6.52 Nid yw'r Cyngor wedi cynnig unrhyw elfen o bolisi i ffigur yr angen am dai yn yr CDLI ac y mae wedi dewis ymagwedd 'rhagfynegi a darparu'.
- 6.53 Fodd bynnag, mae'n amlwg fod gwella cynaliadwyedd ledled y sir yn ystod cyfnod y cynllun yn fwy tebygol o gael ei gyflawni, ar sail amcanestyniadau'r Cyngor, na pe bai'r amcanestyniadau wedi arwain at nifer is. Gyda lefel uchel bresennol o ymrwymadau, fel y bydd yn amlwg o'r wybodaeth isod, bydd cyfle am ragor o gyfleoedd am dai yn helpu'n fawr i gyflawni gweledigaeth ac amcanion y cynllun. Bydd amcanestyniadau'r Cyngor yn ei alluogi i sicrhau bod màs critigol mwy o dai o ran Canolfannau Gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu i gryfhau rhwydwaith y canolfannau sy'n bodoli ledled y sir. Yn ei dro, bydd hyn yn sicrhau bod gwaith datblygu yn canolbwyntio ar y lleoliadau mwyaf cynaliadwy (y Canolfannau Gwasanaeth) yn unol â'r weledigaeth, a fydd felly yn lleihau'r angen i deithio, gwella gwydnwch y sir, gwarchod a gwella ei hadnoddau amgylcheddol, a gwella cynaliadwyedd cyffredinol y sir. Cyflawnir hyn yn bennaf trwy weithredu polisïau'r cynllun i'r cyfleoedd am dai a ddaw i'r amlwg yn ystod cyfnod y cynllun gan fod y rheiny sydd eisoes wedi'u hymrwymo wedi'u caniatáu o dan gyfres wahanol o bolisïau ac amcanion.
- 6.54 Gan fod cyfnod y cynllun yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 2018 a 2033, mae rhywfaint o'r angen am dai a nodwyd uchod eisoes wedi'i ddarparu trwy ymrwymadau presennol, sydd fel a ganlyn ⁴²:

⁴² Papur Diweddarau Tystiolaeth ar Gyflenwi Tai – Tai Presennol 2019

- cwblhawyd: anheddau a gwblhawyd hyd at 31 Mawrth 2019; a
- chaniatadau sydd heb eu rhoi: nifer yr unedau y cafwyd caniatâd cynllunio dilys ar eu cyfer hyd 31 Mawrth 2018. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys safleoedd a gychwynnwyd a'r rheiny nas cychwynnwyd.

6.55 Nodir yr ymrwymïadau yn **Atodiad X**, (i'w baratoi)

6.56 Yn unol â'r strategaeth, cynigir cyfleoedd am dwf mewn tai yn bennaf i'r Canolfannau Gwasanaeth fel a ganlyn:

- Leiaf 55% o Ganolfannau Gwasanaeth Trefol (dyraniadau a safleoedd ar hap) yn unol â Pholisi S02
- 20% mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig (dyraniadau) yn unol â Pholisi S03
- 15% mewn Aneddiadau Cysylltiedig Mwy
- 10% yn yr Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy yn unol â Pholisi S04
- Cynigion yn unol â'r Polisi Cenedlaethol ar aneddiadau cysylltiedig a lleoliadau eraill yn unig

Math o anheddiad	Canran y gyfran o dwf
CGT	55%
CGG	20%
ACM	15%
ACC	10%
AC ac LIE	0%
Cyfanswm	100%

6.57 Cynigir y 'dosbarthiad gofodol lefel uchel' hwn gan ei fod yn arwain at gyfran uwch o dai yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy na chyfran y gorffennol. Mae'r 'dosbarthiad gofodol lefel uchel' hwn yn caniatáu am rywfaint o hyblygrwydd o ran diwallu anghenion tai ni waeth beth fo'r anghenion gwirioneddol a godir yn ystod cyfnod y cynllun.

- 6.58 Mae'r CDLI yn awyddus i sicrhau y dylid diwallu'r rhan fwyaf o dai yn y dyfodol yn yr CGTau yn unol â PCC a'r rôl gydnabyddedig ar gyfer y canolfannau hyn yn CGC ac yn y FfDC sydd ar ddod. Ceisiodd CDLI blaenorol y sir y cyfrannau canrannol canlynol: CGT: 51, CGG: 24, AC/LIE: 25. Cyn yr CDLI, ceisiodd Addasiadau Arfaethedig 2006 y Cynllun Datblygu Unedol (CDU), er na chawsant eu mabwysiadu, i sicrhau bod 45% o'r holl dai newydd a ddatblygwyd rhwng 2001 a 2016 yn cael eu codi yn yr un lleoliadau CGT. Mae'r CDLI yn ymwybodol fod 40% a mwy o boblogaeth y sir yn byw yn aneddiadau'r sir ar hyn o bryd, h.y. Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill, nad oes ganddynt lwfans twf ac y mae dim ond ychydig dros 40% o'r boblogaeth yn byw mewn CGTau. O ystyried y ffactorau hyn, a'r ffaith y bydd hefyd angen i CGGau dyfu os yw'r Cyngor am gyflawni ei nod trwy strategaeth yr CDLI o wella cynaliadwyedd y sir yn ei chyfanrwydd, cynnig yr CDLI yw cynyddu'r ddarpariaeth gyfrannol gyffredinol mewn CGTau i 55% yn ystod cyfnod yr CDLI newydd. Yn ogystal â hynny, cynigir lwfans ychwanegol o 15% mewn Aneddiadau Cysylltiedig Mwy sydd oll o fewn llwybrau teithiau llesol o Ganolfannau Gwasanaeth Trefol, gan felly cynnig 70% o dwf o fewn yr CGT a'i hymylon. Mae hyn yn dangos ymrwymiad a chynnydd sefydlog mewn dosbarthu twf i'r aneddiadau mwyaf cynaliadwy dros y 23 o flynyddoedd diwethaf a chyfnodau'r tri cynllun.
- 6.59 Fel y'i nodwyd eisoes, mae'r CDLI yn cydnabod bod angen hybu rôl yr CGGau os yw'r strategaeth am fod yn effeithiol. Mae'r CDLI yn cydnabod bod angen tyfu'r CGGau yn gyffredinol os yw am gyflawni màs critigol a all gynnal a gwella cyfleusterau cymunedol a gwella cynaliadwyedd cyffredinol ardaloedd gwledig. Felly, darparodd yr CDLI gyfleoedd trwy'r cynllun blaenorol i ddiwallu 24% o'r anghenion tai yn yr CGGau. Yn anffodus, mae gwaith monitro'r cynllun trwy'r AMB wedi dangos na chyrhaeddwyd y lefelau hyn. Felly, gwnaed newidiadau yn y cynllun hwn yn rhai o'r CGGau i gyfleu pa mor bosibl yw eu cyflawni. Ceisir amrywiaeth o ddyraniadau newydd a'r gobaiith yw y bydd lwfans llai fyth yn yr aneddiadau cysylltiedig yn hybu twf yn yr CGGau yn ystod cyfnod y cynllun hwn. Mae'r CDLI yn cydnabod y gallai hyn olygu nifer lawer yn fwy ar gyfer rhai o'r CGGau o'u cymharu â'r hyn a welwyd ganddynt yn y gorffennol ac y bydd angen rheoli hyn trwy eu

cyflwyno'n raddol ac yn briodol a sicrhau bod y math o ddatblygu a ddaw i'r amlwg yn diwallu anghenion yr ardal honno yn y ffordd orau. Ystyrir yr ymagwedd hon yn briodol o gofio y nodwyd bod gan yr CGGau fwy o rôl ar gyfer yr hirdymor ac nid dim ond ar gyfer cyfnod y cynllun hwn.

- 6.60 Mae caniatáu am ddiwallu elfen o angen am dai mewn lleoliadau ac eithrio'r Canolfannau Gwasanaeth yn cydnabod yr angen am rywfaint o dwf parhaus yn yr aneddiadau mwy gwledig i helpu i gynnal bywiogrwydd y gymuned a'r Gymraeg. O dan yr CDLI blaenorol, gosodwyd y lwfans hwn ar 25%. O ran cwblhau, fodd bynnag, 43% oedd hyn (yn Ebrill 2018); o dan yr CDU, cwblhawyd 32% o'r tai newydd mewn lleoliadau ac eithrio'r Ganolfan Wasanaeth (hyd at 2007). Er bod angen symud y cydbwysedd tuag at yr CDLI newydd er budd Canolfannau Gwasanaeth, mae'r CDLI yn ymwybodol y dylai rhai cyfleoedd barhau er mwyn diwallu anghenion y dyfodol a godir yn y lleoliadau hyn y tu hwnt i'r Canolfannau Gwasanaeth, fel y'i dangosir yn y cyfraddau cwblhau yn CDLI 1. Fodd bynnag, mae'r twf hwn wedi'i gyfyngu i Aneddiadau Cyswllt Mwy ac Aneddiadau Cyswllt Cynaliadwy.

Cyfleoedd am Dai Fforddiadwy **Manylion i'w cynnwys yn y Cynllun Adneuo**

Cyfleoedd am Dwf Economaidd:

- 6.61 Er mwyn cynnal cymunedau, yn enwedig eu pobl ifanc, mae'r strategaeth yn gwneud darpariaeth ar gyfer uchelgeisiau Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a'r Cynnig Twf sy'n dod i'r amlwg. Caiff safleoedd eu dyrannu yn y Cynllun Adneuo i weddu i uchelgais Tyfu Canolbarth Cymru. Fodd bynnag, daw cyfran sylweddol o'r twf hwn trwy ddatblygu safleoedd presennol at ddibenion ymchwil a datblygu, addysg, technoleg amaeth, gwaith adsefydlu ac adfywio asedau hanesyddol ac archeolegol o bwysigrwydd rhyngwladol mewn modd sensitif, ac ychwanegu gwerth i dwristiaeth
- 6.62 Mae'r strategaeth yn cydnabod y dylid sicrhau'r nifer uchaf posibl o gyfleoedd am gyflogaeth yn yr CGTau ar gyfer pob graddfa a math o

ddatblygiadau. Dylid lleoli cyfleoedd am gyflogaeth sy'n creu nifer fawr o deithiau, naill ai trwy'r hyn a werthant neu drwy lefel y gweithlu sydd ei hangen, o fewn yr CGTau neu, lle bo'n briodol, ar safleoedd mewn mannau eraill (gweler Polisi S01 ac S02).

- 6.63 Hefyd, os am gyflawni rôl yr CGGau yn wirioneddol, cydnabyddir bod sicrhau cyfleoedd am ddatblygu economaidd yn agos i le mae pobl yn byw yn hanfodol, ond y dylid cyflawni hyn ar raddfa sy'n addas i'r CGG honno (gweler Polisi S03).
- 6.64 Yn debyg i hynny, yn sgil natur y sylfaen economaidd yng Ngheredigion, cydnabyddir bod nifer fawr o'r swyddi a grëir yn rhan hunangyflogedig ac, felly, bydd caniatáu cyfleoedd am fusnesau sy'n agosach at le mae pobl yn byw, yn amodol ar raddfa'r datblygiad, yn lleihau nifer y teithiau ac yn helpu cynaliadwyedd yn gyffredinol.
- 6.65 Diben y strategaeth yw helpu i ddarparu ar gyfer twf y dyfodol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, trwy alluogi entrepreneuriaeth trwy bolisi caniatool parthed cynigion datblygu economaidd ledled y sir, a ddylai, yn ei dro, helpu cynaliadwyedd cymunedau a lleihau'r angen i deithio. Yn ail, trwy sicrhau bod digon o dir wedi'i ddyrannu i ddarparu cyfleoedd i weddu i'r swyddi y byddai angen lleoliad mewn parc busnes neu barc diwydiannol arnynt, neu a fyddai'n elwa ohono, neu ddyraniad defnydd cymysg neu ddyraniad pwrpasol o ran manwerthu, cymuned, iechyd a defnyddiau cyflogaeth eraill. Ymdrinnir â'r cyntaf trwy bolisiau LU11–LU12. Mae'r ail fel a ganlyn ar gyfer pob math o sector allweddol:

B1, B2, B8 a defnyddiau unigryw penodol:

- 6.66 *Mae'r sector gwasanaethau yn dominyddu yng Ngheredigion. Ymhlith y prif gyflogwyr mae'r prifysgolion yn Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan, Coleg Ceredigion, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), QinetiQ (Aberporth), Ymddiriedolaeth Hywel Dda a Chyngor y Sir. Mae angen safle swyddfa ar lawer o'r rhain.*

- 6.67 *Nododd Asesiad DTZ, a lywiodd yr CDLI cyfredol, yr angen i ddyrannu rhwng 26ha a 34ha i ddiwallu defnyddiau B1, B2 a B8 a defnyddiau unigryw penodol (gan gynnwys cyfleusterau gwastraff). Troswyd yr angen hwn yn anghenion tir yn ardal Aberystwyth ac yn ne Ceredigion. Dyrannwyd 39ha (net) yn CDLI 1 ar gyfer y categorïau penodol hyn o ddefnydd, 23ha (net) yn Aberystwyth i gydnabod ei rôl genedlaethol a rhanbarthol, ac 16ha yn Aberteifi. Yn ystod CDLI 1 (cyfnod o ddirwasgiad ac ansicrwydd yn bennaf), ni chafodd y rhan fwyaf o'r tir hwn ei ddarparu, ond y rhain yw'r safleoedd gorau sydd ar gael ac mae llawer o'r dyraniadau hyn yn debygol o fod yn ddyraniadau arfaethedig yng Nghynllun Adneuo CDLI 2.*
- 6.68 *Y bwriad yn strategaeth bresennol yr CDLI oedd y gellid diwallu'r rhan fwyaf o'r angen am safleoedd dyrannedig trwy ymestyn safleoedd busnes neu ddiwydiannol presennol. Rhestrir y dyraniadau yn CCA Datganiad y Grwpiau Aneddiadau ac fe'u dangosir ar Fap y Cynigion (Cynllun Adneuo) –. Hefyd, rhestrir y safleoedd mewn atodiad i'r Cynllun Adneuo ynghyd â chrynodeb ynghylch sut y daethpwyd i'r dyraniadau. Bydd y gofynion a'r cyfyngiadau y mae angen eu hystyried ar gam y cais cynllunio yn CCA Datganiad y Grwpiau Aneddiadau. Bydd gwaith datblygu ar y safleoedd a ddyrennir yn ddarostyngedig i bolisiau S01–S04 ac LU11.*
- 6.69 *Dylid nodi y bydd llawer o'r safleoedd 'presennol', yn ogystal â dyraniadau 'newydd', yn cael eu cynnig fel dyraniadau cyflogaeth. Mae cynnwys safleoedd presennol fel rhan o'r dyraniadau cyffredinol yn cydnabod y gellid bod darnau bach o dir o fewn safleoedd presennol a allai gyfrannu at ddatblygiad economaidd newydd a/neu y gellid ailddatblygu rhai o'r safleoedd presennol yn ystod cyfnod y cynllun. Mae eu dyraniad arfaethedig hefyd yn darparu mwy o warchodaeth rhag pwysau a allai godi o fathau eraill o ddatblygiad ar y cyfryw safleoedd.*
- 6.70 *Gan fod y ddarpariaeth newydd yn canolbwyntio'n bennaf ar leoliadau lle mae safleoedd diwydiannol neu fusnes eisoes yn bodoli, ni fydd gan bob Canolfan Wasanaeth ddyraniad. Mae hyn yn arbennig o wir mewn achos CGGau. Daeth gwaith asesu safleoedd NLP i'r casgliad fod sicrhau*

cyfleoedd am ddatblygu economaidd yn agosach at le mae pobl yn byw yn hanfodol os am gyflawni rôl yr CGGau yn wirioneddol. Er bod rhai CGGau eisoes wedi sefydlu safleoedd cyflogaeth aml-uned, heb gyllid penodol a chynigion cyflenwi, mae datblygiadau yn y dyfodol yn debygol o fod ar ffurf unedau unigol. Felly mae dyrannu safleoedd newydd, heb gynigion cyllid cyhoeddus neu breifat amlwg, yn debygol o niweidio twf economaidd yn yr CGGau yn hytrach na'i gynorthwyo, oni fydd safleoedd aml-uned eisoes yn bodoli. Am y rheswm hwn, ni ddyrannwyd safleoedd cwbl newydd yn yr CGGau a phennir ceisiadau ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8 (gan gynnwys defnyddiau unigryw penodol) yn unol â Pholisi S03 ac LU12.

Manwerthu:

- 6.71 Prif ganolfannau siopa'r sir yw'r CGTau. Yn ogystal â hynny, mae gan Aberystwyth rôl ranbarthol o ran siopa, sy'n cyfleu ei rôl yn gyffredinol yng nghanolbarth Cymru a'r ffaith mai hi yw'r dref fwyaf yng Ngheredigion. Mae nifer o'r CGTau hefyd yn gweini ardaloedd mawr y tu hwnt i'r sir, yn enwedig Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan a Llandysul. Dylid lleoli datblygiadau manwerthu mawr (gweler polisïau LU18–LU19 am ddiffiniad) yn yr CGTau. Yn ogystal â darparu amrywiaeth o siopau a nwyddau, mae CGTau hefyd yn darparu canolbwynt pwysig ar gyfer gweithgareddau diwylliannol, twristiaeth a darparu gwasanaethau, ac mae'r cyfan yn ychwanegu at gymeriad a hyfywedd y ganolfan.
- 6.72 Mae'r diddordeb o ran datblygiadau manwerthu yn y blynyddoedd diweddar wedi ymwneud yn bennaf ag Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Paratowyd astudiaeth ledled y sir o allu manwerthu (2017), a nododd fod y dyraniadau a'r caniatadau presennol yn ddigonol i ddiwallu'r anghenion manwerthu a ragwelir tan ar ôl diwedd cyfnod y cynllun (2033). Ni chynigir dyraniadau manwerthu penodol yn CDLI 2 felly.
- 6.73 Felly, disgwylir bod diddordeb a phwysau manwerthu'n weddol isel ac felly mae ymagwedd polisi'n darparu modd mwy ymatebol o ymdrin ag anghenion manwerthu wrth iddynt godi yn unol â pholisïau S02–S04, Polisi LU18 a Pholisi LU20.

- 6.74 Dylid cryfhau rôl yr CGGau mewn darparu dewis o ran anghenion nwyddau cyfleustra. Mae cyfleusterau manwerthu lleol yn helpu i leihau hyd y teithiau a wneir a'r nifer ohonynt, yn lleihau elfennau o allgáu cymdeithasol, ac yn helpu i greu gwell ansawdd bywyd i breswylwyr. Y bwriad yw cryfhau gallu'r Grwpiau Aneddiadau mwy gwledig hyn i ddiwallu eu hanghenion beunyddiol eu hunain, trwy gryfhau'r ddarpariaeth yn yr CGG. Fodd bynnag, dylai cynigion ddiwallu anghenion lleol yn bennaf ac ni ddylent fod o raddfa a fyddai'n denu cwsmeriaid o bell, a fyddai'n cael eu gweini'n fwy cynaliadwy trwy CGG agosach neu, yn wir, CGT (gweler Polisi S03).
- 6.75 Cydnabyddir bod rôl siopau cyfleustra lleol a darpariaeth manwerthu ar raddfa fach yn yr 'Aneddiadau Cysylltiedig' yn bwysig, yn enwedig ar gyfer nwyddau sy'n diwallu anghenion beunyddiol. Gwrthwynebir colli mwy o siopau a swyddfeydd post mewn pentrefi. Er mwyn sicrhau bod siopau gwledig yn goroesi, gellid bod angen ymagweddau newydd mewn darpariaeth (Polisi S04).

Defnyddiau Twristiaeth a Hamdden:

- 6.76 Yn aml, mae angen darpariaeth bwrpasol ar ddefnyddiau twristiaeth a hamdden, gan gyfleu natur y cynnig, ac maent yn llawer anoddach eu rhagweld a darparu ar eu cyfer o ran dyraniadau heb gynlluniau hysbys. Felly, ymdrinnir ag unrhyw dwf mewn cyfleusterau twristiaeth a hamdden yn y dyfodol pan wneir cais, yn unol â pholisïau S01–S04 a pholisïau manwl Rheoli Datblygiad a Defnydd o Dir a nodir yn y Cynllun Adneuo ar gyfer CDLI 2, yn hytrach na thrwy ddyrannu safleoedd (gweler polisïau LU14–LU17, LU22 ac LU24).
- 6.77 Yr eithriad i hyn yw pan nodir yn Rhestrau o Safleoedd Dyranedig y Grŵp Aneddiadau fod angen darparu man agored, neu pan fydd angen adleoli neu ailddatblygu cymuned bresennol neu gyfleuster hamdden presennol fel rhan o'r datblygiad cyffredinol er mwyn datblygu safle.

Amaethyddiaeth:

6.78 Mae amaethyddiaeth (sy'n cynnwys pysgodfeydd) hefyd yn sector cyflogaeth pwysig yng Ngheredigion. Er nad yw cyflogaeth mewn amaethyddiaeth yn effeithio ar y galw am safleoedd cyflogaeth dyranedig yn y dyfodol, gallai gwaith ailstrwythuro parhaus y sector greu cyfleoedd a heriau. Felly, bydd angen i'r CDLI allu ymateb i'r newidiadau hyn wrth iddynt ddigwydd a bydd yn dibynnu'n bennaf ar bolisïau cenedlaethol i ddyfarnu ar y cyfryw geisiadau.

6.79 Mae Cyngor y Sir yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygu economi technoleg amaethyddol y sir.

Sectorau Cyflogaeth Pwrpasol:

6.80 Mae'r maes awyr ym Mlaenannerch (Maes Awyr Gorllewin Cymru) yn ne'r sir yn cyflawni rôl gefnogol o ran yr economi lleol. Dangosir cwrtil y maes awyr ar Fap y Cynigion ac fe'i cynigir fel dyraniad aml-ddefnydd yn yr CDLI () i gydnabod cefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru i'r cyfleuster hwn, datblygiad arfaethedig sy'n gysylltiedig â'i rôl fel glanfa ar gyfer ymchwil radiosbectrwem ar y môr, a chynllun arfaethedig i ehangu'r maes awyr gyda gwaith i ddatblygu gwesty o bosib. Ceir manylion y cymysgedd derbyniol o ddefnyddiau ar y safle yn Natganiad y Grŵp Aneddiadau ar gyfer Aberporth/Parcllyn.

6.81 Er mwyn cynnal cyflenwad digonol a chynaliadwy o dywod a graean a chreigiau wedi'u malu, cafodd dau ddyraniad eu hychwanegu at CDLI 1 ar gyfer gwaith ar adnoddau mwynol. Disgwylir y bydd yr CDLlïau yn adlewyrchu targed rhanbarthol. Bydd y Cynllun Adneuo yn adlewyrchu cydweithio ar draws cynghorau Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gytuno ar sut orau i ddiwallu'r anghenion banc tir yng Ngweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (Adolygiad 1^{af} / 2^{il} Adolygiad sy'n dod i'r amlwg) ac a fydd angen dyraniadau mwynol yn CDLI 2 ai peidio.

Cyfleoedd am Dwf ar gyfer Sectorau Eraill:

- 6.82 Fel y'i nodwyd eisoes, tai a chyflogaeth sy'n creu'r pwysau mwyaf o ran twf yn ystod cyfnod y cynllun.
- 6.83 Fodd bynnag, os yw'r CDLI am ymateb mewn ffordd strategol i'r angen penodol i wella cynaliadwyedd ledled y sir, yna mae'n bwysig cydnabod nifer o faterion eraill a mynd i'r afael â nhw er mwyn cyflawni'r strategaeth.
- 6.84 Felly, bydd yr CDLI yn annog gwaith datblygu sy'n helpu i ddarparu ar gyfer twf mewn sectorau eraill i gydbwyso twf economaidd a thwf tai. Mae hyn yn cynnwys twf sy'n ymwneud â'r canlynol:
- 6.85 Cymuned (gan gynnwys addysg): Bydd y cyfryw anghenion yn cael eu diwallu'n bennaf trwy ddarpariaeth polisi (Polisi LU22).
- 6.86 Trafnidiaeth: Bydd y cyfryw anghenion yn cael eu diwallu'n bennaf trwy ddarpariaeth polisi (gweler polisïau DM03 a DM04).
- 6.87 Dylai graddfa'r cyfryw dwf ymwneud â'r twf economaidd a thwf tai a gynigir ar gyfer y lleoliad hwnnw trwy'r CDLI (gweler polisïau S01, S02, S03 ac S04). Dylai hyn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol posibl ar y gymuned bresennol ac ar y Gymraeg yn cael eu lleihau a, lle bo'n bosibl, bod gwaith datblygu'n cael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd y gymuned a'r Gymraeg.

Cyflawni Datblygu Cynaliadwy / Cyrraedd Nodau'r Ddeddf Llesiant

- 6.88 Beth bynnag fo lefel y twf, bydd angen ei gyflawni mewn modd cynaliadwy ac ystyried a rhoi sylw dyledus i faterion sy'n cynnwys:
- dyluniad, cyd-destun yr amgylchedd, materion sy'n ymwneud â chymuned, y Gymraeg, iechyd a llesiant (gweler polisïau DM06 – DM10);
 - yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys bioamrywiaeth, tirwedd ac adnoddau naturiol, ynni a mwynau (gweler polisïau LU25 – LU32 a DM12 – DM23); ac

- argaeledd seilwaith a gwasanaethau digonol (cyfleustodau, gwastraff, trafndiaeth ayyb.) (gweler polisïau LU31 – LU32, DM03 – DM04 a DM12 – DM13).

6.89 Eir i'r afael â'r holl faterion hyn trwy bolisïau penodol yn y Cynllun Adneuo.

6.90 Caiff y strategaeth ei chrynhoi yn y blwch canlynol a'i harddangos ymhellach yn y Diagram Allweddol:

Y Strategaeth

Diben y strategaeth yw gwella cynaliadwyedd y sir, gan gynnwys gwarchod a gwella amgylchedd ac adnoddau'r sir, yn ogystal â sicrhau y daw'r sir, trwy newid, yn fwy gwydn yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.

I sicrhau y cyflawnir datblygu cynaliadwy, bydd y strategaeth yn cryfhau rhwydwaith Ceredigion o gymunedau aneddiadau trefi a gwledig yn ogystal â'r Gymraeg trwy'r defnydd o dwf wedi'i ganolbwyntio.

Felly, canolbwyntir twf ar y Canolfannau Gwasanaeth (Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Chanolfannau Gwasanaeth Gwledig), wrth gydnabod y bydd rhai cyfleoedd yn parhau ar gyfer lleoliadau ac eithrio'r canolfannau hyn.

Mae'r strategaeth yn croesawu newid ac yn darparu ar gyfer twf economaidd a thai arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys darparu ar gyfer tai fforddiadwy ac amrywiaeth eang o anghenion tai.

O ran twf a ragwelir mewn tai, cyflawnir hyn trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer:


- O leiaf 55% o'r twf hwn yn y Canolfannau Gwasanaeth Trefol (CGTau);
- 20% o'r twf hwn yn y Canolfannau Gwasanaeth Gwledig (CGGau);
- 15% mewn Aneddiadau Cysylltiedig Mwy; ac

- Uchafswm o 10% o'r twf hwn yn yr aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy.
- ⁴³.

O ran cyflogaeth, mae'n golygu:

- cynyddu'r cyfleoedd i bobl i weithio'n agosach at le maent yn byw trwy gyflwyno polisi caniaataol o ran cynigion cyflogaeth ledled y sir; a
- darparu dyraniadau safleoedd penodol ar gyfer defnyddiau tir y mae angen lleoliad 'parc busnes neu barc diwydiannol' arnynt, neu a fyddai'n elwa ar safleoedd defnydd cymysg (megis at ddibenion manwerthu neu gymunedol).

Hefyd, mae'n bwysig fod cyfleusterau, gwasanaethau ac isadeileddau eraill yn dod i'r amlwg sy'n cynorthwyo rôl yr aneddiadau amrywiol sy'n bodoli yn y sir, gan leihau'r angen cyffredinol i deithio ac i wella cynaliadwyedd y sir ymhellach.

 Amcanion: 1 – 18

- 6.91 Fel y'i gosodir ym mharagraff 6.124, diben y strategaeth yw gwella cynaliadwyedd y sir. Yr hyn sy'n allweddol i gyflawni'r strategaeth hon yw creu cymunedau cynaliadwy.
- 6.92 Trwy dwf wedi'i ganolbwyntio, mae'r strategaeth yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu amrywiaeth o swyddi, cartrefi, gwasanaethau a chyfleusterau a fydd yn gwella cynaliadwyedd ledled y sir.
- 6.93 Gosodir graddfa'r twf hwn a'i ddyraniad eang ym Mholisi S01. Prif geinciau'r rhain yw twf tai a thwf economaidd.
- 6.94 Rhestrir yr aneddiadau a ddosbarthwyd yn Ganolfannau Gwasanaeth Trefol (CGT), Canolfannau Gwasanaeth Gwledig (CGG), Aneddiadau Cysylltiedig Mwy ac Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy yn Atodiad 1. Cefn gwlad sy'n

⁴³ Nid yw uchafswm canran a nifer yr unedau a nodir, unwaith y cânt eu cyrraedd, yn atal datblygiad unedau pellach cyn belled â bod modd eu cyfiawnhau yn unol â'r Canllawiau Cenedlaethol.

agored yn bennaf yw'r lleoliadau nas enwyd yn Atodiad 1 lle mae aneddiadau bach wedi'u gwasgaru a lle y bydd gwaith datblygu dan reolaeth lem.

- 6.95 Yr angen rhagweledig am dai dros gyfnod y cynllun yw 2,437 o unedau ychwanegol. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r lefel honno o dwf, mae angen darparu hyblygrwydd i ganiatáu am rai safleoedd na fyddant yn cynnig eu hunain. Mae targed cyflawni 3,000 o dai yn darparu ar gyfer yr hyblygrwydd hwn, gan gynnwys darpariaeth am ymrwymadau sy'n weddill / (tai presennol).
- 6.96 Mae Tabl 6.1 yn dangos sut y gellir cyflawni'r ddarpariaeth hon trwy gyfuno ymrwymadau, dyraniadau, datblygu ar hap a safleoedd na ddyrannwyd. Mae polisïau S02, S03 ac S04 yn manylu sut a ble bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei chaniatáu. Mae **Atodiad XX** yn manylu'r angen rhagweledig a'r cyfleoedd a ddarperir ar gyfer pob Grŵp Aneddiadau, ei Ganolfan Wasanaeth, ei Aneddiadau Cysylltiedig Mwy, ei Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy, a'i 'Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill'.

Level of Growth Proposed by Settlement Tier

Settlement Type	Percentage share of growth	No of planned units	Annual total requirement
USC	55%	1320	88
RSC	20%	480	32
LLS	15%	360	24
SLS	10%	240	16
LS & OL	0%	0	0
Total	100%	2400	160

Polisiau Strategol

- 6.97 Yn yr adran hon, mae pob cyfeiriad at ffiniau aneddiadau, dyraniadau a Mapiau Cynigion yn cyfeirio at fanylion y cynllun a fydd yn cael eu paratoi yn dilyn yr ymgynghoriad hwn ac fel rhan o'r Cynllun Adneuo / dogfennau atodol. Rhagwelir y bydd y Cynllun Adneuo yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym Mai – Mehefin 2020. Bydd Datganiadau Grwpiau Aneddiadau yn cael eu paratoi fel Canllawiau Cynllunio Atodol, gyda drafft yn cael ei baratoi ar gyfer ymgynghoriad ochr yn ochr â'r Cynllun Adneuo.

Polisi S01:


Twf Cynaliadwy

Bydd twf yn cael ei ganolbwyntio er mwyn darparu cymunedau cryfach, mwy cynaliadwy a chyflawnir hyn drwy ddarparu cyfle i ddatblygu fel a ganlyn:

1. Tua 3,000 o anheddau er mwyn bodloni'r gofyniad twf a ragwelir ar gyfer 2,437 o unedau annedd (manylion yn Nhabl 6.1). Cyflawnir hyn mewn modd cynaliadwy trwy'r dosbarthiad canlynol:
 - a. O leiaf 55% yn y Canolfannau Gwasanaeth Trefol yn unol â Pholisi S02 ar safleoedd a ddyrannwyd fel y'i nodir yn Atodiad **XX** a'i ddangos ar y Map Cynigion ac ar 'safleoedd ar hap';
 - b. 20% yn y Canolfannau Gwasanaeth Gwledig a'r Aneddiadau Cysylltiedig Mwy sy'n gysylltiedig â nhw ar safleoedd a ddyrannwyd fel y'i nodir yn Atodiad XX, Datganiadau'r Grwpiau Aneddiadau a'r Map Cynigion yn unol â Pholisi S03; a
 - c. 15% mewn Aneddiadau Cysylltiedig Mwy sy'n gysylltiedig â nhw;

- d. 10% yn yr aneddiadau cysylltiedig cynaliadwy; a
 - e. Chynigion sy'n unol â Pholisi Cenedlaethol o fewn 'Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill' ar safleoedd nad ydynt wedi eu dyrannu yn unol â Pholisi S04 yn unig.⁴⁴
2. Cyfleoedd cyflogaeth i ddarparu ar gyfer **xxxx**⁴⁵ o swyddi ar draws y sir mewn modd cynaliadwy un unol â pholisïau S02, S03 ac S04, naill ai ar:
- a. **xx** hectar (net) o dir a ddyrannir sydd i'w ddangos ar Fap Cynigion y Cynllun Adneuo; neu
 - b. Safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu yn unol â pholisïau LU11–LU21.
3. Mathau eraill o ddatblygiad ar safleoedd dyranedig fel y'u nodir yn Natganiadau'r Grwpiau Aneddiadau a'u dangos ar y Map Cynigion, yn ogystal â safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu a ddarperir yn unol â Pholisi'r Cynllun.

Wrth gyflawni'r twf hwn, mae amgylchedd ac adnoddau'r sir yn cael eu diogelu a'u gwella.

 Amcanion: 1–18

- 6.98 Diben y strategaeth yw gwella cynaliadwyedd y sir. Yr hyn sy'n allweddol i gyflawni'r strategaeth yw creu cymunedau cynaliadwy.

⁴⁴ Ni fydd uchafswm canran a nifer yr unedau sy'n cael eu nodi, unwaith y maent wedi'u bodloni, yn atal datblygiad unedau pellach ar yr amod y gellir eu cyfiawnhau yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol.

⁴⁵ Bydd nifer y swyddi a'r cyfanswm hectarau yn cael eu sefydlu o ganlyniad i'r gwaith tir cyflogi a gomisiynir yn gydweithredol gan Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru (Mai 2019) a byddant yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Adneuo.

- 6.99 Trwy dwf canolbwyntiedig, mae'r strategaeth yn darparu cyfleoedd ar gyfer amrediad o swyddi, cartrefi, gwasanaethau a chyfleusterau i ddatblygu, a fydd yn gwella cynaliadwyedd ledled y sir.
- 6.100 Mae gradd y twf hwn a'i ddsbarthiad eang yn cael eu nodi ym Mholisi S01, y mae ei brif feysydd yn dai a thwf economaidd.
- 6.101 Mae aneddiadau sydd wedi'u dosbarthu fel Canolfannau Gwasanaeth Trefol, Canolfannau Gwasanaeth Gwledig neu Ganolfannau Cysylltiedig Mwy, Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy ac Aneddiadau Cysylltiedig wedi'u rhestru yn Atodiad X. Mae lleoliadau nas enwir yn Atodiad X yn dir cefn gwlad agored yn bennaf gyda gwasgariad o aneddiadau bach, lle y rheolir gwaith datblygu yn llym.
- 6.102 2,437 o unedau ychwanegol yw'r angen rhagweledig ar gyfer tai dros gyfnod y cynllun. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r lefel honno o dwf, mae angen darparu hyblygrwydd er mwyn caniatáu ar gyfer rhai safleoedd na fydd yn dod ymlaen ac ar gyfer cyfran sylweddol o ganiatadau heb eu derbyn, a ddygwyd ymlaen o'r Cynllun Datblygu Lleol presennol. Darparwyd ar gyfer yr hyblygrwydd hwn yn yr aneddiadau cynaliadwy, y Canolfannau Gwasanaeth.
- 6.103 Mae Tabl XX, sydd i'w gynnwys yn y Cynllun Adneuo, yn dangos sut y gellir diwallu'r ddarpariaeth hon trwy gyfuniad o ymrwymadau, dyraniadau, safleoedd ar hap a safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu. Mae polisïau S02, S03 ac S04 yn manylu sut a phryd bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei thrwyddedu. Mae Atodiad 2 yn nodi'n fanwl yr angen rhagweledig a'r cyfleoedd a ddarperir ar gyfer pob Grŵp Aneddiadau, ei Ganolfan Wasanaeth, Aneddiadau Cysylltiedig Mwy, Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy, a'i 'Aneddiadau Cysylltiedig a Safleoedd Eraill' sy'n weddill.
- 6.104 Ni fyddai darparu tai heb gyfleoedd gwaith cysylltiedig yn gynaliadwy (Maen Prawf 2). Yn unol â hynny, mae'r cynllun hefyd yn caniatáu cyfle ar gyfer creu xxxx o swyddi. Gall y swyddi hyn gael eu creu naill ai yn unol â

pholisïau S02–S04, trwy'r safleoedd sydd wedi'u dyrannu (gweler Datganiadau'r Grwpiau Aneddiadau a'r Map Cynigion) neu fel safleoedd ar hap drwy bolisïau'r cynllun (gweler LU11 – LU21 a Datganiadau'r Grwpiau Aneddiadau). Mae'r dull ychwanegol ar sail polisi sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth cyflogaeth ynghylch safleoedd ar hap yn bwysig oherwydd natur wledig yr ardal, gyda 60% o'r boblogaeth yn byw y tu allan i Ganolfannau Gwasanaeth Trefol, graddfa fechan mentrau, a'r angen i ddal pob prosiect priodol sy'n creu swyddi.

- 6.105 Mae'n bwysig fod gan bobl mynediad at gyfleusterau eraill sy'n agos i le maent yn byw er mwyn lleihau'r angen i deithio (Maen Prawf 3). Mae hyn yn ei gwneud yn haws i bobl ddiwallu eu hanghenion o fewn ardal agos, gan wella'r ymdeimlad o gymuned. Am y rheswm hwnnw, bydd y Cynllun Adneuo yn darparu cefnogaeth ar gyfer cyfleusterau o'r fath (sy'n bodoli ac sy'n arfaethedig) trwy'r safleoedd a ddyrannwyd ac ar safleoedd ar hap yn seiliedig ar asesiad yn erbyn polisïau. Lle roedd anghenion penodol eraill yn hysbys ar adeg ysgrifennu'r cynllun (e.e. mwynau), bydd y Cynllun Adneuo yn darparu sicrwydd, cyn belled ag y gall, ynglŷn â chyflawni'r anghenion hyn drwy ddyraniadau tir penodol (Maen Prawf 3). Bydd pob dyraniad yn cael ei nodi yn y Cynllun Adneuo, ei fanylu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol⁴⁶ ar gyfer Datganiadau Grwpiau Aneddiadau a'i ddangos ar y Map Cynigion i gyd-fynd â'r Cynllun Adneuo, a'i restru, er hwylustod cyfeirio, mewn atodiad i'r Cynllun Adneuo. Bydd gofynion dyraniadau penodol sy'n berthnasol i'r cyfnod cais cynllunio yn cael eu nodi yn y 'Rhestr o Safleoedd a Ddyrannwyd', sy'n rhan o'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Datganiadau Grwpiau Aneddiadau.
- 6.106 Bydd y polisïau yn 'Adran Rheoli Datblygiad' y cynllun a rhai o'r polisïau yn Adran x, 'Mathau Penodol o Gynigion Defnydd Tir', yn sicrhau bod twf yn cael ei gyflawni mewn modd cynaliadwy, gan ddiogelu a gwella'r amgylchedd a gwella cydnheredd y sir.

⁴⁶ Cyhoeddir hon mewn ffurf ddrafft a bydd yn destun ymgynghoriad ochr yn ochr â'r Cynllun Adneuo.

Polisi S02:**Datblygu o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol**

Mae Canolfannau Gwasanaeth Trefol yn darparu lleoliadau cynaliadwy lle bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu sydd:

1. Mewn perthynas ag Aberystwyth;
 - a. Yn cyfrannu at gynnal ei harwyddocâd cenedlaethol a'i rôl fel canolfan strategol ar gyfer canolbarth Cymru;

NEU

2. Mewn perthynas ag Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Aberaeron a Thregaron:
 - a. Yn cyfrannu at eu rôl isranbarthol yn gyffredinol fel y'i nodir yn Natganiadau'r Grwpiau Aneddiadau. Yn cyfrannu at eu rôl is-ranbarthol yn gyffredinol fel y'i nodir yn Natganiadau'r Grwpiau Aneddiadau;

NEU

3. Mewn perthynas â'r Aneddiadau Cysylltiedig Mwy sy'n gysylltiedig â'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol, bydd gwaith datblygu tai yn cael ei ganiatáu yn unol â Datganiad y Grŵp Aneddiadau a pholisïau eraill y cynllun, o ran:
 - a. safleoedd a ddyrannir (gweler Datganiad y Grŵp Aneddiadau a'r Map Cynigion) hyd at y lefelau darparu tai a nodir mewn atodiad i'r Cynllun Adneuo; a
 - b. safleoedd 'ar hap';

AC

4. Mewn perthynas â'r holl Ganolfannau Gwasanaeth Trefol a'r Aneddiadau Cysylltiedig Mwy sy'n gysylltiedig â nhw:
 - a. ei fod o fewn y ffin anheddiad ddiffiniedig (gweler y Map

Cynigion), yn cyd-fynd â darpariaethau Datganiad y Grŵp Aneddiadau, a'i fod yn bodloni holl bolisiâu eraill y cynllun.

Amcanion: 1 – 5, 7 – 9, 11, 16, 17

- 6.107 Y Canolfannau Gwasanaeth Trefol yw'r prif ffocws ar gyfer datblygu yn Strategaeth Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion.
- 6.108 Y Canolfannau Gwasanaeth Trefol yw'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygu o ystyried bod ganddynt fâs critigol o ran cyflogaeth a gwasanaethau, gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith datblygu yn ystod y cyfnod cynllunio yn cael ei gyfeirio tuag atynt.
- 6.109 Rhestrir y Canolfannau Gwasanaeth Trefol a'r Aneddiadau Cysylltiedig Mwy sy'n gysylltiedig â nhw yn Atodiad X. Nodir manylion pellach ynghylch rôl a swyddogaeth pob Canolfan Gwasanaeth Trefol yn Natganiadau Grwpiau Aneddiadau unigol.
- 6.110 Mae gan Aberystwyth rôl flaenllaw y cydnabyddir yn genedlaethol, gan gynnwys o fewn Cynllun Gofodol Cymru, a bydd y rôl hon yn cael ei chydabod hefyd yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sydd ar ddod. Cefnogir y rôl hon yn y Cynllun Datblygu Lleol drwy ddarparu ar gyfer y prif ffocws o ran tai a chyfleoedd cyflogaeth.
- 6.111 Lle mae Strategaethau Adfywio / Cynlluniau Llefydd sy'n dod i'r amlwg yn bodoli ar gyfer y Canolfannau Gwasanaeth Trefol, mae'r rhain yn darparu blas nodweddion unigol y Ganolfan Wasanaeth Drefol.
- 6.112 Bydd ffin anheddiad yn cael ei darparu yn y Cynllun Adneuo ar gyfer pob Canolfan Wasanaeth Drefol ac Anheddiad Cysylltiedig Mwy er mwyn gwneud lledaeniad daearyddol derbyniol y datblygiad yn glir. Disgwylir y bydd pob darn o waith datblygu yn cael ei gynnal o fewn ffin anheddiad y Ganolfan Wasanaeth Drefol.

- 6.113 Bydd dyraniadau tir yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Adneuo er mwyn diwallu amrediad o anghenion gwahanol o fewn pob Canolfan Wasanaeth Drefol, a byddant yn cael eu dangos ar Fap Cynigion y Cynllun Adneuo. Bydd y manylion a'r gofynion ynghylch safleoedd sydd wedi'u dyrannu yn cael eu trefnu yn Natganiadau'r Grwpiau Aneddiadau (gweler adran Rhestrau o Safleoedd a Ddyrannwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol, sydd i'w chyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo).
- 6.114 Mae ymrwymïadau a dyraniadau presennol yn bodoli er mwyn darparu ar gyfer y rhan fwyaf o'r twf a ragwelir ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau yn y Canolfannau Gwasanaeth Trefol (manwerthu, tai, swyddfeydd, ac ati). Fodd bynnag, o ystyried mai nhw yw'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygu, nid oes terfyniad twf uchaf wedi cael ei bennu ar gyfer unrhyw fath o ddatblygiad yn y Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Fodd bynnag, argymhellir bod cap sefydlog yn cael ei osod ar Aneddiadau Cysylltiedig Mwy, fel y nodir yn Atodiad XX.
- 6.115 O fewn y Ganolfan Wasanaeth Drefol, cyfeirir at dir nad yw wedi'i ddyrannu yn y Cynllun Adneuo fel safle ar hap mewn perthynas â datblygiadau tai ac fel safle nad yw wedi'i ddyrannu o ran pob math arall o ddatblygiad. Bydd datblygu ar hap neu ddatblygu ar dir nad yw wedi'i ddyrannu'n benodol, gan gynnwys tai, sy'n dod ymlaen yn cael ei dderbyn os yw'r cynnig yn unol â pholisïau eraill o fewn y Cynllun Datblygu Lleol. Nodir gofynion neu gyfyngiadau penodol a allai effeithio ar safleoedd o'r fath yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Datganiadau Grwpiau Aneddiadau.
- 6.116 Mae Atodiad XX yn darparu arwydd o sut y gallai graddfa bosibl y datblygiad tai gael ei chynnwys o ran ymrwymïadau, dyraniadau, a safleoedd ar hap o fewn pob Canolfan Wasanaeth Drefol ac Anheddiad Cysylltiedig Mwy.
- 6.117 Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Datganiadau Grwpiau Aneddiadau yn nodi manylion sy'n ymwneud â phob Canolfan Wasanaeth Drefol ac Anheddiad Cysylltiedig Mwy, gan gynnwys unrhyw ofynion yn

ystod y cyfnod cais cynllunio mewn perthynas â phob safle sydd wedi'i ddyrannu (gweler y Rhestr o Safleoedd a Ddyrannwyd) ac mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad safle ar hap neu nad yw wedi'i ddyrannu yn ogystal.

Polisi S03:**Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig**

Bydd canolbwyntio datblygiad mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig yn gwella cynaliadwyedd ardaloedd gwledig ac o ganlyniad bydd datblygiadau yn cael eu caniatáu fel a ganlyn yn y Ganolfan Gwasanaeth Gwledig:

1. Datblygu tai yn unol â Datganiad y Grŵp Aneddiadau a pholisïau eraill y cynllun, o ran:
 - a. safleoedd a ddyrannwyd (gweler Datganiad y Grŵp Aneddiadau a'r Map Cynigion⁴⁷) hyd at y lefelau darparu tai a nodir mewn atodiad i'r Cynllun Adneuo; a
 - b. safleoedd 'ar hap';

NEU

2. Mewn perthynas ag Aneddiadau Cysylltiedig Mwy sy'n gysylltiedig â'r Canolfannau Gwasanaeth Gwledig, bydd gwaith datblygu tai yn cael ei ganiatáu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Datganiadau Grwpiau Aneddiadau a pholisïau eraill y cynllun, o ran:
 - a. safleoedd a ddyrannwyd (gweler Datganiad y Grŵp Aneddiadau a'r Map Cynigion) hyd at y lefelau darparu tai a nodir mewn atodiad i'r Cynllun Adneuo; a
 - b. safleoedd 'ar hap';

AC

3. Mewn perthynas â'r holl Ganolfannau Gwasanaeth Gwledig a'r Aneddiadau Cysylltiedig Mwy sy'n gysylltiedig â nhw
 - a. Ei fod o fewn y ffin anheddiad ddiffiniedig (gweler y Map Cynigion), yn cyd-fynd â darpariaethau'r Canllawiau Cynllunio

⁴⁷I'w gyhoeddi fel rhan o'r Cynllun Adneuo

Atodol ar gyfer Datganiad y Grŵp Aneddiadau, a'i fod yn bodloni holl bolisiau eraill y cynllun.

4. Datblygu cyflogaeth mewn modd sy'n cyd-fynd â Datganiad y Grŵp Aneddiadau a pholisiau eraill y cynllun, o ran safleoedd a ddyrannwyd (gweler Map y Cynigion) ac ar safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu. Ni ddylai datblygiad ar safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu fod yn fwy na 'chanolig' o ran maint;
5. Dylid ond cael datblygiad manwerthu pan mae'n darparu cyfleoedd ar gyfer dewis gwell o nwyddau cyfleus; a
6. Mathau eraill o ddatblygiad a fydd yn cefnogi swyddogaeth y Ganolfan Gwasanaeth Gwledig yn unol â Datganiad y Grŵp Aneddiadau.

Yn ogystal, dylai pob datblygiad tai gael ei ddatblygu o fewn y ffin anheddiad ddiffiniedig sy'n cael ei dangos ar Fap y Cynigion, i'w gyhoeddi fel rhan o'r Cynllun Adneuo ar wahân i safleoedd gwledig sydd wedi'u heithrio (gweler Polisi S05: Tai Fforddiadwy). Bydd defnyddiau eraill sy'n cael eu cyflwyno yn gyfagos i ffin yr anheddiad yn cael eu caniatáu, ar yr amod eu bod yn cyd-fynd â pholisiau eraill y cynllun a lle y dangoswyd nad oes lleoliad addas ar gael o fewn y ffin.

☞ Amcanion: 1 – 5, 7 – 9, 11, 16, 17

- 6.118 Mae gan y Canolfannau Gwasanaeth Gwledig rôl bwysig i'w chwarae o ran gwella cynaliadwyedd yr ardal ddaearyddol gyfan y maent wedi'u cynnwys ynddi ac yn y sir yn gyffredinol. O ganlyniad, y rhain yw'r ffocws eilaidd ar gyfer datblygu fel rhan o'r strategaeth oherwydd eu rôl o ran darparu i raddau mwy neu lai ar gyfer anghenion o ddydd i ddydd yr ardal ehangach. Drwy gryfhau rôl y Canolfannau Gwasanaeth Gwledig trwy ganolbwyntio gwaith datblygu, byddant yn dod yn fwyfwy o ganolbwynt ar gyfer darparu gwasanaethau a seilwaith. Bydd hyn yn gwella'r synnwyr o gymuned ac yn

ei gwneud yn haws ar gyfer pobl sy'n byw ym mhob ardal i ddiwallu eu hanghenion yn lleol.

- 6.119 Rhestrir y Canolfannau Gwasanaeth Gwledig yn Atodiad X. Mae eu rolau a'u swyddogaethau unigol yn cael eu nodi ymhellach yn Natganiadau'r Grwpiau Aneddiadau (Canllawiau Cynllunio Atodol).
- 6.120 Mae gan bob Canolfan Gwasanaeth Gwledig ffin anheddiad (i'w chyhoeddi fel rhan o'r Cynllun Adneuo) sy'n nodi terfynau derbyniol unrhyw ddatblygiad preswyl. Fodd bynnag, wrth gydnabod cyd-destun mwy gwledig y Canolfannau Gwasanaeth Gwledig dros Ganolfannau Gwasanaeth Trefol, cynigir cyfle hefyd i gyflwyno mathau o ddatblygiad heblaw am dai cyffredin y tu hwnt i'r ffin os nad oes lleoliadau addas ar gael o fewn y ffin. Diben hyn yw annog a hwyluso gwaith i greu defnyddiau a chyfleusterau ar gyfer y gymuned yn ogystal â chyfleoedd cyflogaeth. Yn ychwanegol, gallai safleoedd gwledig wedi'u heithrio neu safleoedd 'tai fforddiadwy yn unig' gael eu cyflwyno mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig yn union y tu allan i ffin yr anheddiad yn unol â TAN2 a Pholisi S05, ar yr amod bod angen clir wedi'i ddangos ar gyfer y datblygiad. Ar gyfer dibenion Polisi S03, mae 'cyfagos' yn golygu 'yn union wrth ymyl'.
- 6.121 Mewn perthynas â Chanolfannau Gwasanaeth Gwledig, mae unrhyw dir nad yw wedi'i ddyrannu yn y Cynllun Adneuo yn cael ei gyfeirio ato fel safle ar hap o ran datblygiadau tai a safle nad yw wedi'i ddyrannu o ran pob math arall o ddatblygiad. Bydd datblygiad sy'n codi ar safle ar hap neu ar safleoedd nad ydynt wedi'u dynodi, naill ai ar gyfer tai, cyflogaeth neu fathau eraill o ddefnydd, yn cael ei dderbyn os yw'r cynnig yn unol â pholisïau cynllunio eraill (gan gynnwys Maen Prawf 1 uchod mewn perthynas â thai). Mae gofynion neu gyfyngiadau penodol a allai gael effaith ar safleoedd o'r fath yn cael eu nodi yn Natganiad y Grŵp Aneddiadau.
- 6.122 Yn y Canolfannau Gwasanaeth Gwledig, mae'n bwysig fod datblygiadau tai yn cael eu cyflwyno ond mae'r un mor bwysig nad yw maint y gwaith yn gyffredinol yn fwy na'r hyn sydd wedi'i asesu i fod yn gynaliadwy ar hyn o

bryd. Felly, bydd datblygu cynyddol ar safleoedd a ddyrannwyd yn y Canolfannau Gwasanaeth Gwledig sydd i'w gyhoeddi fel rhan o'r Cynllun Datblygu yn cael ei ganiatáu hyd at y lefelau a nodir yn Atodiad XX ar gyfer pob Canolfan Gwasanaeth Gwledig yn unig.

- 6.123 Nid yw adnewyddu caniatâd cynllunio blaenorol neu gyfredol yn y Canolfannau Gwasanaeth Gwledig wedi'i warantu (gweler Polisi LU05).
- 6.124 Mae 'datblygu cyflogaeth' yng nghyd-destun Maen Prawf 2 y polisi hwn yn ymwneud â defnyddiau B1, B2 a B8 (a defnyddiau unigryw sy'n ategu'r defnyddiau dosbarth B hyn). Bydd gan rai o'r Canolfannau Gwasanaeth Gwledig ddyraniadau cyflogaeth ar gyfer y dosbarthiadau defnydd hyn o fewn y Ganolfan Gwasanaeth Gwledig neu gerllaw (gweler Datganiad y Grŵp Aneddiadau a'r Map Cynigion). Er mwyn sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth yn cefnogi rôl y Ganolfan Gwasanaeth Gwledig, bydd cyfyngiadau yn cael eu gosod ar faint y datblygiad a gyflwynir ar dir nad yw wedi'i ddyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mewn perthynas â datblygiadau cyflogaeth o'r fath o dan Faen Prawf 2 o'r polisi hwn, diffinnir 'maint canolig' fel datblygiad â gofod llawr gros nad yw'n fwy na 2,500 o fetrau sgwâr. Ymdrinnir â defnyddiau datblygu economaidd eraill gan Faen Prawf 3 (siopa) neu 4 (hamdden, twristiaeth ac ati). Ni ddisgwylir y bydd datblygiad cyflogaeth yn addas yn gyffredinol mewn Anheddiad Cysylltiedig Mwy.
- 6.125 Mewn perthynas â chyfleoedd siopa (Maen Prawf 3), disgwylir y bydd Canolfannau Gwasanaeth Gwledig ond yn darparu ar gyfer anghenion o ddydd i ddydd. Ni ddisgwylir y byddant yn cystadlu â Chanolfannau Gwasanaeth Trefol neu'n denu pobl i'r ardal nad ydynt yno yn barod. Fel y cyfryw, mae'r polisi yn cefnogi ehangu siopa 'cyfleus' ond nid creu cyfleoedd cymharol mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig. Ni fydd dyraniadau manwerthu penodol yn cael eu darparu ar gyfer unrhyw un o'r Canolfannau Gwasanaeth Gwledig.

- 6.126 Gallai defnyddiau eraill (Maen Prawf 4) gynnwys defnyddiau hamdden neu gymunedol ymysg eraill. Mae'n bwysig fod y defnyddiau hyn yn cefnogi rôl y Ganolfan Gwasanaeth Gwledig neu'r Anheddiad Cysylltiedig Mwy a'u bod o faint sy'n briodol i'w rolau a swyddogaethau.
- 6.127 Bydd Datganiad y Grŵp Aneddiadau⁴⁸ yn cael ei gyhoeddi fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Bydd yn nodi manylion o ran pob Canolfan Gwasanaeth Gwledig ac Anheddiad Cysylltiedig Mwy, gan gynnwys unrhyw ofynion ar gyfer cyfnod y cais cynllunio mewn perthynas â phob safle a ddyrannwyd o fewn y Cynllun Adneuo (gweler y Rhestr o Safleoedd a Ddyrannwyd) a hefyd mewn perthynas yn gyffredinol ag unrhyw ddatblygiad ar hap (mewn perthynas â thai) a gwaith datblygu ar safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu mewn perthynas â phob math arall o ddatblygiad.

Polisi S04:**Datblygu mewn 'Aneddiadau Cysylltiedig'**

Mae gofyn cael rhywfaint o ddatblygiad mewn lleoliadau ac eithrio'r Canolfannau Gwasanaeth (Trefol neu Wledig) er mwyn bodloni gofynion cymunedau presennol. Fodd bynnag, maent yn llai cynaliadwy ac felly bydd datblygiadau mewn 'Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill' ond yn cael eu caniatáu lle:Fodd bynnag, maent yn llai cynaliadwy ac felly bydd datblygiadau mewn 'Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill' ond yn cael eu caniatáu lle:

1. Nad ydynt yn arwain at golli gwasanaethau neu gyfleusterau oni bai y ceir darpariaeth ddigonol mewn anheddiad neu Ganolfan Gwasanaeth gyfagos.
2. Mewn achos datblygiad tai:

⁴⁸ I'w gyhoeddi fel rhan o'r Cynllun Adneuo

- a. Bydd darpariaeth tai gyffredinol ond yn cael ei chaniatáu yn yr 'Aneddiadau Cysylltiedig Mwy' a'r Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy. Mae pob 'Anheddiad Cysylltiedig' arall a thir gwledig agored yn amhriodol ar gyfer datblygiadau tai oni bai y gellir eu cyfiawnhau ar sail un o'r canlynol:
- i. eu bod yn diwallu angen amlwg ar gyfer tai fforddiadwy sydd heb ei ddiwallu'n lleol ac sy'n cyd-fynd â Pholisi S05; neu
 - ii. eu bod yn diwallu angen amlwg ar gyfer annedd menter wledig yn unol â TAN6; neu
 - iii. eu bod yn diwallu angen amlwg i ddiogelu ased hanesyddol fel y'i diffinnir gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol 2015 a TAN24; neu
 - iv. eu bod yn cydymffurfio â gofynion LU09 o ran adfer anheddau blaenorol neu segur; neu
 - v. eu bod yn cydymffurfio â 'Datblygu yng nghefn gwlad' (Polisi Cynllunio Cymru 3.56) o ran cynyddu gweithgarwch economaidd lleol.

NEU

3. Yn achos datblygiad economaidd:
- a. ei fod yn cael ei gynnig ar safle a ddyrannwyd fel y'i nodir yn Natganiadau'r Grwpiau Aneddiadau a'i ddangos ar y Map Cynigion; neu
 - b. ei fod ar safle nad yw wedi'i ddyrannu a naill ai:
 - i. y mae 'o faint bychan' sy'n diwallu angen lleol penodol; neu
 - ii. y mae'n cyd-fynd â gofynion TAN6 o ran menter wledig.

AC

Ym mhob achos

4. O ran ei leoliad ffisegol, gwaeth beth yw math y datblygiad:
 - a. Mewn 'Anheddiad Cysylltiedig', mae'n cyd-fynd â Pholisi Cynllunio Cymru 3.56 ac mae wedi'i leoli o fewn neu'n union gyfagos i ffurf adeiledig sylweddol; neu
 - b. Mewn 'Lleoliadau eraill', mae naill ai'n cyd-fynd â gofynion TAN6 neu, o ran tai fforddiadwy, mae wedi'i leoli'n union gyfagos i grwpiau presennol o anheddau yn unol â bwriadau paragraff 3.56 o Bolisi Cynllunio Cymru a TAN2, paragraff 10.13.

☞ Amcanion: 1 – 5, 7 – 9 , 11, 16, 17

6.128 Mae pob rhan o'r sir nad yw wedi'i nodi fel Canolfan Gwasanaeth (Trefol neu Wledig) neu Aneddiadau Cysylltiedig Mwy wedi derbyn sylw gan y Polisi hwn a chyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy, Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill'. Mae rhai o'r ardaloedd hyn wedi'u diffinio yn y Cynllun Datblygu Lleol fel 'Aneddiadau Cysylltiedig' ac maent wedi'u rhestru yn Atodiad 1. Cyfeirir at unrhyw le nad yw wedi'i ddiffinio fel Canolfan Gwasanaeth, Anheddiad Cysylltiedig Mwy neu 'Anheddiad Cysylltiedig' yn Atodiad 1 fel 'Lleoliadau Eraill' ac yn gefn gwlad agored gan amlaf ond gyda nifer o aneddiadau bach, a dylid rheoli datblygiad mewn lleoliadau o'r math yn llym. Disgwylir y bydd yr 'Aneddiadau Cysylltiedig' hyn yn ogystal â 'Lleoliadau Eraill' yn edrych tuag at Ganolfan Wasanaeth i ddiwallu eu hanghenion ac felly ystyrir bod eu cymunedau yn 'gysylltiedig' ag un neu fwy o'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol neu Ganolfannau Gwasanaeth Gwledig.

6.129 Dylai unrhyw ddatblygiad sy'n digwydd y tu allan i'r Canolfannau Gwasanaeth ganolbwyntio'n bennaf ar yr 'Aneddiadau Cysylltiedig Mwy' a'r 'Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy'. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod y bydd amgylchiadau sy'n cyd-fynd â Pholisi

Cynllunio Cymru (TAN6) lle gallai mathau penodol o ddatblygiad mewn 'Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill' fod yn dderbyniol, gan gynnwys anheddau ar gyfer gweithwyr amaethyddol, menter wledig, arallgyfeirio ar fferm er budd economaidd, adfer anheddau blaenorol neu segur, trawsnewid adeiladau hanesyddol er mwyn eu diogelu ar gyfer y dyfodol, a defnyddiau tebyg eraill. Cwmpasir darpariaethau o'r fath gan ganllawiau cenedlaethol ac nid ydynt wedi'u hailadrodd ym Mholisi S04 ac eithrio at ddibenion croesgyfeirio.

- 6.130 Ni fydd tai'r farchnad gyffredinol yn cael eu caniatáu yn yr 'Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill' hyn gan mai nhw yw'r lleoedd lleiaf cynaliadwy. Yr unig ffordd i sicrhau bod tai yn diwallu anghenion cymunedau lleol presennol yw eu cyfyngu i anheddau menter wledig neu dai fforddiadwy yn unig. Felly bydd gwaith datblygu tai yn yr 'Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill' ond yn cael ei ganiatáu os naill ai y gellir ei gyfiawnhau yn unol â TAN6 fel annedd menter wledig neu le y gellir dangos bod angen ar gyfer annedd fforddiadwy, neu gyfiawnhad arall fel y'i nodir ym Mholisi S04. Felly bydd gwaith datblygu tai yn yr 'Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill' ond yn cael ei ganiatáu os naill ai y gellir ei gyfiawnhau yn unol â TAN6 fel annedd menter wledig neu le y gellir dangos bod angen ar gyfer annedd fforddiadwy, neu gyfiawnhad arall fel y'i nodir ym Mholisi S04. Dylai cyfiawnhad annedd fforddiadwy hefyd ddangos na ellir diwallu'r angen sydd heb ei ddiwallu mewn Canolfan Wasanaeth neu 'Anheddiad Cysylltiedig' gerllaw. Dylai cyfiawnhad annedd fforddiadwy hefyd ddangos na ellir diwallu'r angen sydd heb ei ddiwallu mewn Canolfan Wasanaeth neu 'Anheddiad Cysylltiedig' gerllaw. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith fod angen yn bodoli ar gyfer uned fforddiadwy yn diystyru'r gofyniad y dylai datblygiad gael ei lleoli mewn modd cynaliadwy. Mae'n rhaid felly i unedau fforddiadwy gael eu lleoli o fewn neu'n union gyfagos i grwpiau presennol o anheddau yn unol â bwriadau paragraff 3.56 o Bolisi Cynllunio Cymru a TAN2, paragraff 10.13. Mae'n rhaid felly i unedau fforddiadwy gael eu lleoli o fewn neu'n union gyfagos i grwpiau presennol o anheddau yn unol â bwriadau paragraff 3.56 o Bolisi Cynllunio Cymru a TAN2, paragraff 10.13.

- 6.131 Mae'r 'Aneddiadau Cysylltiedig' yn aml yn llai cydlynol yn eu ffurf adeiledig nag aneddiadau mwy. Am y rheswm hwn a rhesymau eraill, nid yw'r Cynllun Datblygu Lleol wedi ceisio aseinio ffiniau anheddiad i 'Aneddiadau Cysylltiedig'. Mae'n bwysig fod gwaith datblygu yn dod ymlaen mewn ffordd sy'n gwella trefn ffisegol/weladwy yr adeiladau sy'n cynnwys yr anheddiad ac, i'r perwyl hynny, mae'r polisi yn ei gwneud yn ofynnol, er mwyn fod yn dderbyniol, bod rhaid i ddatblygiadau gael eu lleoli o fewn neu'n union gyfagos i grŵp o anheddau y gellir eu hadnabod yn hawdd fel rhan o'r anheddiad dan sylw. At ddibenion Polisi S04, mae 'cyfagos' yn golygu 'yn union wrth ymyl' a dylai arwain at sefyllfa lle nad oes unrhyw dir gwag rhyngddo a'r ffurf adeiledig, gan gynnwys gerddi mawr iawn.
- 6.132 O ran **tai**:
- 6.133 Mae gan y mwyafrif llethol o Aneddiadau Cysylltiedig stoc o caniatadau sydd heb eu derbyn neu sydd ar gael ar gyfer datblygu, felly ni chaniateir datblygiadau pellach mewn aneddiadau lle mae'r capasiti hwn yn bodoli.
- 6.134 Nid yw adnewyddu caniatadau cynllunio blaenorol neu gyfredol yn yr 'Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill' wedi'i warantu (gweler Polisi LU05). Bydd caniatadau ond yn cael eu hadnewyddu o dan amgylchiadau eithriadol – mae'r cyngor yn gweithredu polisi o'i ddefnyddio neu ei gollu mewn Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill.
- 6.135 O ran **datblygu economaidd**:
- 6.136 Mewn perthynas â Maen Prawf 3, mae datblygu economaidd yn cwmpasu pob agwedd o'r economi, gan gynnwys manwerthu, hamdden a thwristiaeth. Mae ystyr graddfa fechan yng nghyd-destun Maen Prawf 3 fel a ganlyn:
- Datblygiad cyflogaeth B1, B2 neu B8 gyda gofod llawr gros sy'n llai na 1,500 o fetrau sgwâr;

- Datblygiad hamdden gyda gofod llawr gros sy'n llai na 500 o fetrau sgwâr;
- Datblygiad manwerthu gyda gofod llawr gros sy'n llai na 250 o fetrau sgwâr; a
- Datblygiadau twristiaeth sy'n gymesur â graddfa'r anheddiad y bwriedir eu hadeiladu ynddo. Nid oes ardal benodol o dir y gellir ei phennu i gyfyngu ar faint datblygiadau twristiaeth gan fod y rhain yn amrywio yn ôl y safle neu'r math o ddatblygiad.

Polisi S05:

Tai Fforddiadwy

Noder – bydd ffigur ar gyfer tai fforddiadwy sydd i'w gynnwys yn y polisi yn cael ei nodi er mwyn ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo o ganlyniad i ymchwil bresennol a gomisiynwyd yn rhanbarthol (Asesiad o'r farchnad dai drawsffiniol a gwaith hyfywedd rhanbarthol)

Nod polisiâu a dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol yw sicrhau tua **xx** o dai fforddiadwy trwy:

1. Geisio trafod cyfran o Dai Fforddiadwy ar bob cynllun tai newydd ac ar drosiadau o fwy na phum uned, sy'n benodol i'r lefelau cyfrannu amrywiol sydd wedi'u mapio ledled y sir (gweler map Polisi S05). Bydd y cymysgedd yn unol â dosbarthiad yr Asesiad o Anghenion Tai Lleol neu fel y penderfynwyd yn y cam cyn gwneud cais fel ei fod yn bodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Tai Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ynghylch anghenion presennol yn yr ardal a'r gallu i'w gyflawni.
2. Bydd yn ofynnol bod cynigion, o ganlyniad i Faen Prawf 1, yn cynhyrchu gofyniad tai fforddiadwy nad yw'n uned gyfan neu le na ellir darparu'r cymysgedd fel unedau cyfan, yna:
 - i. bydd cynllun sy'n gyfwerth yn cael ei benderfynu sy'n bodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Tai

Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ynghylch anghenion lleol a'r gallu i'w gyflawni; neu


- ii. Telir swm gohiriedig ar lefel sy'n cyfateb i werth y cynllun cyfan neu ran ohono ar y farchnad agored neu daliad cydbwysu.

3. Caniateir 100% o safleoedd tai fforddiadwy lle ceir tystiolaeth i gyfiawnhau bod angen tai fforddiadwy yn lleol nas diwallwyd ar yr amod fod lleoliad y datblygiad yn unol â pholisïau S02, S03 ac S04. Bydd safleoedd tai gwledig wedi'u heithrio ond yn cael eu caniatáu mewn perthynas â Chanolfannau Gwasanaeth Trefol, Canolfannau Gwasanaeth Gwledig, 'Aneddiadau Cysylltiedig Mwy', 'Aneddiadau Cysylltiedig' a 'Lleoliadau Eraill'.

Bydd meddiannaeth o'r holl dai fforddiadwy yn cael ei rheoli am byth yn unol â manylion a fydd yn cael eu nodi mewn atodiad i'r Cynllun Adneuo.

Rhaid i ddatblygiadau sy'n cynnwys tai fforddiadwy neu sy'n cynnig 100% o dai fforddiadwy ddarparu gwybodaeth ddigonol i ddangos lleoliad y plotiau, maint y plotiau, y safon adeiladu a math eiddo'r unedau fforddiadwy. Os nad oes gwybodaeth ddigonol ar gael i benderfynu gwerth yr uned ar ôl ei chwblhau, bydd y cais yn cael ei wrthod.

Bydd angen i ddatblygwyr sy'n ceisio trafod gostyngiad o ran y ddarpariaeth o dai fforddiadwy gyflwyno manylion i ddangos diffyg hyfywedd ar gyfer y safle penodol ar sail llyfr agored sy'n arddangos cost annormal nad oedd modd ei chynnwys ar adeg y dyraniad (lle bo hynny'n berthnasol).

 Amcanion: 1 – 5, 7, 8, 16

- 6.137 Bydd Polisi S05 yn nodi'r Targed Tai Fforddiadwy ar gyfer Ceredigion yn y Cynllun Adneuo, gan greu cyfle ar gyfer darpariaeth tai i ddiwallu amrediad

o anghenion fforddiadwy yn ardaloedd trefol a gwledig Ceredigion. Bydd y polisi yn sicrhau tryloywder cynigion cynllunio ar gyfer tai fforddiadwy, gan helpu hefyd i fodloni Amcanion 1 ac 8. Bydd canlyniad yr ymchwil drawsffiniol bresennol yn llywio'r targed fforddiadwy ar gyfer y Cynllun Adneuo a bydd yn cynorthwyo wrth nodi cyfraniadau canrannol sy'n gymaradwy ar draws rhanbarthau gwledig tebyg.

- 6.138 Wrth ddefnyddio'r ymadrodd 'pob cynllun tai newydd', mae'r polisi yn cyfeirio at ddatblygiadau tai a ddyrannwyd, ar hap, ac sydd heb eu dyrannu.
- 6.139 Mae'r cyfiawnhad dros fynnu canrannau amrywiol o dai fforddiadwy ar bob safle ledled y sir yn cael ei archwilio a bydd yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r Cynllun Adneuo a Chanllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig sy'n gysylltiedig.
- 6.140 Dangosir y gwahanol opsiynau ar gyfer defnyddio unrhyw symiau gohiriedig o arian mewn Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig. Bydd 'Tai Fforddiadwy' yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ochr yn ochr â'r Cynllun Adneuo. Cynghorir trafodaeth gynnar â'r Awdurdod Cynllunio Lleol lle bydd darpariaethau amgen yn angenrheidiol.
- 6.141 Mae Maen Prawf 3, safleoedd tai gwledig wedi'u heithrio sydd yn 100% fforddiadwy (TAN2) yn ei gwneud yn ofynnol bod safleoedd gwledig wedi'u heithrio o fewn neu gyfagos i aneddiadau gwledig presennol na fyddai'n cael eu rhyddhau ar gyfer tai ar y farchnad fel arall. Diben yr egwyddor o ganiatáu eithriadau o ran tai fforddiadwy, gan gynnwys safleoedd sydd i gyd wedi'u heithrio, yw diwallu anghenion fforddiadwy yn lleol er mwyn helpu i gynnal cymunedau gwledig, yn gyson â Pholisi Cynllunio Cymru a TAN6.
- 6.142 Bydd meini prawf meddiannaeth ar gyfer tai fforddiadwy yn cael eu nodi mewn atodiad i'r Cynllun Adneuo: 'Tai Fforddiadwy' a byddant yn cael eu hymgorffori yn y cytundeb adran 106 sy'n berthnasol i'r tir sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio mewn perthynas â phob datblygiad preifat.

- 6.143 Nodir manylion o fecanweithiau rhaedru perthnasol er mwyn bod yn gymwys i feddiannu tai fforddiadwy yn ôl deiliadaethau priodol yn Atodiad X: 'Tai Fforddiadwy' a byddant yn cael eu hymgorffori ym mhob cytundeb adran 106 penodol mewn perthynas â phob datblygiad preifat.
- 6.144 Mae'r polisi yn ceisio osgoi rhoi caniatâd ar gyfer tai fforddiadwy nad ydynt o gyfran neu ddyluniad priodol. (Gweler Canllawiau Cynllunio Atodol 'Tai Fforddiadwy'.)
- 6.145 Anogir datblygwyr i ystyried yr amrediad o ffyrdd y gellir eu defnyddio i fodloni'r gofyniad tai fforddiadwy ac i drafod y rhain yn ystod y cam cyn gwneud cais.
- 6.146 Darperir Canllawiau Cynllunio Atodol / canllawiau ymgeisio ar faterion i'w hystyried wrth baratoi cais cynllunio â gwybodaeth ddigonol er mwyn caniatáu asesiad cychwynnol o werth yr uned a gwblhawyd, y byddai angen i ymgeiswyr gymhwyso yn ei erbyn er mwyn meddianu'r uned. Bydd y Cynllun Adneuo yn cyfeirio at yr amgylchiadau lle na fydd heriau hyfywedd yn dderbyniol a bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig ynghylch tai fforddiadwy yn nodi'r rhain.

Polisi Strategol ar Gynllunio a'r Gymraeg

- 6.147 Mae'r Gymraeg yn rhan gynhenid o wead cymdeithasol a diwylliannol Ceredigion a bydd ei llesiant ar gyfer y dyfodol yn dibynnu ar amrediad eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newidiadau demograffig, gweithgareddau cymunedol a sail economaidd gadarn, er mwyn cynnal cymunedau a lleoedd cynaliadwy a ffyniannus, yn ogystal â'i hystyried wrth gynllunio defnydd tir.
- 6.148 'Cymraeg 2050'⁴⁹ yw Strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Mae'n nodi ymagwedd hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni Cymraeg ffyniannus gyda miliwn o siaradwyr

⁴⁹<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf>

Cymraeg erbyn 2050. Nodir tair thema strategol i helpu i gyflawni'r weledigaeth hon:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg,
- Cynyddu defnydd o'r Gymraeg,
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

6.149 Mae'r strategaeth yn cydnabod rôl y system gynllunio o ran cyfrannu at hyfywedd y Gymraeg, trwy greu amodau cynaliadwy ar gyfer cymunedau cynaliadwy ffyniannus, a gefnogir gan ymwybyddiaeth o egwyddorion perthnasol cynllunio ieithyddol. Mae gan benderfyniadau ynghylch math, graddfa ac union leoliad datblygiadau o fewn cymuned benodol y potensial i gael effaith ar ddefnydd iaith ac, o ganlyniad, ar gynaliadwyedd a hyfywedd yr iaith. Mae hyn yn gofyn am gryfhau'r berthynas rhwng cynllunio ieithyddol a chynllunio defnydd tir.

6.150 Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn cynghori y dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried yr amodau sy'n angenrheidiol ar gyfer y Gymraeg ac, wrth wneud hynny, cyfrannu at ei defnydd a nod llesiant Cymraeg ffyniannus. Mae'n cynghori ymhellach y dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau dosbarthiad eang o waith datblygu sy'n cael ei gyflwyno fesul cam ac sy'n ystyried gallu ardal neu gymuned i ddelio â datblygiad heb iddo gael effaith niweidiol ar ddefnydd y Gymraeg.

6.151 Mae gan y Gymraeg rôl bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd trigolion ac ymwelwyr ardal y cynllun, ac ystyrir Ceredigion fel rhan o'r 'Fro Gymraeg'. Lle cynigir datblygiad, mae'n rhaid ystyried gwella a diogelu'r iaith a'i diwylliant ieithyddol. Mae cynnal y cymunedau presennol yn allweddol o ran hyn. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig ac mae'n ceisio cefnogi cymunedau trefol a gwledig, trwy hyrwyddo economïau lleol a chymunedau lleol iach, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer pobl a chymunedau fel eu bod yn ffynnu a bod pobl yn gallu gwireddu cyfleoedd amrywiol o fewn Ceredigion yn hytrach na gorfod symud i rywle arall.

- Bydd y Cynllun Adneuo'n cynnwys cyfres o bolisïau a fydd yn hwyluso hyn. Disgwylir y bydd annog cyfleoedd economaidd a thai yn agos i ble mae pobl yn byw, yn ogystal â mentrau partneriaeth eraill, yn cael effaith gadarnhaol ar hyfywedd y gymuned ac ar y Gymraeg. Bydd polisïau yn helpu i sicrhau bod y lefel a math cywir o angen yn cael eu diwallu a bod cyflymder y gwaith datblygu yn galluogi'r datblygiad i gael ei ymgorffori heb niweidio cymeriad y gymuned a bod cyfleusterau cymunedol presennol yn cael eu cadw, fel y bo'n briodol. Disgwylir i ddatblygiadau masnachol, manwerthu a diwydiannol ddangos dealltwriaeth o gyfansoddiad ieithyddol Ceredigion, a statws y Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghymru. Dylai fod ymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Bydd dyraniadau arfaethedig o fewn y Cynllun Adneuo wedi'u hasesu ar gyfer effeithiau cronus a chymunedol posibl cynigion ar ddefnydd y Gymraeg.
- Mae'r awdurdod yn ystyried bod cryfhau deddfwriaethau a pholisi cenedlaethol⁵⁰ mewn modd cynyddol mewn perthynas â'r Gymraeg er mwyn cefnogi twf a datblygiad y Gymraeg ac i gydnabod y camau cynllunio a allai gyfrannu at hyn yn cyfiawnhau sefydlu polisi strategol ar gyfer cynllunio a'r Gymraeg sy'n gymwys ledled Ceredigion yn ei chyfanrwydd.

Polisi S06:**Cynllunio a'r Gymraeg**

Bydd y Cyngor Sir yn hyrwyddo a chefnogi defnydd o'r Gymraeg trwy ddynodi Ceredigion, yn ei chyfanrwydd, yn sensitif yn ieithyddol.

Amcanion: 1 – 8, 11, 16, 18

6.152 Yn y Cynllun Adneuo, bydd Polisi DM01 yn nodi darpariaethau manwl:

⁵⁰ Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cynllunio Cymru 2015, Cymraeg 2050 (2017), TAN20: Cynllunio a'r Gymraeg (diwygiedig) (2017), Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10 (2018)

- Sy'n gofyn am asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, a fydd yn nodi sut bydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg, lle mae'r datblygiad arfaethedig ar safle hap annisgwyl ar gyfer datblygiad tai neu gyflogaeth ar raddfa fawr.
- Ar gyfer cymhwyso ffactorau lliniaru ar gyfer unrhyw ffactorau negyddol cynnig datblygu, trwy'r system gynllunio, a bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi er mwyn darparu canllawiau pellach ar y math o wybodaeth neu asesiad a fydd ei angen yn ystod cyfnod y cais cynllunio i lywio asesiad o'r effaith, unrhyw niwed posibl, a'r angen posibl am fesurau lliniaru a/neu fesurau i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol.




Diagram o'r Chwedl i'r Allwedd yn nodi Canolfannau Gwasanaethau Gwledig wedi'u rhifo, gydag Aneddiadau Arfaethedig Grŵp Aneddiadau a mathau o ddatblygiad

a	b	c
Service Centre and Linked Settlement name	Settlement Type	Potential Development
1 Aberaeron (Llwyncelyn / Ffosyffin)		
Aberarth	SLS	Minor OMH
Ciliau Aeron	SLS	Minor OMH
Ffos-y-ffin	Moved to USC	
Pennant	LS	Nat Pol
2 Cardigan		
Ferwig	SLS	Minor OMH
Gwbert	LS	Nat Pol
Llangoedmor	LS	Nat Pol
Llechryd	LLS	Alloc Sites+ WF
Penparc	LLS	Alloc Sites+ WF
3 Aberystwyth /Llanbadarn Fawr /Waunfawr /Penparcau / Commins Coch / Rhydyfelin		
Blaenplwyf	SLS	Minor OMH
Capel Bangor	LLS	Alloc Sites+ WF
Capel Seion	LS	Nat Pol
Commins Coch	Moved to USC	
Goginan	LS	Nat Pol
Llanfarian	LLS	Alloc Sites+ WF
Llangorwen	LS	Nat Pol
Rhydyfelin	Moved to USC	
4 Newcastle Emlyn (Adpar)		
Betws Ifan	LS	Nat Pol
Beulah	LS	Nat Pol
Brongest	LS	Nat Pol
Bryngwyn	LS	Nat Pol
Cwm Cou	LS	Nat Pol
Llandyfriog	SLS	Minor OMH


a	b	c
Service Centre and Linked Settlement name	Settlement Type	Potential Development
5 Lampeter		
Betws Bledrws	Removed as settlement	
Cellan/Fishers Arms	SLS	Minor OMH
Cwrtnwydd	LS	Nat Pol
Drefach / Llanwennog	LS	Nat Pol
Gorsgoch	Removed as settlement	
Llangybi	SLS	Minor OMH
Llanwnen	SLS	Minor OMH
Llwyn-y-groes	Removed as settlement	
Silian	Removed as settlement	
6 Llandysul		
Aberbanc	Joined with Penrhiwllan	
Capel Dewi(SOUTH)	LS	Nat Pol
Coed y Bryn	LS	Nat Pol
Croeslan	SLS	Minor OMH
Ffostrasol	SLS	Minor OMH
Henllan/Trebedw	SLS	Minor OMH
Horeb	Needs to be considered further	
Maesymeillion	Removed as settlement	
Penrhiwllan / Aberbanc	SLS	Minor OMH
Pentrellwyn	LS	Nat Pol
Prengwyn	Removed as settlement	
Rhydowen / Pontsian	LS	Nat Pol
Talgarreg	LS	Nat Pol
7 Tregaron		
Bron-nant	LS	Nat Pol
Llanddewi Brefi	SLS	Minor OMH
Llangeitho	SLS	Minor OMH
8 Aberporth / Parcllyn		

a	b	c
Service Centre and Linked Settlement name	Settlement Type	Potential Development
Blaenannerch	LS	Nat Pol
Blaenporth	SLS	Minor OMH
Brynhoffnant	Upgraded to RSC	
Tanygroes	SLS	Minor OMH
Tresaith	LS	Nat Pol
9 Bow Street		
Llandre	LLS	Alloc Sites+ WF
10 New Quay / Cross Inn		
Caerwedros / Llwyndafydd	LS	Nat Pol
Cross Inn (Coinewydd/New Quay)	Upgraded to RSC	
Maen-y-groes	LS	Nat Pol
Pentre'r Bryn / Synod Inn	LS	Nat Pol
Plwmp	LS	Nat Pol
11 Cenarth		
Llandygydd	LS	Nat Pol
12 Felinfach / Ystrad Aeron		
Cilcennin	LS	Nat Pol
Cribyn	SLS	Minor OMH
Dihewyd	LS	Nat Pol
Talsarn	LS	Nat Pol
13 Llanarth		
Derwen Gam/Oakford	Removed as settlement	
Gilfachreda	SLS	Minor OMH
Mydroilyn	LS	Nat Pol
14 Llanilar		
Cnwch Coch	Removed as settlement	
Llanafan	LS	Nat Pol
Llanfihangel y Creuddyn	Removed as settlement	
Lledrod	LS	Nat Pol
15 Llanon		

a	b	c
Service Centre and Linked Settlement name	Settlement Type	Potential Development
Bethania	LS	Nat Pol
Cross Inn (Llanon) / Nebo	LS	Nat Pol
Nebo	Joined with Cross Inn	
16 Llanrhystud		
Llangwyrfon	LS	Nat Pol
17 Llanybydder		
Alltyblacca / Highmead	SLS	Minor OMH
Highmead	Joined with Alltyblacca	
18 Penrhyncoch		
19 Ponterwyd		
Ponterwyd	Upgraded to RSC	
Devils Bridge	LS	Nat Pol
20 Pontrhydendigaid		
Pont-rhyd-y-groes	LS	Nat Pol
Ysbyty Ystwyth	LS	Nat Pol
Ystrad Meurig	LS	Nat Pol
21 Talybont		
Eglwysfach / Furnace	SLS	Minor OMH
Tre Taliesin	SLS	Minor OMH
Tre'r Ddol	SLS	Minor OMH
22 Borth		
Dol-y-bont	Removed as Settlement	
Ynyslas	LS	Nat Pol
23 Brynhoffnant		
Llangrannog	LS	Nat Pol
Pontgarreg	LS	Nat Pol
Sarnau	LS	Nat Pol
Rhydlewis/ Hawen	LS	Nat Pol

Atodiad 2: Nodau Llesiant a Ffyrdd o Weithio

Nodau Llesiant



Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Ddeddf wedi pennu 'egwyddor datblygu cynaliadwy' er mwyn dweud wrth sefydliadau sut i gyflawni eu dyletswydd dan y Ddeddf.

Yn y Ddeddf hon, mae unrhyw gyfeiriad at y ffaith bod corff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy" yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Rhan 2 'Gwella Llesiant', adran 5 'Yr egwyddor datblygu cynaliadwy', paragraff (1).

Wrth wneud eu penderfyniadau, rhaid i gyrrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae 5 peth y mae'n rhaid i gyrrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd cadw at y dulliau gweithio hyn yn ein helpu ni i gydweithio well, osgoi alladrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor ryd yn eu hwynebu.

Hirdymor



Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

Atal



Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

Integreiddio



Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrrff cyhoeddus eraill.

Cydweithio



Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

Cynnwys



Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.